

# Canllawiau'r Cwrs Sylfaen

[www.dysgucymraeg.cymru](http://www.dysgucymraeg.cymru)



Dysgu  
Learn

## Cwrs Sylfaen – Canllaw i'r Tiwtor

**Croeso** i'r Cwrs Sylfaen cenedlaethol.

Ceir 28 o unedau. Dylai dosbarthiadau sy'n cwrdd am ddwy awr yr wythnos anelu at gwblhau'r hanner y cwrs mewn tua 60 awr a dylai dosbarthiadau dwys anelu at gwblhau'r lefel mewn tua 120 awr. Dylid pwysleisio nad yw pob uned yn unffurf o ran hyd. Bydd dysgwyr yn gallu sefyll arholiad Defnyddio'r Gymraeg Sylfaen ar ôl cwblhau'r lefel.

### Y Safle Rhyngweithiol

Ceir nifer fawr o adnoddau i gyd-fynd â phob uned ar y Safle Rhyngweithiol – **[www.dysgucymraeg.cymru](http://www.dysgucymraeg.cymru)**. Mae hyn yn cynnwys yr holl ddeunyddiau sain a fideo i'r dysgwr a'r tiwtor, ynghyd ag ymarferion ychwanegol i'r dysgwyr eu hunain.

### **Elfennau gwahanol yn y cwrs:**

#### Geirfa

Daw geirfa pob uned ar ddechrau'r uned. Dylid annog y dysgwyr i ymgyfarwyddo â'r eirfa cyn dod i'r dosbarth. Gellir gweld a chlywed y geiriau ar-lein a gwneud ymarferion. Wrth fynd dros yr eirfa yn y dosbarth, ni ddylid gofyn cwestiynau i'r dysgwyr a fydd yn golygu ateb yn Saesneg – mae angen iddyn nhw fod yn canolbwyntio ar ddweud yr eirfa yn Gymraeg. Manteisiwch ar y cyfle i weld cysylltiad rhwng geiriau, defnyddio'r berfenwau newydd i adolygu amserau'r ferf a meithrin ymwybyddiaeth o genedl enw trwy ofyn i'r dysgwyr dreiglo ar ôl enwau benywaidd unigol.

Rhennir yr eirfa'n enwau gwrywaidd, enwau benywaidd, berfenwau, ansoddeiriau ac eraill. Ceir allwedd i'r lliwiau a ddefnyddir yn yr uned gyntaf. Yn y cwrs cyfan (Unedau 1 – 26), cynhwysir yr eirfa a ystyrir yn eirfa graidd ar gyfer Sylfaen, a rhagor.

Yn ddiau, bydd y dysgwyr eu hunain yn gofyn am eirfa sy ddim yn y cwrs. Ceir lle iddynt nodi'r geiriau hyn yn eu llyfrau ond argymhellir hefyd fod tiwtoriaid yn creu cardiau fflach er mwyn ymarfer y geiriau hyn.

Awgrymir profi geirfa yn gyson. Gellir gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd – prawf confensiynol, kahoot, chwilair, quizlet, Bingo ac ati. Syniad arall yw cael y dysgwyr i feddwl am eu hoff bum gair a'u rhoi mewn brawddegau. Ar ôl eu gwirio, gellir rhoi'r brawddegau ar y bwrdd gwyn, gan adael blwch lle dylai'r gair fod. Rhaid i aelodau eraill y dosbarth ddyfalu beth yw'r gair.

Storom Eirfa – Ceir adran Siaradwch ym mhob uned ar destun pob dydd, y rhan fwyaf ohonynt yn bynciau all godi yn arholiad Sylfaen. Mewn rhai o'r adrannau hyn, ceir gweithgaredd Storom Eirfa. Ystyr hyn yw bod dysgwyr yn cael amser penodol, e.e. dwy funud, i restru cymaint o eiriau â phosib ar y pwnc dan sylw. Dylid creu rhestr ohonynt ar y bwrdd gwyn, gan ymhelaethu yn ôl yr angen a'r hyn sy'n briodol i lefel y dosbarth. Gellid dychwelyd at y rhestr ar ddiwedd y gwaith sgwrsio i weld faint o'r geiriau a ddefnyddiwyd wrth siarad.

### Patrymau

Mae'r cwrs wedi'i seilio ar batrymau'r Gymraeg yn cael eu hadeiladu'n rhesymegol. Ceir blociau o iaith i'w drilio. Dylid amrywio'r dril yn ôl y patrwm dan sylw a cheir canllawiau ym mhob uned, e.e. ailadrodd, defnydd o luniau a gwrthrychau, disodli. Mae'n bwysig iawn cael pobl ar eu traed yn ymarfer gyda'i gilydd ac mae hefyd yn bwysig iawn rhoi'r cyfle i ddysgwyr bersonoli mor fuan â phosib fel bod yr iaith yn dod yn ystyrion i'w sefyllfa nhw. Pan ddefnyddir cardiau i ymarfer, egwyddor bwysig yw y dylai unigolion gadw'r un cerdyn ar ddechrau'r ymarfer er mwyn meithrin hyder, ac yna ar ôl tua munud, cyfnewid y cerdyn gyda phob partner newydd. Ceir ymarfer yn seiliedig ar bob patrwm naill ai yn Llyfr y Dysgwyr neu yn y Canllawiau i'w wneud cyn symud ymlaen at y bloc iaith nesaf.

### Ynganu

Ceir ymarfer ynganu yn yr unedau adolygu.

### Sgwrs

Mae pob un o'r deialogau wedi'u recordio ac fel cam cyntaf dylid bob amser chwarae'r sgwrs gan annog y dysgwyr i beidio ag edrych ar y sgript. Mae'r deialogau hyn yn canolbwyntio ar y patrymau a ddysgwyd eisoes felly dylent fod yn ddealladwy. Ar ddiwedd y gwrandawriad cyntaf, gellid gofyn i'r dysgwyr am unrhyw air a ddeallwyd a'u nodi ar y bwrdd gwyn. Ceir syniadau am ymdrin â'r deialogau unigol yn y canllawiau, e.e. ymarferion disodli pan danlinellir rhai geiriau ac mae'n rhaid rhoi geiriau gwahanol yn eu lle.

### Robin Radio

Yn ogystal â'r deialogau cyffredinol ym mhob uned, ceir hefyd ddeialog Robin Radio sydd wedi'i recordio. Pwrpas y ddeialog hon yw meithrin y sgil o fras-ddeall ac ymgyfarwyddo â rhai ymadroddion sydd y tu hwnt yn ramadegol i'r patrymau dan sylw yn y cwrs. Ceir tair adran i'r dysgwyr: i) ateb cwestiynau sy'n meithrin eu sgiliau gwrandawro a bras-ddeall, ii) gwrandawro am ymadroddion newydd, iii) cyfieithu. Gofynnir i'r tiwtor ddychwelyd yn gyflym at yr ymadroddion newydd yn y wers nesaf er mwyn atgoffa'r dysgwyr ohonynt. Mae'r brawddegau i'w cyfieithu'n canolbwyntio ar ailgylchu patrymau mae'r dysgwyr wedi'u dysgu yn y cwrs felly mae'n ffordd o adolygu. Os na fydd amser yn ystod y dosbarth, gellir gosod Robin Radio fel gwaith cartref.

### Help Llaw

Ceir adran ar ddiwedd pob uned yn crynhoi'r gwaith newydd sy'n ymddangos yn yr uned.

### Siarad am thema

Mae'n bwysig iawn meithrin yr arfer o siarad rhydd erbyn lefel Sylfaen ac felly ceir adran ym mhob uned sy'n cyflwyno thema. Awgrymir cwestiynau bob tro, ond gellid weithiau ofyn i'r dysgwyr drafod heb gwestiynu neu geisio creu eu cwestiynau eu hunain. Gellid cynnal sesiwn adrodd yn ôl bob tro gyda dysgwr yn nodi un ffaith sy'n wir am berson arall yn y grŵp – argymhellir grwpiau bach ar gyfer y gweithgaredd yma.

Mae'r themâu yma'n cyd-fynd â'r themâu yn arholiad Sylfaen. Yn ogystal â siarad ar thema yn yr arholiad, bydd rhaid i'r dysgwyr holi'r cyfwelydd hefyd. Felly, pob pedair uned ceir deialog sy'n helpu'r dysgwyr i ffurfio cwestiynau. Argymhellir dilyn y camau isod:

- i. Chwarae'r sgwrs
- ii. Ymarfer darllen y sgwrs
- iii. Disodli
- iv. Ysgrifennwch y ddeialog ar y bwrdd gwyn, heb rai o'r cwestiynau. Nodir pa gwestiynau yn yr uned dan sylw. Rhaid i'r parau greu'r cwestiynau eu hunain er mwyn darllen y ddeialog.

### Ailgylchu Iaith ac Adolygu

Pan fo cwrs yn canolbwyntio ar adeiladu patrymau, rhaid bod yn ofalus iawn i ailgylchu'r patrymau a ddysgwyd yn flaenorol yn gyson. Daw hyn gyda sgwrsio personol ar ddechrau gwrs, trwy gyfrwng y deialogau, yr adrannau siarad am thema ond hefyd trwy'r Banc Cwestiynau y gall y dysgwyr eu defnyddio ar ddechrau pob gwrs – naill ai un cwestiwn i bawb a chrwydro, neu grwpiau bach yn gweithio trwy'r pecyn o gardiau. Nodir cwestiynau'r Banc ar ddechrau pob uned. Gellir defnyddio'r Banc Cwestiynau Mynediad hefyd, yn enwedig ar ddechrau'r flwyddyn pan na fydd cymaint o gwestiynau Sylfaen.

Ceir un syniad ar gyfer adolygu patrwm yr uned flaenorol yn y Canllawiau bob tro.

### Asesu ar gyfer Dysgu

Mae'n bwysig iawn asesu yn ystod y wers ac ar ddiwedd pob gwrs a yw'r dysgwyr yn deall yr hyn sy'n cael ei gyflwyno. Dyma rai syniadau:

- i. Gofyn ar ddiwedd gwrs beth a ddysgwyd. Gellir nodi'r pethau hyn ar y bwrdd gwyn a llenwi unrhyw fylchau. Gellid tynnu siâp ymennydd ar y bwrdd a llenwi'r siâp.
- ii. Rhoi post-it i bob dysgwr nodi tri pheth a ddysgwyd yn ystod y wers. Gellir eu casglu a dychwelyd atynt ar gyfer atgyfnerthu ar ddechrau'r wers nesaf.
- iii. Rhoi post-it i bawb gofnodi eu hoff frawddeg o'r wers/uned. Gellir eu hailddosbarthu a chael pawb i ddyfalu pwy ysgrifennodd beth.
- iv. Dewis hyd at bedwar gair o'r wers a gofyn i bawb ysgrifennu 4 brawddeg/cwestiwn yn ymarfer y geiriau hyn a'r patrymau targed.
- v. 3-4-5. Pawb i ddweud tri pheth maen nhw wedi'u dysgu wrth bedwar person mewn pum munud.
- vi. Pawb i greu bwydlen yn nodi tri peth mawn nhw wedi'u dysgu ar fffurf cwrs cyntaf, prif gwrs a phwddin. Gellid gofyn am rywbeth gwahanol ym mhob categori, e.e. cwrs cyntaf a phwddin yn eitemau geirfa a'r prif gwrs yn batrwm. (Gallai'r pwddin fod yn gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth.)
- vii. Ysgrifennu neges destun at ffrind yn dweud beth ddysgwyd yn y wers/uned.

### Gwaith Cartref

Ceir ymarferion gwahanol bob tro. Dylid ceisio gosod rhywbeth o'r Gwaith Cartref bob tro - hyd yn oed os nad ydych wedi gorffen yr uned. Os nad yw hyn yn bosib, cofiwch osod tasg, e.e. dysgu geirfa, gwrando ar ddeialogau, gwneud ymarferion ar y Safle Rhyngweithiol. Mae croeso wrth gwrs i chi osod eich gwaith cartref eich hunan, gan gynnwys tasgau ymarferol fel defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, neu sylwi ar arwyddion.

Mae'n bwysig iawn ymdrin â gwaith cartref yn brydlon ac yn broffesiynol. Hyd yn oed os ewch chi dros yr atebion yn y dosbarth o bryd i'w gilydd, sicrhewch eich bod yn casglu'r gwaith hefyd gan y bydd hyn yn rhoi dealltwriaeth lawn i chi o gynnydd y dysgwyr.

Mae lle ar ddiwedd y Gwaith Cartref i chi fel tiwtor osod nodau i'r dysgwyr yn seiliedig ar eu gwaith.

### Unedau Adolygu ac Ymestyn

Mae gêm gardiau'n adolygu'r holl batrymau a ddysgwyd ar ddechrau pob uned adolygu. Os yn bosib, gwahoddwch siaradwyr rhugl i mewn i gymryd rhan yn y gêm hon gyda'r dysgwyr. Dylid meithrin yr arfer o wahodd siaradwyr rhugl i'r dosbarth mor aml â phosibl

Mae'r fformat ychydig yn wahanol yn yr unedau adolygu. Cychwynnir gyda deialog, yn hytrach na phatrwm, gan ddod â'r patrymau a ddysgwyd ynghyd. Mae'r deialogau hyn wedi'u recordio a cheir awgrymiadau gwahanol i gyd-fynd â phob deialog. Weithiau bydd elfen ieithyddol newydd yn codi yn y ddeialog (e.e. dyfodol 'dod' yn Uned 6) ac felly ceir bloc dril neu ymarfer arall i dynnu sylw at y patrwm hwn.

### Arholiad Sylfaen

Ymgorfforir elfennau o'r arholiad yn y cwrs fel bod y dysgwyr yn paratoi'n naturiol ar gyfer ei sefyll a cheir un uned ar ddiwedd y cwrs sy'n canolbwyntio'n llwyr ar elfennau'r arholiad. Dylid dysgu'r uned hon pryd bynnag mae'n amserol, neu gellir cyflwyno'r gwahanol elfennau ar draws nifer o wersi.

## **POB LWC!**

## Canllawiau Uned 1

**Nod y wers:** Adolygu'n gyffredinol

### Cam 1 – Banc Cwestiynau:

Ble est ti dros y Sul?/Lle est ti dros y Sul?

Beth/be wnest ti neithiwr?

Beth dych chi'n hoffi ar y teledu ar hyn o bryd?/Be dach chi'n licio ar y teledu ar hyn o bryd?

Beth dych chi wedi yfed heddiw?/Be dach chi wedi yfed heddiw?

Ble byddwch chi'n mynd y penwythnos nesa?/Lle fyddwch chi'n mynd penwythnos nesa?

### Cam 2 – Adolygu cychwynnol

Bydd gan bob tiwtor ei ddull ei hun o gychwyn dosbarth. Un dewis yw gofyn i'r dysgwyr ofyn cwestiynau i chi. Os nad yw'r dosbarth yn hyderus iawn, dylid eu hateb yn syml yn unig. Os ydy'r dosbarth yn eithaf hyderus, gellir ateb y cwestiwn, ei ofyn i'r unigolyn a ofynnodd y cwestiwn, rhannu'n barau i gael y dysgwyr i holi ei gilydd, ac o bosib, gofyn am adrodd yn ôl yn y trydydd person.

Cyn troi at y gweithgaredd yn yr uned, gellir defnyddio'r cwestiynau yn y Banc Cwestiynau i adolygu hefyd.

### Cam 3 – Geirfa Uned 1

Fel arfer, dylid mynd dros yr eirfa ar ddiwedd yr uned flaenorol, ond dylid gwneud hynny yma.

### Cam 4 – Cyflwyniadau

Gofynnwch i bob unigolyn lenwi'r tabl yn y llyfr a chyflwyno eu hunain. Dylid cynorthwyo yn ôl yr angen yn ystod y broses hon. Yna, dylid rhoi cyfle i bobl ymarfer y cwestiynau a'r atebion trwy roi'r holiadur dosbarth ar waith. Yn olaf, dylai pawb gael cyfle i adrodd yn ôl am un person.

## Cam 5 – Adolygu'r Gorffennol

Ceir **ymarfer disodli** yn y Llyfr. Mae'r elfen i'w disodli wedi'i thanlinellu.

Prynais i paper newydd ddoe./Mi wnes i brynu paper newydd ddoe.

Es i i'r sinema neithiwr./Mi es i i'r sinema neithiwr.

Des i i'r dosbarth yn y car./Mi ddes i i'r dosbarth yn y car.

Beth wnest ti ti ddoe?/Be wnest ti ti ddoe?

Pryd codoch chi heddiw?/Pryd wnaethoch chi godi heddiw?

Sut daethoch chi i'r dosbarth?/Sut ddaethoch chi i'r dosbarth?/

Mae'r ymarfer disodli yma'n arwain yn naturiol at yr holiadur. Hefyd, cyflwynir ffurfiau gorffennol cryno 'dod' yn yr ymarfer disodli hwn. Mae hwn yn waith ymestynnol ond mae'r ffurfiau'n gyfarwydd yn sgil dysgu 'mynd' a 'gwneud'.

**Sgwrs 1** – mae'r sgwrs yn cynnwys llawer o ffurfiau gorffennol. Chwaraewch y sgwrs ddwywaith a gofynnwch i barau geisio cofio'r cwestiynau (amser gorffennol) sy'n codi yn y sgwrs, sef: Gest ti amser da? Beth ddysgaist ti? Â phwy siaradaist ti? Brynaist ti rywbeth? /Gest ti amser da? Be wnest ti ddysgu? Efo pwy wnest ti siarad?/Wnest ti brynu rhywbeth?

Rhannwch y dosbarth yn barau i ymarfer y sgwrs.

Ceir **ymarfer disodli** arall – y tro hwn i ganolbwyntio ar gwestiynau uniongyrchol er mwyn paratoi ar gyfer chwarae gêm drac, gofyn cwestiynau am y gwyliau a chwarae Llongau Rhyfel:

Arhosaist ti/Wnest ti aros yn Ffrainc am bythefnos?

Gyrhaeddaist ti / Wnest ti gyrraedd adre am bump o'r gloch?

Adawoch chi/Wnaethoch chi adael y bag ar y tren?

Yfoch chi ormod/Wnaethoch chi yfed gormod o goffi ddoe?

Rhannwch y dosbarth yn barau i chwarae'r gêm drac. Dylid eu hannog i ymestyn eu hatebion, os ydyn nhw'n rhoi ateb cadarnhaol i'r cwestiwn. Bydd 'naddo' yn ddigon ar gyfer ateb negyddol.

Rhannwch y dosbarth yn barau newydd i chwarae **Llongau Rhyfel**. Rhaid i bob partner ddewis 5 blwch. Nod y gêm yw dyfalu pa flychau mae'r partner wedi'u dewis trwy ymarfer gofyn cwestiynau uniongyrchol a'r atebion 'Do' a 'Naddo'. Mae'r parau'n gofyn bob yn ail ond ceir tro arall os dyfalir yn gywir. Byddai'n well ymarfer ffurfiau 'chi' yma.

Ewch dros y cwestiynau 'Ar dy wyliau diwetha' ac yna rhowch gerdyn i bawb (Atodiad 1). Rhaid holi ei gilydd, gan roi'r atebion sydd ar y cardiau. Fel cam olaf, dylid rhannu'r dosbarth yn grwpiau o dri i bersonoli a thrafod eu gwyliau diwethaf nhw.

## Cam 6 - Gwrando a Deall

Ceir ymarfer yn seiliedig ar Rap Cwestiynau Aneirin Karadog yn y llyfr. Daw'r darn o "Dysgu Trwy Lenyddiaeth" gol. Cyril Jones CBAC ac mae'r geiriau yn Atodiad 2. Chwaraewch y rap heb unrhyw dasg yn gyntaf. Ar yr ail wrandawriad, gofynnwch i'r dysgwyr nodi'r rhifau a dyddiau'r wythnos. Wedyn, dilynwch y cwestiynau sy yn Llyfr y Dysgwr.

## Cam 7 - Sgwrs

**Chwaraewch** y sgwrs ddwywaith ac yna rhannwch y dosbarth yn barau i ateb y tri chwestiwn isod:

Ble/Lle mae Dafydd a Siân yn gweithio?

Sut bydd tad Sian yn helpu gyda'r babi?/Sut fydd tad Sian yn helpu efo'r babi?

Beth/Be wnaeth y babi yn naw mis oed?

Rhannwch y dosbarth yn barau i **ddarllen** y sgwrs.

Mae'r llinellau isod yn **ymarfer yr amser dyfodol**:

Dafydd: Fydd hi gyda dy dad bob dydd?/Fydd hi efo dy dad bob dydd?

Siân: Na fydd. Bydd hi yn y feithrinfa dydd Mercher, dydd Iau a dydd Gwener – dechreuodd hi yr wythnos diwetha. Bydd dad yn gwarchod dydd Llun a dydd Mawrth, a gyda'r nos weithiau.

Driliwch berson cyntaf y dyfodol a'r cwestiwn 'Beth/be fyddi di'n wneud yr wythnos nesa?' neu 'Beth/Be fyddwch chi'n wneud yr wythnos nesa?' er mwyn sicrhau bod pawb yn cofio'r ffurfiau hyn. Yna, ewch ati i gwblhau'r grid 'Yr wythnos nesa'.

Dylid adrodd yn ôl am un person yn y trydydd person, yn debyg i Siân yn sôn am y babi yn y ddeialog uchod.



## Cam 8 – Siopa

Ym mhob uned, ceir cyfle i edrych ar un o'r pynciau fydd yn codi yn arholiad Sylfaen. Dechreuir yn aml gyda '**Storom eirfa**' – cyfle i'r dysgwyr nodi cymaint o eiriau â phosib yn ymwneud â'r thema, o leiaf 6.

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o 3 i **sgwrsio** am siopa, gan ddefnyddio'r cwestiynau i lywio'r sgwrs.

## Cam 9 – Robin Radio

## Cam 10 - Geirfa

Geirfa Uned 2.

## Cam 11- Crynhoi

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a wnaed yn Uned 1. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gellir defnyddio un o'r dulliau 'Asesu ar gyfer Dysgu' a nodir yn y Canllawiau Cyffredinol.

## Gweithgareddau Ychwanegol

Rhaid cropian cyn cerdded – Gan fod y geiriau i gyd yn gyfarwydd, cyflwynir yr idiom 'Rhaid cropian cyn cerdded' yn yr Eirfa. Yn dilyn y Sgwrs, gellid edrych ar y ddiarheb a gofyn a yw hynny'n wir yng nghyd-destun dysgu Cymraeg. Gallai arwain at drafod sefydlu arferion da ar gyfer y flwyddyn i ddod.

## Uned 1 - Atodiad 1

<p><b>Lle/Ble:</b> Ffrainc</p> <p><b>Pryd:</b> mis Mehefin</p> <p><b>Aros:</b> carafán</p> <p><b>Bwyta:</b> llawer o falwod</p> <p><b>Yfed:</b> llawer o goffi du</p> <p><b>Prynu:</b> anrhegion</p>	<p><b>Lle/Ble:</b> Iwerddon</p> <p><b>Pryd:</b> mis Chwefror</p> <p><b>Aros:</b> fflat</p> <p><b>Bwyta:</b> gormod o sglodion</p> <p><b>Yfed:</b> Guinness</p> <p><b>Prynu:</b> tabledi</p>
<p><b>Lle/Ble:</b> Llundain</p> <p><b>Pryd:</b> mis Rhagfyr</p> <p><b>Aros:</b> gwesty</p> <p><b>Bwyta:</b> pítsa</p> <p><b>Yfed:</b> gwin coch</p> <p><b>Prynu:</b> anrhegion Nadolig</p>	<p><b>Lle/Ble:</b> Sbaen</p> <p><b>Pryd:</b> mis Gorffennaf</p> <p><b>Aros:</b> pabell</p> <p><b>Bwyta:</b> tapas</p> <p><b>Yfed:</b> sangria</p> <p><b>Prynu:</b> siocledi</p>
<p><b>Lle/Ble:</b> gorllewin Cymru</p> <p><b>Pryd:</b> mis Awst</p> <p><b>Aros:</b> parc gwyliau</p> <p><b>Bwyta:</b> gormod o gacennau</p> <p><b>Yfed:</b> llawer o de</p> <p><b>Prynu:</b> llyfr Cymraeg</p>	<p><b>Lle/Ble:</b> Caerdydd</p> <p><b>Pryd:</b> mis Medi</p> <p><b>Aros:</b> gwesty</p> <p><b>Bwyta:</b> cyw iâr a llysiau</p> <p><b>Yfed:</b> te gwyrdd</p> <p><b>Prynu:</b> dillad newydd</p>
<p><b>Lle/Ble:</b> Llandudno</p> <p><b>Pryd:</b> mis Mai</p> <p><b>Aros:</b> gwely a brecwast</p> <p><b>Bwyta:</b> hufen îa</p> <p><b>Yfed:</b> llawer o goffi</p> <p><b>Prynu:</b> dillad newydd</p>	<p><b>Lle/Ble:</b> Gogledd Lloegr</p> <p><b>Pryd:</b> mis Ionawr</p> <p><b>Aros:</b> gwesty</p> <p><b>Bwyta:</b> pysgod a sglodion</p> <p><b>Yfed:</b> llawer o de</p> <p><b>Prynu:</b> siocledi</p>
<p><b>Lle/Ble:</b> De Ffrainc</p> <p><b>Pryd:</b> mis Mawrth</p> <p><b>Aros:</b> fflat</p> <p><b>Bwyta:</b> llawer o bysgod</p> <p><b>Yfed:</b> gwin</p> <p><b>Prynu:</b> anrhegion i'r teulu</p>	<p><b>Lle/Ble:</b> Gogledd Sbaen</p> <p><b>Pryd:</b> mis Ebrill</p> <p><b>Aros:</b> carafán</p> <p><b>Bwyta:</b> paella</p> <p><b>Yfed:</b> coffi llefrith/llaeth</p> <p><b>Prynu:</b> siocledi i'r staff yn y gwaith</p>

<p><b>Lle/Ble:</b> Paris</p> <p><b>Pryd:</b> mis Mai</p> <p><b>Aros:</b> gwesty</p> <p><b>Bwyta:</b> cig a llysiau</p> <p><b>Yfed:</b> coffi da</p> <p><b>Prynu:</b> dillad newydd</p>	<p><b>Lle/Ble:</b> Madrid</p> <p><b>Pryd:</b> mis Tachwedd</p> <p><b>Aros:</b> fflat</p> <p><b>Bwyta:</b> tapas</p> <p><b>Yfed:</b> siocled poeth</p> <p><b>Prynu:</b> esgidiau newydd</p>
<p><b>Lle/Ble:</b> Munich</p> <p><b>Pryd:</b> mis Hydref</p> <p><b>Aros:</b> gwesty</p> <p><b>Bwyta:</b> tatws</p> <p><b>Yfed:</b> cwrw</p> <p><b>Prynu:</b> selsig</p>	<p><b>Lle/Ble:</b> Barcelona</p> <p><b>Pryd:</b> mis Mehefin</p> <p><b>Aros:</b> fflat</p> <p><b>Bwyta:</b> hufen iâ</p> <p><b>Yfed:</b> lemonêd</p> <p><b>Prynu:</b> anrhegion i fy ffrindiau</p>
<p><b>Lle/Ble:</b> Majorca</p> <p><b>Pryd:</b> mis Awst</p> <p><b>Aros:</b> pabell</p> <p><b>Bwyta:</b> bwyd môr</p> <p><b>Yfed:</b> gwin gwyn</p> <p><b>Prynu:</b> ymbarél traeth</p>	<p><b>Lle/Ble:</b> Iwerddon</p> <p><b>Pryd:</b> mis Gorffennaf</p> <p><b>Aros:</b> pabell</p> <p><b>Bwyta:</b> brechdanau</p> <p><b>Yfed:</b> cwrw oer</p> <p><b>Prynu:</b> llyfrau</p>

## Uned 1, Atodiad 2

Ble wyt ti'n byw; O ble wyt ti'n dod?  
Cwestiwn ar ôl cwestiwn dyna beth sy'n bod.  
Oes gen ti rywbeth i fi, neu rywbeth i ni?  
Beth sy'n mynd drwy dy feddwl di?  
Sut mae'r tywydd? Ydy hi'n braf?  
Ydy hi'n oer yng nghanol yr haf?  
Wyt ti eisiau coffi neu de neu gwrw?  
Wyt ti'n hoffi mynd am dro os ydy hi'n bwrw... glaw, glaw.  
Pedwar, pump, chwech, saith, wyth a naw, naw...  
Wyt ti'n mynd am dro, i ble wyt ti'n mynd?  
Wyt ti'n mynd â'r ci am dro, neu wyt ti'n mynd â ffrind?  
Oes rhaid i ti fynd i Aberaeron,  
Abertawe, neu dre Caernarfon?  
Bangor, Y Rhyl neu dre Tregaron?  
Dw i'n dechrau mynd yn wirion.  
Beth wnest ti ddoe? Dwyt ti ddim yn cofio.  
Darllen, gweithio, canu neu nofio.  
Dwyt ti ddim yn gwybod, dwyt ti ddim yn gwranddo,  
Dydd Sadwrn, dydd Sul... wyt ti wedi blino?  
Dydd Mercher, dydd Iau...  
Wyt ti'n mwynhau?  
Mae gormod o gwestiynau. Dw i wedi cael digon.  
Y broblem yw hyn: does dim atebion!

## Canllawiau Uned 2

**Nod y wers:** Adolygu'r defnydd o 'sy' mewn cwestiwn a chyflwyno'r defnydd o 'sy' mewn cymal. Ni ddylid cyflwyno brawddegau pwysleisiol yma. Cyflwynir y gwaith hwn yn y cwrs Canolradd.

**Patrymau:** Dw i'n nabod rhywun sy'n..., Dw i'n nabod rhywun oedd yn..., Dw i'n nabod rhywun fydd yn...

### Cam 1 – Banc Cwestiynau:

Beth brynoch chi ddoe?/Be wnaethoch chi brynu ddoe?

Pwy ffonioch chi ddoe?/Pwy wnaethoch chi ffonio ddoe?

Pa lyfr ddarllenoch chi ddiwetha?/Pa lyfr wnaethoch chi ddarllen ddiwetha?

### Cam 2 – Adolygu Uned 1

Er mwyn adolygu ffurfiau'r gorffennol ac annog sgwrsio, gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu holiadur fel yr isod:

Enw	Neithiwr	Dydd Sadwrn	Nos Sadwrn	Nos Wener
-----	----------	-------------	------------	-----------

Rhaid holi o leiaf 5 person ble aethon nhw a beth wnaethon nhw yn y gwahanol gyfnodau. Dylid cynnal sesiwn adrodd yn ôl.

### Cam 3 – 'sy' mewn cymalau

Er mwyn cyflwyno'r gwaith hwn, gellir dangos y cyflwyniad PowerPoint ar y ffon gof a ddosbarthwyd gyda'r Pecyn Adnoddau i Diwtoriaid (blwch porffor) ac sydd hefyd ar y Safle Rhyngweithiol. Yna, driliwch y bloc cyntaf gan bersonoli ar ôl pob brawddeg. Gellid rhoi cerdyn i bawb godi a rhoi'r geiriau ar eu cerdyn nhw mewn brawddeg, Dw i'n nabod rhywun sy'n.... Rhai syniadau am gardiau - ysgrifennu llyfrau, adeiladu tai, cyfieithu llyfr Rwsieg, gwerthu hufen iâ, trefnu gig Cymraeg, cofio pen-blwydd pawb, anghofio pen-blwydd pawb, cymryd pum siwgr mewn te, rasio ceir, priodi yfory.

**Driliwch** y brawddegau negyddol, gan bersonoli eto.

Cyn drilio'r cwestiynau, gwnewch yn siŵr bod pawb yn gallu defnyddio'r amser perffaith (wedi) trwy gynnal dril. Gellid defnyddio cardiau post, llyfrau a cds i ymarfer Dw i wedi bod yn/Dw i wedi darllen/Dw i wedi clywed.

Wedyn, **driliwch** y cwestiynau ac yna rhowch yr holiadur ar waith. Os yw'r dysgwr yn ateb yn gadarnhaol, rhaid dweud pwy yw'r person, e.e. Ydw, dw i'n nabod rhywun sy wedi bod yn Wimbledon. Mae fy ffrind Nia yn mynd bob blwyddyn.

## Cam 4 – 'sy' mewn cwestiynau

Cyn dechrau drilio sy mewn brawddeg, ceir gweithgaredd syml i ddyfalu faint o bobl sy'n.... Yn gyntaf, rhaid i bawb ddyfalu faint o bobl yn y dosbarth sy'n gwneud y pethau a enwir ar y chwith (e.e. gyrru car coch). Rhaid canfod yr ateb wedyn trwy holi pawb - 'Wyt ti'n XX?'. Ceir pwynt am bob ateb cywir.

**Driliwch** y cwestiwn cyntaf. Gall pawb grwydro yn holi ei gilydd, 'Beth sy ar y teledu heno?' gan ateb gyda brawddeg normal, 'Mae Pobol y Cwm ar y teledu heno'. Gellid gosod gwrthrychau syml o gwmpas yr ystafell gan rannu'r dosbarth yn barau i holi ei gilydd, 'Beth sy ar y bwrdd/dan y bwrdd/ar y gadair/dan y gadair/wrth y ffenest?' ac ati. Eto, dylid ateb gyda brawddeg normal. Driliwch weddill y cwestiynau.

**Driliwch** y bloc nesaf 'Faint o ... sy gyda chi?' Rhannwch y dosbarth yn barau i feddwl am o leiaf un cwestiwn arall yn gofyn 'Faint '...' fyddai'n ddefnyddiol iddyn nhw. Gofynnwch i bawb grwydro yn holi ei gilydd 'Faint o ystafelloedd gwely/lyfrau Cymraeg/blant sy gyda chi/sgynnoch chi?' Dylech chi fodelu'r atebion – heb ddefnyddio pwyslais.

Er mwyn **ymarfer 'Pwy sy'n...'**, gofynnwch i bawb gwblhau'r blwch yn y Llyfr trwy ysgrifennu un enw (o'r rhestr ar y gwaelod) ar bwys y datganiadau. Rhaid holi, 'Pwy sy'n...?' Dylid ateb, 'Mae XX yn edrych ar raglenni Cyw'. Nid oes angen brawddegau pwysleisiol yma.

## Cam 5 – amserau gwahanol y ferf

**Driliwch** y frawddeg gyntaf er mwyn atgyfnerthu. Wrth ddrilio'r ail a'r drydedd frawddeg, rhannwch y dosbarth yn barau i ddisodli chwarae golff ar gyfer berfau eraill a chynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl.

## Cam 6 – Sgwrs

Chwaraewch y sgwrs ddwywaith heb unrhyw dasg. Y trydydd tro, gofynnwch i'r dysgwyr geisio cofio'r cwestiynau gyda 'sy':

Beth sy'n digwydd yn y gwaith yr wythnos yma?

Pwy sy'n gweithio y penwythnos nesa?

Pwy sy'n mynd i'r cyfarfod 'te?

Os yw'r rhan fwyaf yn eich dosbarth chi mewn gwaith, gofynnwch i bawb holi ei gilydd 'Beth sy'n digwydd yn y gwaith yr wythnos yma?' gan bwysleisio bod angen cadw'r atebion yn syml.

Rhannwch y dosbarth yn barau i ddarllen y ddeialog.

## Cam 7 – Chwaraeon

### 'Storom eirfa'

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o 3 i sgwrsio am chwaraeon, gan ddefnyddio'r cwestiynau i lywio'r sgwrs.

## Cam 8 – Robin Radio

Atgoffwch y dosbarth o ymadroddion Robin Radio Uned 1:

Croeso'n ôl i Gymru – dril disodli i Gymru am bethau perthnasol eraill, e.e. i'r dosbarth, enw trefi lleol.

Os dych/dach chi ddim yn gwybod – Ymarfer cyfieithu cyflym, e.e. If you're not sure, If you're not happy, If you're not working.

Dw i newydd ddod yn ôl – disodli 'ddod yn ôl'.

### Robin Radio 2.

## Cam 9 - Geirfa

Geirfa Uned 3

## Cam 10- Crynhoi

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a wnaed yn Uned 2. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gellir defnyddio un o'r dulliau 'Asesu ar gyfer Dysgu' a nodir yn y Canllawiau Cyffredinol.

## Canllawiau Uned 3

**Nod y wers:** Cyflwyno'r amodol.

**Patrymau:** Cadarnhaol, negyddol a chwestiynau'r amodol – pob person.

### Cam 1 – Banc Cwestiynau:

Faint o bobl sy yn y dosbarth heddiw?

Dych/Dach chi'n nabod rhywun sy ar wyliau ar hyn o bryd?

Dych/Dach chi'n nabod rhywun fydd yn cadw'n heini yr wythnos yma?

### Cam 2 – Adolygu Uned 2

Rhannwch y dosbarth yn barau i edrych ar y grid sy'n rhestru galwedigaethau. Yn syml iawn, mae'r parau'n holi ei gilydd, bob yn ail, 'Beth yw X?/Be ydy X?'. Rhaid ateb bob tro ar y patrwm hwn: 'person/dyn/dynes/menyw sy'n...

### Cam 3 – Cyflwyno'r Amodol

**Dwyn i gof** - Cyn cychwyn ar yr amodol, gellir adolygu amserau eraill y ferf sy'n defnyddio'r berfenw 'bod' gan fod 'Baswn i' yn gweithio yn yr un ffordd: Dw i'n darllen, ro'n i'n darllen, bydda i/mi fydda i'n darllen.

**Baswn i/Mi faswn i** - Driliwch y bloc cyntaf, gan stopio ar ôl pob brawddeg i bersonoli. Rhannwch y dosbarth yn barau i edrych ar y lluniau a chreu brawddegau.

**Faswn i ddim** - Atgoffwch y dysgwyr o'r negyddol yn y presennol, yr amherffraith a'r dyfodol (dw i ddim, do'n i ddim, fydda i ddim) ac ewch ymlaen i ddrilio bloc y negyddol, eto gan stopio ar ôl pob brawddeg i bersonoli.

**Faset ti/Fasech chi?** - Atgoffwch y dysgwyr bod treigladd meddal ar ddechrau cwestiwn a driliwch y bloc nesaf. Ceir dau weithgaredd i ymarfer y cwestiynau: set o gardiau yn Atodiad 1 i gael y dysgwyr ar eu traed yn holi ei gilydd yn defnyddio Fasech chi...?, a holiadur yn y llyfr.



**Basai/Mi fasai** - Driliwch bloc y trydydd person ac yna gofynnwch i bawb edrych yn ôl ar yr holiadur a chreu un frawddeg gadarnhaol am aelod o'r dosbarth. Gellid wedyn modelu brawddeg negyddol a gofyn am frawddeg negyddol.

**Ymarfer** - Rhewch ddarn bach o bapur i bawb gan ofyn iddynt ysgrifennu beth fasen nhw'n ei wneud gyda miliwn o bunnoedd. Casglwch y papurau a darllenwch beth sy arnynt, e.e. Basai un person yn symud i Ffrainc. Rhaid i bawb yn y dosbarth gynhyrchu brawddeg yn ceisio dyfalu pwy fasai'n symud i Ffrainc, e.e. Basai Siân yn symud i Ffrainc. Gellir rhoi pwynt am bob dyfaliad cywir.

**Basen ni a Basen nhw/Mi fasen ni a Mi fasen nhw** - Wrth gyflwyno ffurfiau ni a nhw, nodwch fod y llythyren 'e' yn amlwg iawn yn yr amodol. Driliwch y brawddegau negyddol ac yna rhannwch y dosbarth yn barau i nodi tri pheth na fasen nhw'n prynu. Ar ôl iddynt adrodd yn ôl, bydd gweddill y dosbarth yn ailadrodd y brawddegau ond gan ddefnyddio 'nhw'.

**Atebion** – Driliwch y cwestiynau gyntaf gan eu nodi ar y bwrdd gwyn wrth fynd ymlaen. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr ofyn y cwestiynau i chi er mwyn i chi allu modelu'r atebion. Rhannwch y dosbarth yn barau i holi'r cwestiynau hyn i'w gilydd ac yna mynd ymlaen i'r ymarfer paru cwestiwn ac ateb.

Yn olaf, driliwch y bloc i ymarfer cwestiynau 'Ble/Lle' a 'Beth/Be'. Gellir cael pawb ar eu traed yn holi ei gilydd ble basen nhw'n hoffi byw a beth fasen nhw'n nhw'n hoffi ei wneud (ar ôl y dosbarth/yfory). Bydd y cwestiynau'n cael eu hatgyfnerthu yn y Sgwrs.

## Cam 4 – Sgwrs

Chwaraewch y sgwrs ddwywaith ac yna rhannwch y dosbarth yn barau i ddarllen ac yna disodli'r geiriau a danlinellir.

## Cam 5 – Defnydd ymestynnol o'r amodol

Os yn bosib, defnyddiwch wrthrychau i gyflwyno'r dril nesaf. Ceir dril cwestiwn ac ateb. Peidiwch â chyflwyno 'na'. Os yn bosib, rhewch wrthrychau neu luniau o fwyd neu ddiod i bawb er mwyn ymarfer y patrwm tra'n crwydro'r dosbarth. Rhannwch y dosbarth yn barau i ymateb i'r brawddegau yn y llyfr.

Yn olaf, dysgwch yr ymadrodd 'Does dim ots gyda fi'/'Does dim ots gen i' a driliwch y bloc yn dda.

## Cam 6 – Dysgu Cymraeg

### Storom eirfa

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o 3 i sgwrsio am ddysgu Cymraeg, gan ddefnyddio'r cwestiynau i lywio'r sgwrs.

## Cam 7 - Robin Radio

Atgoffwch y dysgwyr o ymadroddion Robin Radio Uned 2:

Ble/Lle yn union mae'r gwaith? – Parau i ddisodli 'gwaith' er mwyn ymarfer y cwestiwn.

Dw i'n ofni – Egluro'r gwahaniaeth rhwng 'Mae ofn arna i'/'Mae gen i ofn' a 'Dw i'n ofni'. Gellid adolygu 'Mae ofn arna i'/'Mae gen i ofn' trwy ofyn i bawb am un frawddeg bersonol.

Y tu fa's/Y tu allan - Dysgwch yr ymadrodd ac yna 'Y tu fa's/Y tu allan i a chynaliwch ddril cyfieithu.

### Robin Radio 3.

## Cam 8 – Geirfa

Geirfa Uned 4.

## Cam 9 – Crynhoi

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a wnaed yn Uned 3. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gellir defnyddio un o'r dulliau 'Asesu ar gyfer Dysgu' a nodir yn y Canllawiau Cyffredinol.

## Uned 3 - Atodiad 1

<b>gwneud naid bynji</b>	<b>gyrru yng nghanol Llundain</b>
<b>bwyta malwod</b>	<b>rhoi arian i elusen</b>
<b>canu carioci</b>	<b>byw heb ffôn am wythnos</b>
<b>byw dramor</b>	<b>mynd i gêm rygbi</b>
<b>gweithio yn Llundain</b>	<b>chwilio am bartner ar y we</b>
<b>siarad Cymraeg ar y ffôn</b>	<b>mynd ar wifren wib</b>
<b>rhedeg marathon</b>	<b>sgwennu/ysgrifennu llythyr i'r papur</b>
<b>neidio o awyren</b>	<b>mynd ar wyliau mewn pabell</b>

## Canllawiau Uned 4

**Nod y wers:** Parhau â'r amodol.

**Patrymau:** Taswn... (pob person).

### Cam 1 – Banc Cwestiynau:

Beth/be faset ti'n hoffi ei wneud dros y penwythnos?

Beth/Be faset ti'n hoffi ei wneud yfory?

### Cam 2 – Adolygu Uned 3

Rhowch gerdyn post i bawb a gofynnwch iddyn nhw grwydro'r ystafell yn dweud "Baswn/Mi faswn i'n hoffi mynd i.....ac o leiaf 2 beth arall (bwyta/yfed/prynu/gweld). Bydd angen modelu hyn yn ofalus. Ar ôl defnyddio'r un cerdyn am ychydig funudau, dylid cyfnewid cardiau bob tro.

### Cam 3 – cyflwyno Taswn...

**Bloc 1 Taswn** - Gofynnwch i'r dosbarth ddweud beth fasen nhw'n hoffi ei wneud dros y penwythnos. Defnyddiwch eu hatebion i greu'r dril: Baswn i/Mi faswn i'n hoffi ..... taswn i'n rhydd. Darllenwch dros y bloc dril yn y llyfr a gofynnwch i'r dysgwyr nodi'r frawddeg sy fwyaf perthnasol iddyn nhw.

**Bloc 2 Taset/Tasech** - Ysgrifennwch Taswn i.... baswn i ar y bwrdd gwyn a gofynnwch i'r dysgwyr ddyfalu beth yw'r ffurfiau ar gyfer 'ti' a 'chi'. Nodwch nhw hefyd, e.e.

<b>Taswn i</b>	<b>baswn i</b>
<b>Taset ti</b>	<b>baset ti</b>
<b>Tasech chi</b>	<b>basech chi</b>

Driliwch y cwestiynau ym mloc 2. Gofynnwch i'r dysgwyr ofyn y cwestiynau i chi er mwyn modelu'r atebion. Os yn bosib, rhowch gerdyn i bawb i awgrymu cwestiwn (e.e. chwarae rygbi, mynd i'r gampfa) er mwyn rhoi digon o gyfle ar gyfer gofyn ac ateb y cwestiwn.

**Bloc 3 Tasai** - Ychwanegwch y trydydd person unigol at y tabl ar y bwrdd gwyn. Trowch at y trydydd bloc dril. Mae mwy o amrywiaeth yma nag arfer yn y dril oherwydd bod yr amodol wedi'i gyflwyno yn Uned 3. Cychwynnch trwy ddrilio'r frawddeg gyntaf yn y grid yn y llyfr:

"Tasai Tara'n ymddeol, basai/mi fasai hi'n symud tŷ."

Yna newidiwch yr oslef i gwestiwn: "Tasai Tara'n ymddeol, fasai hi'n symud tŷ?"

Ac yn olaf i frawddeg negyddol: "Tasai Tara'n ymddeol, fasai hi ddim yn symud tŷ."

Ewch drwy'r un broses gyda'r tair brawddeg arall yn y bloc.

**Bloc 4 Tasen** - Yn olaf, gofynnwch y cwestiwn: Tasech chi'n ennill y loteri, fasech chi'n symud tŷ? Rhannwch y dosbarth yn ddau hanner – hanner i'r rhai sy'n ateb 'Baswn' a hanner i'r rhai sy'n ateb 'Na faswn'. Defnyddiwch yr wybodaeth hon i ddrilio brawddegau 'ni' a 'nhw', e.e. Tasen ni'n ennill y loteri, basen ni'n symud tŷ. Gellir ei wneud nifer o weithiau gyda'r cwestiynau isod:

Tasech chi'n un deg wyth oed eto, fasech chi'n gwneud yr un peth?

Tasech chi'n mynd i Sbaen, fasech chi'n siarad Sbaeneg?

Tasech chi'n ymarfer, fasech chi'n gallu/medru rhedeg marathon?

Darllenwch dros y brawddegau yn y bloc.

**Grid** – Rhannwch y dosbarth yn barau i edrych ar y grid yn y llyfr a rhowch ddis i bob pâr. Mae'r dis yn cynrychioli'r rhagenwau (1 – fi, 2 – ti, 3 – hi, 4 – ni, 5 – chi, 6 – nhw a'r berfau yn y colofnau gwyrdd yn y grid). Ceir dwy golofn ar gyfer pob rhif felly os yw'r dysgwr yn taflu 2 am yr ail dro, mae'n symud o grid 'nofio' at 'ennill y loteri'. Rhaid dewis y ferf fwyaf priodol o'r gridiau gwyn i greu brawddegau synhwyrol. Rhaid creu brawddeg gadarnhaol a negyddol bob tro, e.e. taflu 4 am y tro cyntaf:

Tasen ni'n clywed jôc, basen ni/mi fasen ni'n chwerthin.

Tasen ni'n clywed jôc, fasen ni ddim yn chwerthin.

## Cam 4 – Sgwrs 1

Er mwyn atgyfnerthu'r patrymau ar ffurf deialog, trowch at Sgwrs 1. Yn ystod y gwrandawriad cyntaf, gofynnwch i'r dysgwyr restru'r bwydydd sy'n cael eu trafod. Dylid trafod yr atebion gyda phartner cyn gwrando eto. Yna, rhowch gyfle iddyn nhw ddarllen y sgript tra'n gwrando am y trydydd tro.

Ewch ymlaen i'r drafodaeth fach am fwyd tecawê. Mae'n bwysig gofyn i bawb adrodd yn ôl gyda un ffaith am eu partner ar y diwedd.

## Cam 5 – Tasai amser gyda fi/Tasai gen i amser

**Dwyn i gof** – Atgoffwch y dysgwyr o'r patrwm: Mae car gyda fi/Mae gen i gar.

**Drilio** – Driliwch y brawddegau yn y bloc ac yna gofyn i bobl bersonoli gyda'r frawddeg:

Baswn i'n ..... tasai amser gyda fi./Mi faswn i'n ..... tasai gen i amser.

Defnyddiwch yr atebion i ymarfer y trydydd person.

**Ymarfer Paru** – Gofynnwch i bartneriaid baru'r brawddegau yn y llyfr. Ar ôl cwblhau'r cam hwn, dylid cuddio'r brawddegau ar yr ochr dde gyntaf, ac yna'r brawddegau ar yr ochr chwith.

## Cam 6 – Sgwrs 2

Gofynnwch i'r dysgwyr wrando sawl gwaith maen nhw'n clywed 'taswn' ar y gwrandawriad cyntaf – dwywaith. Chwaraewch y sgwrs eto ac yna rhannwch y dosbarth barau i'w darllen.

## Cam 7 – Darllen a Siarad

**Darllen hysbysebion** – Parau newydd i sganio'r hysbysebion ac ateb y cwestiynau. Defnyddiwch yr atebion i ymarfer y trydydd person.

## Cam 8 – Sgwrs 3

Mae 'Taswn i'n un deg wyth oed eto' yn un o'r pynciau siarad yn arholiad Sylfaen. Gweler y canllawiau cyffredinol (Siarad am thema) ar gyfer syniadau. Mae Cam iv. yn argymhell dileu rhai cwestiynau felly argymhellir yr isod ar gyfer y ddeialog hon:

Fersiwn y de:

A: .....

B: Baswn i'n teithio o gwmpas y byd.

A: Diddorol! .....

B: Baswn i'n dechrau yn Dubai.

A: Dw i'n gweld. ....

B: Baswn i'n mynd i Seland Newydd.

A: .....

B: Baswn i'n gweithio ar fferm.

A: Da iawn! .....

B: Baswn i'n mynd am chwe mis.

Fersiwn y gogledd

A: .....

B: Mi faswn i'n teithio o gwmpas y byd.

A: Diddorol! .....

B: Mi faswn i'n dechrau yn Dubai.

A: Dw i'n gweld .....

B: Mi faswn i'n mynd i Seland Newydd.

A: .....

B: Mi faswn i'n gweithio ar fferm.

A: Da iawn! .....

B: Mi faswn i'n mynd am chwe mis.

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri i ymarfer y gwaith Siarad.

Mae gan Gwyneth Glyn gân o'r enw 'Tasa ti Yma' sy'n llawn ffurfiau'r amodol.

Dyma'r linc i'r gân hon, ynghyd â'r geiriau, ar YouTube: <https://www.youtube.com/watch?v=N2rcxrAUkGo>.

## Cam 9 – Diddordebau

**Creu brawddegau** - Rhannwch y dosbarth yn barau i greu tair brawddeg am ddiddordebau. Dylid cynorthwyo ar hyd yr adeg a gofyn i bawb adrodd un frawddeg o flaen y dosbarth. Gellid mynd ati i wella'r brawddegau, os oes modd. Ewch dros y map meddwl sy'n rhoi syniadau ar sut i drafod diddordebau yn y presennol, y gorffennol a'r dyfodol. Yna, modelwch y gweithgaredd cyn rhoi grwpiau bach ar waith i siarad.

## Cam 10 – Adolygu - Pelmanism

Cymysgwch y cardiau yn Atodiad 1 yn drwyadl (ond gan gadw'r ddau hanner ar wahân) a gosodwch nhw i gyd ar y bwrdd ben i waered. Dywedwch wrth un partner am godi cerdyn o'r ddwy ochr – os nad yw'r ddau gerdyn yn gwneud brawddeg synhwyrol, rhaid eu troi eto a thro'r partner arall yw hi i ddyfalu. Â'r gêm yn ei blaen nes bod deg brawddeg synhwyrol gan y pâr. Gallant wedyn geisio cofio beth oedd un hanner y frawddeg trwy edrych ar yr hanner arall yn unig.

## Cam 11 - Robin Radio

Atgoffwch y dysgwyr o ymadroddion Robin Radio Uned 3:

Mae'r cyngor wedi rhoi tŷ iddyn nhw - Gofynnwch i'r dosbarth awgrymu beth mae'r banc, y doctor a'r tiwtor wedi ei roi iddyn nhw.

Baswn i wrth fy modd yn helpu - Gofynnwch i barau drafod beth fasen nhw wrth eu bodd yn ei wneud dros y penwythnos. Rhaid iddyn nhw adrodd yn ôl am eu partner yn y trydydd person.

**Robin Radio 4.**

## Cam 12 - Geirfa

Geirfa Uned 5.

## Cam 13 - Crynhoi

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a wnaed yn Uned 4. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gellir defnyddio un o'r dulliau 'Asesu ar gyfer Dysgu' a nodir yn y Canllawiau Cyffredinol.



## Uned 4 - Atodiad 1

Tasai hi'n bwrw glaw	mi faswn i'n wlyb baswn i'n wlyb
Taswn i wedi ennill ar y loteri	mi faswn i'n mynd â chi allan i gael bwyd baswn i'n mynd â chi ma's i gael bwyd
Taswn i'n siarad Cymraeg drwy'r amser	mi fasai'r tiwtor yn hapus iawn basai'r tiwtor yn hapus iawn
Tasai gen i gur pen Tasai pen tost gyda fi	mi faswn i'n cymryd tabled baswn i'n cymryd tabled
Tasai gen i ddigon o bres Tasai digon o arian gyda fi	mi faswn i'n prynu car newydd baswn i'n prynu car newydd
Taswn i'n gwybod y rhif	mi faswn i wedi ffonio baswn i wedi ffonio
Tasai hi'n braf	mi faswn i wedi torri'r lawnt baswn i wedi torri'r lawnt
Tasai hi'n bwrw eira	mi fasai'r plant yn hapus iawn basai'r plant yn hapus iawn

## Canllawiau Uned 5

**Nod y wers:** Cyflwyno'r patrwm goddefol yng nghyd-destun geni a magu.

**Patrymau:** Ces/Mi ges i fy ngeni/magu - pob person – cadarnhaol a chwestiynau.

### Cam 1 – Banc Cwestiynau:

Tasai amser gyda chi beth fasech chi'n hoffi ei wneud?/Tasai gynnoch chi amser be fasech chi'n hoffi ei wneud?

Tasech chi'n cael mynd ar wyliau i unrhyw le, ble basech/lle fasech chi'n mynd?

Beth/Be fasech chi'n ei wneud tasech chi'n un deg wyth eto?

### Cam 2 – Adolygu Uned 4

Os oes 10 aelod yn y dosbarth, rhowch un o'r geiriau isod i bob aelod o'r dosbarth (ar gerdyn):

**Faswn          i          ddim          yn          gallu/medru**

**gweithio          yn          eich          swyddfa          chi**

Sicrhewch nad ydynt yn y drefn iawn a gofynnwch i'r bobl nad oes ganddynt gerdyn i roi trefn ar y geiriau fel eu bod yn gwneud synnwyr. Wedyn tynnwch bobl wahanol allan o'r rhes er mwyn disodli gwahanol elfennau, e.e. swyddfa (Faswn i ddim yn gallu gweithio yn eich coleg/ffatri/gwesty ac ati). Os bydd llai na 10 person yn y dosbarth, gellid hepgor y gair 'gallu' a chael y dosbarth i drefnu eu hunain neu drefnu'r cardiau ar y llawr.

## Cam 3 – Cyflwyno'r goddefol

**Dwyn i gof** - Ceir ymarfer disodli er mwyn cadarnhau gorffennol 'cael' a threiglo ar ôl 'fy' a 'dy'.

Ces/Mi ges i dost i frecwast. - personoli gan ddisodli tost.

Beth/Be gest ti i ginio? - ymarfer personau'r ferf trwy ddisodli 'ti'. Yna, pawb ar eu traed yn holi'r cwestiwn i'w gilydd.

Ces/Mi ges i fy nghar cynta yn 1990. - disodli'r flwyddyn.

Pryd cawsoch/gaethoch chi eich eich swydd gynta? - disodli amserau'r ferf unwaith eto ac yna pawb ar eu traed yn holi'r cwestiwn i'w gilydd.

Dylai dilyn y camau adolygu hyn wneud y gwaith ar y goddefol yn haws.

**Person cyntaf unigol y goddefol** - Ysgrifennwch y frawddeg gadarnhaol "Ces i/ Mi ges i fy mrecwast yn X" (lleoliad y dosbarth) ar y bwrdd gwyn. Yna, croeswch allan "brecwast" ac o dan hynny ysgrifennwch "ngeni". Gellir gofyn i'r dosbarth ddyfalu ystyr y frawddeg. Driliwch y tair brawddeg gyntaf, gan bersonoli ar ôl pob un. Dylid drilio'r hyn sy'n berthnasol i chi, yn hytrach na'r brawddegau yn y llyfr. Gwnewch yr un peth gyda'r ail flocc dril.

**Cwestiwn (ti)** – Driliwch Ble cest/Lle gest ti dy eni/fagu? a throwch at yr holiadur. Er mwyn amrywiaeth, gellid paratoi set o luniau enwogion cyfredol ac ar y cefn nodi enw/man geni/gwlad lle cafodd ei m/fagu. Yna bydd pawb yn crwydro yn esgus bod y person yma. Neu gellir gwneud yr holiadur efo ffeithiau dilys am yr unigolion.

**Cwestiwn (chi)** – Driliwch Ble cawsoch/Lle gaethoch chi eich geni/magu? Gofynnwch i bawb godi a sefyll mewn rhes. Y nod yw ymarfer y cwestiwn Pryd cawsoch chi/Pryd gaethoch chi eich geni? gan ateb gyda'r mis, e.e. Ces i/Mi ges i fy ngeni ym mis Awst. Rhaid penderfynu pa ben o'r rhes yw lonawr a pha ben yw Rhagfyr. Rhaid i'r dysgwyr holi'r person nesaf atynt a symud ar hyd y rhes nes eu bod mewn trefn gronolegol o safbwynt mis eu geni.

**Ni a nhw** – Rhannwch y dosbarth yn ardaloedd gwahanol i gynrychioli gwledydd gwahanol (o'ch adnabyddiaeth o fannau geni'r dosbarth). Dywedwch wrth y dosbarth am fynd i sefyll yn y lle priodol. Ewch at y grŵp sydd o'r un wlad â chi a dweud "Cawson ni/Mi gaethon ni ein geni yn XX". Rhaid i bob grŵp bersonoli. Yna, defnyddiwch yr wybodaeth hon i gyflwyno Cawson nhw/Mi gaethon nhw eu geni yn XX. Yna, Yna atgoffwch y dosbarth o'r tymhorau a rhannwch y dosbarth yn ardaloedd ar gyfer y pedwar tymor. Ailadroddwch y gweithgaredd uchod, ond gyda'r tymhorau y tro hwn.

**Trydydd person unigol** - Os oes gennych gopi o flwch adnoddau Mynediad, Bocs 2, gellid defnyddio cardiau Uned 19 i atgyfnerthu'r treigladau ar ol 'ei' cyn dechrau cyflwyno'r trydydd person. Driliwch y brawddegau fesul un gan stopio ar ôl pob un ar gyfer personoli. Er mwyn ymarfer y rhagenwau, dylid pwyntio at aelodau o'r dosbarth er mwyn i aelodau eraill y dosbarth ddweud ble cawson nhw eu geni.

**Llun** – Driliwch y blociau Pa ganrif? Yna, rhannwch y dosbarth yn barau i edrych ar y llun a phwyntio bob yn ail at un o'r bobl i ymarfer pryd cafodd ei eni/geni a dweud ym mha ganrif cafodd e eni/geni. Os ydych chi eisiau ymestyn y dosbarth, mae modd dweud wrth aelodau'r dosbarth mai llun o'u teulu nhw yw hwn. Maen nhw wedyn yn creu brawddegau megis 'Cafodd/Gaeth fy nhad ei eni yn y ganrif ddiwetha'.

## Cam 4 - Darllen

Er mai deialog yw hon, ymarfer darllen yw e. Rhannwch y dosbarth yn barau i ddarllen y ddeialog ac ateb y cwestiynau.

## Cam 5 – Geirfa'r teulu

Pwrpas y gweithgaredd hwn yw tynnu sylw at ffurfiau lluosog. Mae modd mynd drwy'r eirfa yma ychydig fel "rap" rhythmig. Neu gellir cael pêl a'i thafllu. Mae'r person sy'n ei thafllu yn dweud yr unigol a'r person sy'n ei dal yn dweud y lluosog. Rhaid i'r person hwnnw ddechrau eto gyda'r unigol.

## Cam 6 – Holiadur

Er mwyn paratoi ar gyfer yr Holiadur, ceir deg blwyddyn mewn blwch. Rhowch rai blynyddoedd ychwanegol ar y bwrdd gwyn er mwyn ymarfer eu dweud (o leiaf un yn dechrau 19XX, ac o leiaf un yn dechrau 20XX). Wedyn, rhannwch y dosbarth yn barau i ymarfer y rhai sydd yn y llyfr. Ewch drostyn nhw ac yna rhannwch y dosbarth yn barau newydd ar gyfer yr ymarfer Bwlch Gwybodaeth.

## Cam 7 – Ymarfer gyda chardiau

Rhannwch y dosbarth yn barau gan roi copi o'r cardiau yn Atodiad 1 i bob pâr. Rhaid troi un cerdyn o bob colofn fesul un a chreu frawddeg, e.e.:

fi geni yn Abertawe

Ces/Ges i fy ngeni yn Abertawe.

## Cam 8 – Sgwrs

Gwrandawriad cyntaf – Gwrando am y patrwm goddefol a chyfrif sawl gwaith maen nhw'n ei glywed. (Ateb: 4, gan gynnwys Ces/Mi ges i fy nysgu)

Gwrando eto.

Wedyn darllen A/B, B/A.

Ysgrifennwch fersiwn byrrach o'r ddeialog ar y bwrdd gwyn tra bydd y parau yn darllen:

Fersiwn y de

A: Ble cest ti dy eni?

B: Ces i fy ngeni yn Ysbyty Abercastell.

A: Ces i fy ngeni yn Ysbyty Trecastell.

B: Ble est ti i'r ysgol?

A: Es i i'r ysgol yn Nhre Castell. Ble est ti i'r ysgol?

B: Es i i'r ysgol gynradd yn Abercastell ac i'r ysgol uwchradd yn Nhre Castell.

A: Ble dechreuaist ti ddysgu Cymraeg, 'te?

B: Yn y coleg yn Nhre Castell mewn dosbarth nos. Ces i fy nysgu gan Rhiannon Roberts.

Fersiwn y gogledd:

A: Lle gest ti dy eni?

B: Mi ges i fy ngeni yn Ysbyty Abercastell.

A: Mi ges i fy ngeni yn Ysbyty Trecastell.

B: Lle est ti i'r ysgol?

A: Mi es i i'r ysgol yn Nhre Castell. Lle est ti i'r ysgol?

B: Mi es i i'r ysgol gynradd yn Abercastell ac i'r ysgol uwchradd yn Nhre Castell.

A: Lle wnest ti ddechrau dysgu Cymraeg ta?

B: Yn y coleg yn Nhre Castell mewn dosbarth nos. Mi ges i fy nysgu gan Rhiannon Roberts.

Rhai parau hyderus i berfformio eu fersiwn nhw, wedi'i bersonoli.

## Cam 9 – Siarad – Teulu a Ffrindiau

**Storom Eirfa** - Rhannwch y dosbarth yn barau i feddwl am o leiaf chwe gair ar y thema. Rhowch ddau ddarn bach o bapur i bawb a gofyn iddynt ysgrifennu enwau dau berson maen nhw'n eu hadnabod yn dda. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri fel bod chwe darn o bapur rhwng pawb. Rhowch y papurau wyneb i fyny ar y bwrdd yn ôl trefn yr wyddor. Yna, rhowch ddis i bob grwp. Os yw'r dis yn glanio ar rif 3, rhaid i'r person a ysgrifennodd enw'r person ar y trydydd darn o bapur ddweud cymaint o bosib am y person yna, gan gynnwys cyfeirio at y pwyntiau sydd yn y llyfr.

## Cam 10 – Fideo

Os na fydd yn bosibl dangos y fideo yn y dosbarth, gellir ei osod fel gwaith cartref a gwirio'r atebion yn yr wers nesaf. Neu gellir ei osod fel gwaith cartref beth bynnag a'i wyllo unwaith yn y wers nesaf. Efallai bod angen atgoffa'r dysgwyr mai bras-ddeall, fel Robin Radio, ydy'r nod yma. Rhaid dechrau pob cyngor gyda'r geiriau, Taswn i yn eich lle chi...

## Cam 11 – Robin Radio

Atgoffwch y dysgwyr o'r ymadroddion yn Uned 4:

Roedd y tywydd yn grasboeth! - Disodli crasboeth

Taswn i yn eich lle chi – gofynnwch i'r dosbarth, mewn parau, feddwl am gyngor i chi ar gyfer y problemau canlynol: Mae pen tost gyda fi/Mae gen i gur pen, Dw i eisiau/ isio colli pwysau, Dw i eisiau/isio ychydig o haul. Rhaid dechrau pob brawddeg gyda 'Taswn i yn eich lle chi...'

Dw i'n edrych ymlaen at ddechrau – gofynnwch i bawb nodi rhywbeth maen nhw'n edrych ymlaen ato.

**Robin Radio Uned 5.**

## Cam 12 – Geirfa

Geirfa Uned 6.

## Cam 13 – Crynhoi

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a wnaed yn Uned 5. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gellir defnyddio un o'r dulliau 'Asesu ar gyfer Dysgu' a nodir yn y Canllawiau Cyffredinol.

**Atodiad 1**

<b>Fi</b>	<b>geni</b>	<b>yn Abertawe</b>
<b>Ti</b>	<b>geni</b>	<b>ym Mangor</b>
<b>Fo/Fe</b>	<b>geni</b>	<b>mewn pentre bach</b>
<b>Hi</b>	<b>geni</b>	<b>mewn tre fawr</b>
<b>Ni</b>	<b>geni</b>	<b>mewn dinas</b>
<b>Chi</b>	<b>geni</b>	<b>yng nghefn gwlad</b>
<b>Nhw</b>	<b>geni</b>	<b>yn ne Cymru</b>
<b>Fi</b>	<b>magu</b>	<b>yng ngogledd Cymru</b>
<b>Ti</b>	<b>magu</b>	<b>yn Ffrainc</b>
<b>Fo/Fe</b>	<b>magu</b>	<b>yn Llundain</b>
<b>Ni</b>	<b>magu</b>	<b>yn Lerpwl</b>
<b>Chi</b>	<b>magu</b>	<b>yn Sbaen</b>
<b>Nhw</b>	<b>magu</b>	<b>yn Yr Alban</b>

## Canllawiau Uned 6

**Nod** – Adolygu ac Ymestyn o fewn thema 'Yr Ardal'

Mae'r uned hon yn wahanol iawn i'r unedau blaenorol. Er bod y patrymau sy wedi eu cyflwyno yn cael eu hymarfer, mae'r unedau adolygu yn gyfle i gael gweithgareddau ymestynnol aml-gyfrwng. Mae hon yn uned bwysig yn y gogledd a fydd yn cymryd mwy o amser na'r de gan y cyflwynir ffurfiau cryno berfau rheolaidd am y tro cyntaf.

### Cam 1 – Banc Cwestiynau:

Ble cawsoch/Ble gaethoch/Lle gaethoch chi eich geni?  
Ble cawsoch/Ble gaethoch/Lle gaethoch chi eich magu?

### Cam 2 – Gêm Gardiau

Byddwch wedi gosod y grid "Gêm o gardiau" fel gwaith cartref. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri a rhowch becyn o gardiau i bob grŵp. Wrth droi cerdyn, maen nhw'n ateb y cwestiwn sydd ar y grid ar gyfer y cerdyn hwnnw. Os yn bosib, gwahoddwch siaradwyr rhugl i'r wers i fynd trwy'r gêm gyda'r dysgwyr. Gall helpu hyder y dysgwyr i wneud y gweithgaredd unwaith cyn i'r siaradwyr Cymraeg gyrraedd.

### Cam 3 – Adolygu uned 5

Ceir pedair brawddeg yn y goddefol yn y llyfr. Rhannwch y dosbarth yn barau i feddwl am y cwestiynau.

Paratowch luniau o enwogion cyfredol gyda'r man a blwyddyn geni ar y cefn. Bydd y dysgwyr yn crwydro'r stafell yn cyflwyno'r person enwog. Dylid cadw'r un cerdyn am ychydig, ac yna cyfnewid gyda phob partner newydd. Dylid cael pawb mewn cylch ar y diwedd, gyda'r dysgwyr yn holi'r cwestiwn hefyd i un dysgwyr ar y tro: Ble cafodd/Lle gaeth XX ei eni/geni? Pryd cafodd/gaeth XX ei eni/geni? Mae hi hefyd yn bosib ailddefnyddio cardiau Uned 5 er mwyn atgyfnerthu pob person yn yr amhersonol.

### Cam 4 - Adolygu Atebion

Ceir set o gwestiynau ac atebion yn Atodiad 1. Rhowch gerdyn i bawb grwydro a phrofi ei gilydd. Am rai munudau, dylid profi'r ateb yn unig. Yna, rhaid gofyn am ateb ac ymateb. Gellir ailddefnyddio'r atebion hyn yn ystod y cwrs. (Nid yw'n addas defnyddio'r un cwestiwn gorffennol cryno yn y gogledd tan ddiwedd yr uned hon.)



## Cam ychwanegol yn y gogledd – cyflwyno'r gorffennol cryno

**Person cyntaf unigol** – Atgoffwch y dysgwyr o'r gorchmynion a nodir yn y llyfr er mwyn tynnu sylw at fonau berfau. Yna, dangoswch yr un berfau yn yr amser gorffennol gan dynnu sylw at egwyddorion – gollwng y llafariad olaf, ychwanegu terfyniad at y berfenw.

Driliwch y bloc cyntaf, ac yna gofynnwch i'r dosbarth ddewis un o'r brawddegau sy'n wir amdany'n nhw. Yn syml iawn, maen nhw'n codi i ddweud y frawddeg hon wrth ei gilydd.

Driliwch yr ail bloc. Y tro hwn, dylai'r parau ddweud wrth ei gilydd pa rai o'r brawddegau sy'n wir amdany'n nhw.

Yna, driliwch y trydydd bloc. Cyflwynir yma yr egwyddor o dreiglo enw amhendant. Dylid gofyn i bawb bersonoli.

Yn olaf, driliwch y pum brawddeg sy'n cynnwys y berfau gyda bonau anodd – rhedeg, yfed, gweld, gwranddo, aros. Eto dylid gofyn i bawb ddewis brawddeg sy'n wir amdany'n nhw a'i hymarfer.

**Ail berson unigol** – Atgoffwch y dysgwyr fod angen treigladd meddal ar ddechrau cwestiwn. Driliwch y bloc. Modelwch yr atebion.

Yna, rhannwch y dosbarth yn barau i chwarae'r gêm fwrdd. Y tro cyntaf, dylid ateb Do neu Naddo yn unig. Yr ail dro, gellid annog y dysgwyr i greu brawddeg pan atebir Do.

Ail berson lluosog – Driliwch y bloc yn drylwyr. (Dylid atgoffa'r dysgwyr eu bod eisoes wedi dysgu'r terfyniad hwn gyda'r berfau afreolaidd.)

Llongau Rhyfel – Pob un i ddewis pum sgwâr. Nod y gêm yw dyfalu pa sgwariau mae'r partner wedi'u dewis trwy ofyn cwestiwn uniongyrchol, e.e. Arhosoch chi yn y tŷ? Os bydd un partner yn dyfalu'n gywir, caiff dro arall. Fel arall, bydd y partneriaid yn gofyn cwestiynau bob yn ail.

**Trydydd person unigol** – Driliwch y bloc a rhannwch y dosbarth yn barau ar gyfer yr ymarfer Bwlch Gwybodaeth.

**Person cyntaf a thrydydd person lluosog** – Driliwch y blociau'n dda. Eto, dylai'r dysgwyr fod yn gyfarwydd â'r ffurfiau hyn oherwydd y berfau afreolaidd.

**Ymarfer** – Rhannwch y dosbarth yn barau ar gyfer y gêm dis. Mae'r rhif ar y dis yn cyfateb i'r person yn y ferf, e.e. 1 = golchais i'r car. Os teflir 1 eto, rhaid symud i'r ail golofn. A gellir symud yn ôl i'r golofn gyntaf eto.

## Cam 5 – Ynganu

Mae gweithgaredd ynganu ym mhob uned adolygu ac ymestyn. Y tro yma, ceir pwyslais arbennig ar y sain 'll'.

Y cam cyntaf ydy chwarae'r sain tra mae'r dysgwyr yn darllen y darn yn eu llyfrau. Yna, mae'r tiwtor yn darllen brawddeg ar y tro, a'r dysgwyr yn ailadrodd. Y trydydd cam ydy bod y dysgwyr, mewn parau, yn darllen y darn yn uchel i'w gilydd, gan danlinellu unrhyw eiriau sy'n achosi problemau. Wedyn trafodwch fel dosbarth pa

eiriau/cyfuniad o eiriau sy'n anodd. Cam posibl arall ydy rhoi cyfle i unigolion ddarllen gerbron y dosbarth. Fel cam olaf, gellid darllen y darn eto gan wneud camgymeriadau bwriadol, e.e. Mochyn Llwyd yn lle Llew Llwyd, Lloegr yn lle Llanilltud.

Dylid newid partner i newid y darn i'r trydydd person a thrafod y cwestiynau sgwrsio.

## Cam 6 – Y llall/Y lleill

Ar ddiwedd y darn ynganu gwelir 'y Llew Llwyd yn Llanelli a'r llall yn Llangrannog'. Tynnwch sylw at hyn ac egluro ystyr 'y llall'. Rhannwch y dosbarth yn barau i feddwl am air arall yn lle'r gair a danlinellir yn y llyfr. Gofynnwch i'r parau rannu eu hatebion a gofynnwch i bawb eu hailadrodd fel dril. Gwnewch yr un peth gyda 'y lleill'.

## Cam 7 – Yr ardal

**Storom eirfa.**

**Siarad**

Rhannwch y dosbarth yn barau i drafod y sbardunau yn y llyfr.

## Gwyllo

Os yn bosib, dangoswch fideo Aberdaron a rhannwch y dosbarth yn barau i ateb y cwestiynau.

## Sgwrs

Yn gyntaf gwrandewch fel dosbarth ar y sgwrs.

Yna darllenwch y sgript gyda'r dysgwyr fel grŵp yn darllen un rhan, a'r tiwtor y rhan arall. Newidiwch rôl.

Trowch at yr amserlen o dan y Sgwrs yn y llyfr a defnyddiwch yr enwau llefydd fel ymarfer ynganu ychwanegol. Yna, gofynnwch i'r partneriaid wneud eu deialog eu hunain gan ddefnyddio'r amserlen bws i newid y manylion.

Y cam olaf ydy trafodaeth ar hoff lefydd ar lan y môr gan y parau.

## Cân - Siân James yn canu Ar Lan y Môr

Rhaid pwysleisio ar y dechrau nad oes disgwyl i'r dysgwyr ddeall popeth yn y gân ond ei bod yn gân werin adnabyddus iawn yng Nghymru. Y tro cyntaf, dylid gwranddo faint o weithiau mae Siân yn canu'r geiriau 'ar lan y môr'. Ni ddylai'r dysgwyr fod yn edrych ar y sgript. Ateb: 13 (er mai 8 bwlch sydd).

Yr ail dro, dylid dilyn gyda'r sgript gan lenwi bylchau rhif 1: nhariad, gariad, nghariad. Y trydydd tro, dylid gwranddo am y berfau: cysgu, chodi, siarad, tyfu. Gellid stopio'r fideo ar ôl yr ail bennill.

## Cam 8 – Gwirio Robin Radio

Atgoffwch y dysgwyr o ymadroddion Robin Radio Uned 5:

Mae eich Cymraeg chi'n ardderchog – Cyfle i ymarfer rhagenwau trwy ddisodli 'eich Cymraeg chi'. Gellir galw rhagenw, e.e. 'hi' a gofyn i barau greu'r frawddeg 'Mae ei Chymraeg hi'n ardderchog'.

Os ca' i ddweud - cyfle i bawb gerdded o gwmpas y dosbarth yn dweud yr ymadrodd hwn mewn ffyrdd gwahanol - yn grac, yn dawel, yn uchel, yn awdurdodol.

Mae hi eisiau newid ei henw – disodli enw

**Robin Radio Uned 6.**

## Cam 9 – Geirfa

Geirfa Uned 7.

## Cam 10 – Crynhoi

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a wnaed yn Uned 6. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gellir defnyddio un o'r dulliau 'Asesu ar gyfer Dysgu' a nodir yn y Canllawiau Cyffredinol.

## Uned 6 - Atodiad 1

<p>Arhosest ti am fis?  <b>Arhosaist ti am fis?</b>  <b>(✓)</b></p>	<p><b>Do</b>          (Arhoses i am fis)  <b>(Arhosais i am fis)</b></p>
<p>Ydy o'n nabod rhywun sy'n siarad Almaeneg?  <b>Ydy e'n nabod rhywun sy'n siarad Almaeneg?</b>  <b>(✓)</b></p>	<p><b>Ydy</b>          (Mae o'n nabod rhywun sy'n siarad Almaeneg)  <b>(Mae e'n nabod rhywun sy'n siarad Almaeneg)</b></p>
<p><b>Fasech chi'n hoffi mynd ar wyliau?</b>  <b>(✓)</b></p>	<p><b>Baswn</b>          (Mi faswn i'n hoffi mynd ar wyliau)  <b>(Baswn i'n hoffi mynd ar wyliau)</b></p>
<p><b>Fasai hi'n prynu car newydd?</b>  <b>(✓)</b></p>	<p><b>Basai</b>          (Mi fasai hi'n prynu car newydd)  <b>(Basai hi'n prynu car newydd)</b></p>
<p><b>Fasen nhw'n mwynhau mynd i'r ffair?</b>  <b>(✓)</b></p>	<p><b>Basen</b>          (Mi fasen nhw'n mwynhau mynd i'r ffair)  <b>(Basen nhw'n mwynhau mynd i'r ffair)</b></p>
<p><b>Oedd y gwesty'n gyfleus?</b>  <b>(✓)</b></p>	<p><b>Oedd</b>  <b>(Roedd y gwesty'n gyfleus)</b></p>
<p><b>Fyddwch chi'n gwneud ymarfer corff heddiw?</b>  <b>(✓)</b></p>	<p><b>Bydda</b>          (Mi fydda i'n gwneud ymarfer corff heddiw)  <b>(Bydda i'n gwneud ymarfer corff heddiw)</b></p>
<p><b>Fyddan nhw'n mynd i ddringo eto?</b>  <b>(✓)</b></p>	<p><b>Byddan</b>          (Mi fyddan nhw'n mynd i ddringo eto)  <b>(Byddan nhw'n mynd i ddringo eto)</b></p>
<p>Dach chi'n byw yng nghefn gwlad?  <b>Dych chi'n byw yng nghefn gwlad?</b>  <b>(X)</b></p>	<p><b>Nac ydw</b>  <b>(Dw i ddim yn byw yng nghefn gwlad)</b></p>
<p>Oes 'na grys glân yn y cwpwrdd?  <b>Oes crys glân yn y cwpwrdd?</b>  <b>(X)</b></p>	<p><b>Nac oes</b>          (Does 'na ddim crys glân yn y cwpwrdd)  <b>(Does dim crys glân yn y cwpwrdd)</b></p>

<b>Est ti am dro ddoe?</b> <b>(X)</b>	<b>Naddo</b> <b>(Es i ddim am dro ddoe)</b>
<b>Fasech chi'n hoffi byw yn yr ardal?</b> <b>(X)</b>	<b>Na faswn</b> <b>(Faswn i ddim yn hoffi byw yn yr ardal)</b>
<b>Fasai hi'n addas?</b> <b>(X)</b>	<b>Na fasai</b> <b>(Fasai hi ddim yn addas)</b>
<b>Ydyn nhw'n gyfnitherod?</b> <b>(X)</b>	<b>Nac ydyn</b> (Dydyn nhw ddim yn gyfnitherod) <b>(Dyn nhw ddim yn gyfnitherod)</b>
<b>Oedd hi'n actio yn y ddrama?</b> <b>(X)</b>	<b>Nac oedd</b> <b>(Doedd hi ddim yn actio yn y ddrama)</b>
Oes 'na adloniant gyda'r nos? <b>Oes adloniant gyda'r nos?</b> <b>(X)</b>	<b>Nac oes</b> (Does 'na ddim adloniant gyda'r nos) <b>(Does dim adloniant gyda'r nos)</b>

## Canllawiau Uned 7

**Nod y wers:** Cyflwyno'r cymal enwol.

**Patrymau:** Dw i'n meddwl bod...

### Cam 1 - Banc Cwestiynau:

Beth dych/Be dach chi'n hoffi am eich ardal?

Beth dych chi ddim yn hoffi/Be dach chi ddim yn licio am eich ardal?

### Cam 2 - Adolygu Uned 6

Yn Atodiad 1 ceir darn arddywediad i'w roi ar y wal. Rhannwch y dosbarth y barau. Bydd Partner A yn rhedeg at y darn, cofio cymaint â phosib, rhedeg yn ôl at y partner gan ddweud yr hyn y mae'n ei gofio a bydd y partner yn cofnodi. Ar ôl dau baragraff, rhaid newid rôl. Rhowch gyfle i'r parau wirio eu gwaith a nodi un peth a barodd drafferth iddynt.

### Cam 3 - Adolygu Ansoddeiriau

Cyn cychwyn ar y gwaith ar y cymal enwol, byddai'n werth adolygu cystrawen elfennol iawn sy'n ymarfer defnyddio ansoddeiriau. Yn gyntaf, gofynnwch i'r dysgwyr beth yw'r Gymraeg ar gyfer yr isod:

*good, big, grateful, quiet, amazing, different, similar, beautiful, full, cheap, fast/quick, careful, unemployed.* Bydd hyn yn dangos i'r dysgwyr eu bod wedi dysgu nifer o ansoddeiriau. Yna, ewch yn ol trwy'r rhestr ond y tro hwn yn gofyn am frawddeg, e.e. He/She is good. Bydd hyn yn tanlinellu'r angen am dreigladd meddal. Bydd modd tynnu sylw at y ffaith nad yw 'll' a 'rh' yn treiglo ar ôl yr 'yn' traethiadol.

## Cam 4 – Cyflwyno'r Cymal Enwol

**Dw i'n meddwl bod...** - Dysgwch y patrwm gyda'r dril chwaraeon. Gellir defnyddio peli neu luniau i gynrychioli'r chwaraeon gwahanol. Disodlwch y gamp, yna'r ansoddair. Gellir hefyd ddefnyddio lluniau enwogion gan ofyn i'r dysgwyr ddewis o bedwar ansoddair: da, talentog, ofnadwy, diddorol.

**Beth dych chi'n feddwl o...?** Driliwch y ddau gwestiwn amser presennol. Gofynnwch i'r dysgwyr am enwau rhaglenni teledu poblogaidd a nodwch tua 6 ar y bwrdd gwyn. Rhannwch y dosbarth yn barau i holi barn ei gilydd ar y rhaglenni hyn, eto gan ddewis o bedwar ansoddair: iawn, da, ofnadwy, diddorol. Hefyd, ceir set o gardiau yn Atodiad 2 i gael y dysgwyr ar eu traed yn holi ei gilydd, 'Beth dych chi'n feddwl o...?'

**Yr amherffaith:** Atgoffwch y dysgwyr o'r amser amherffaith. Modelwch trwy ddweud 'Ro'n i yn y dosbarth neithiwr', gan ofyn i bawb 'Ble ro'ch chi?/Lle oeddech chi?' Gellir defnyddio'r atebion i ymarfer y trydydd person. Gofynnwch hefyd sut mae dweud – I wanted, I knew, I liked, I thought.

Driliwch y cwestiynau "Beth o'ch chi/Be oeddech chi'n feddwl o ginio ysgol? / Be o'ch chi'n feddwl o fathemateg? Yna, ceir ymarfer disodli yn hytrach na dril gyda'r pynciau ysgol. Ewch drwy'r brawddegau gan bersonoli eich hunan ac yna rhannwch y dosbarth yn barau i ddisodli, gan holi'r cwestiwn i'w gilydd bob tro hefyd. Gofynnwch i bob pâr adrodd yn ôl am un pwnc/elfen o fywyd ysgol lle roeddent yn gytûn, e.e. "Ro'n ni/Roedden ni'n meddwl bod Hanes yn ddiddorol".

**Rhagenw ei (gwr.)** - Driliwch y frawddeg 'Dw i'n meddwl bod Aled yn gweithio'. Atgoffwch y dosbarth o'r rhagenw meddiannol 'ei' a'r treigladd meddal sy'n dilyn, ar ffurf ymarfer cyfieithu byr. Yna driliwch y pedair brawddeg arall yn y bloc. Wedyn rhowch lun o ddyn enwog i bob un yn y dosbarth. Dylid cael pawb ar eu traed yn ymarfer y cwestiwn – Beth dych chi'n feddwl o XX? a'r ateb – Dw i'n meddwl ei fod e/ fod o'n... .

**Rhagenw ei (ben.)** - Ewch drwy'r un broses.

**Holiadur** -Mae'r holiadur nesaf yn gyfle i barau ymarfer y trydydd person. Rhaid nodi lleoliad ar gyfer pob un yn y tabl, gan ddewis o'r lleoliadau yn y grid. Rhowch y ddeialog isod ar y bwrdd gwyn fel model o sut mae'r gweithgaredd yn gweithio:

Partner A: Ble/Lle mae Mam heddiw?

Partner B: Dw i'n meddwl ei bod hi/bod hi mewn cyfarfod.

Partner A: Nac ydy.

Partner B: Dw i'n meddwl ei bod hi...

Rhaid parhau i ddyfalu nes cael yr ateb cywir.

**Rhagenw eu** - Atgoffwch y dosbarth o'r rhagenw meddiannol 'eu' ar ffurf ymarfer cyfieithu byr. Driliwch y brawddegau. Gellir disodli'r plant â geiriau megis y teulu/cymdogion/staff/dosbarth gan ofyn y cwestiwn: "Sut mae'r plant/teulu/cymdogion/staff/dosbarth?"

## Cam 4 - Sgwrs

Gwrandawriad 1 – Gwrando am frawddeg sy'n dangos defnydd o'r cymal enwol – Dw i'n meddwl bod...

Gwrando eto – Ymarfer darllen – Ymarfer Disodli

## Cam 5 - Trafod rhaglenni radio/ffilmiau/teledu

Ewch dros yr eirfa yn y blwch.

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i fynd trwy'r cwestiynau. (Gellid ystyried grwpio pobl o ran oedran o ran cael sgwrs ystyrlon). Dyma gyfle os ydy'r we a sgrin ar gael, i ddangos pigion o ambell raglen S4C, e.e. Dal Ati, beth bynnag sy'n dda ac yn gyfredol. Gellid dangos y sianel newydd i ddysgwyr ar S4C - <https://www.s4c.cymru/clic/Categories/26>. Bydd hyn yn baratoad da ar gyfer y gwaith cartref. Yn yr un modd mae'n bosib dewis clip o Radio Cymru, rhywbeth addas i'ch ardal. Yn sicr hyd yn oed os nad oes modd dangos clip o S4C mae'n bosib dod â dalen o bapur fel y Daily Post neu Western Mail i ddangos beth sydd ar S4C yn yr wythnos sydd i ddod, neu gael yr wybodaeth o wefan S4C.

## Cam 6 - Robin Radio

Atgoffwch y dysgwyr o'r ymadroddion yn Uned 6:

Mae'r olygfa yn fendigedig – disodli golygfa (e.e. bwyd, tywydd, canu, llyfr, gwin).

Beth tasai/Be tasai hi'n bwrw glaw? - disodli bwrw glaw.

Dyw/Dydy hi byth yn bwrw glaw – defnyddiwch gardiau enwau llefydd i'r dysgwyr greu brawddegau, e.e. Dyw hi byth yn bwrw glaw yn Aberystwyth. Bydd hwn yn gyfle i ymarfer y treigladd trwynol hefyd. Mae cardiau ar gael yn y blwch adnoddau Mynediad.

**Robin Radio Uned 7.**



## Cam 7 – Geirfa

Geirfa Uned 8.

## Cam 8 – Crynhoi

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref (gan atgoffa pawb bod angen gwylio rhywbeth ar S4C neu wrando ar rywbeth ar radio Cymru i'w drafod yn y wers nesaf) a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a wnaed yn Uned 7. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gellir defnyddio un o'r dulliau 'Asesu ar gyfer Dysgu' a nodir yn y Canllawiau Cyffredinol.

## Uned 7 - Atodiad 1

### (fersiwn y De)

Mae Nia Angharad yn byw yng Nghaerdydd ond cafodd hi ei geni yn Llanelli. Aeth hi i Brifysgol Aberystwyth cyn gweithio fel athrawes yn Y Barri ac yn Llanhari. Erbyn hyn, mae hi'n gweithio i Radio Cymru yn y BBC.

Mae hi'n cyrraedd y gwaith am 8.30am ac yn darllen y newyddion am 9.00am.  
Mae hi'n mwynhau gweithio i Radio Cymru.

\*\*\*\*\*

Mae un plentyn gyda hi o'r enw Dafydd. Cafodd e ei eni ym mis Chwefror llynedd. Mae hi'n hoffi mynd i nofio gyda Dafydd a bwyta ma's gyda ffrindiau. Ei hoff fwyd yw pasta neu bysgod a sglodion.

Ar ei gwyliau mae Nia'n mwynhau gweld pethau newydd a bwyta gormod!

### (fersiwn y Gogledd)

Mae Nia Angharad yn byw ym Mangor ond mi gaeth hi ei geni yn Llandudno. Mi aeth hi i Brifysgol Aberystwyth cyn gweithio fel athrawes yn Yr Wyddgrug ac yn Llangefni. Erbyn hyn mae hi'n gweithio i Radio Cymru yn y BBC.

Mae hi'n cyrraedd y gwaith am 8.30am ac yn darllen y newyddion am 9.00am.  
Mae hi'n mwynhau gweithio i Radio Cymru.

\*\*\*\*

Mae gynni hi un plentyn o'r enw Dafydd. Mi gaeth o ei eni ym mis Chwefror llynedd. Mae hi'n hoffi mynd i nofio efo Dafydd a bwyta allan efo ffrindiau. Ei hoff fwyd ydy pasta neu bysgod a sglodion.

Ar ei gwyliau mae Nia'n mwynhau gweld pethau newydd a bwyta gormod!

**Uned 7 - Atodiad 2**

<b>archfarchnadoedd</b>	<b>cerddoriaeth glasurol</b>
<b>cerddoriaeth roc</b>	<b>dartiau</b>
<b>dinasoedd</b>	<b>rhaglenni comedi</b>
<b>rhaglenni dogfen</b>	<b>mathemateg</b>
<b>cartwnau</b>	<b>llyfrau ffantasi</b>
<b>rygbi</b>	<b>pêl-droed</b>
<b>technoleg</b>	<b>Llundain</b>
<b>tân gwyllt</b>	<b>Nos Galan</b>

## Canllawiau Uned 8

**Nod y wers:** Cyflwyno arddodiaid.

**Patrymau:** Dysgu'r arddodiaid i, ar, at

### Cam 1 – Banc Cwestiynau:

Beth dych/Be dach chi'n feddwl o'r tywydd ar hyn o bryd?

Beth dych/Be dach chi'n feddwl o raglenni teledu nos Sadwrn?

Beth o'ch chi'n feddwl o ginio ysgol?/Be oeddech chi'n feddwl o ginio ysgol?

Beth o'ch/Be oeddech chi'n hoffi wneud yn ystod gwyliau'r haf pan o'ch/oeddech chi'n blentyn?

### Cam 2 – adolygu uned 7

Paratowch gerdyn i bob aelod o'r dosbarth. Ceir syniadau am gynnwys y cardiau isod ond gellir addasu'r rhain, gan eu gwneud mor gyfoes â phosibl ac adlewyrchu diddordebau'r dosbarth:

X Factor	Coronation Street	Newsnight
bwyd Indian	bwyd Eidalaid	Marks a Spencer
John Lewis	Aldi	canu gwlad
Graham Norton	rygbi	pêl-droed
tennis	criced	Catherine Zeta-Jones

Rhaid cynnwys y gair ar y cerdyn mewn cwestiwn, e.e. Beth dych/Be dach chi'n feddwl o Aldi? (neu yn yr amser amherffaith). Rhaid i aelodau'r dosbarth holi ei gilydd, gan gynnal sesiwn adrodd yn ôl ar y diwedd. Gellid hefyd ddefnyddio cyfnod sgwrsio i atgyfnerthu 'Dw i'n meddwl bod.....', e.e. gofynnwch 'Beth weloch chi/Be wnaethoch chi weld ar y teledu ddoe?' ac wedyn 'Beth dych/Be dach chi'n feddwl o....?' Os oes person enwog yn y newyddion, gellid holi am y person hwnnw (gan ddibynnu ar sensitifrwydd y sefyllfa).

## Cam 3 – yr arddodiad i

Er mwyn dwyn i gof yr arddodiad 'i', gofynnwch i'r dosbarth greu holiadur syml:

Enw	ar ôl y dosbarth	yfory	dydd Sul

Rhaid holi aelodau'r dosbarth 'Beth/be mae'n rhaid i chi wneud XX?' Gofynnwch am sesiwn adrodd yn ôl. Darllenwch dros yr adran 'Dych chi'n cofio?' a rhannwch y dosbarth yn barau i wneud yr ymarfer yn y llyfr.

**Gofyn i** – Defnyddiwch enwau aelodau'r dosbarth i gyflwyno gofyn i – Dw i'n mynd i ofyn i X – Dw i'n mynd i ofyn iddo fe/iddi hi. Yna, dw i'n mynd i ofyn i X ac X – Dw i'n mynd i ofyn iddyn nhw. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr.

**Rhoi i** Mae bag trugareddau yn ddefnyddiol. Rhowch rywbeth o'r bag (e.e. llyfr) i ferch yn y dosbarth a dweud, Rhaid i fi roi llyfr i Mary. Mae'r dosbarth yn dweud, Rhaid i fi roi llyfr iddi hi. Defnyddiwch wrthrychau eraill i'w rhoi i ddyn yn y dosbarth (iddo fe), ac i barau (iddyn nhw).

Yna gofynnwch i bawb lenwi'r grid anrhegion yn unigol ac yna crwydro'r stafell yn gofyn ac yn ateb: Beth/Be wyt ti'n mynd i brynu i Aled? Dw i'n mynd i brynu... iddo fe ac ati.

## Cam 4 – yr arddodiad ar

**De Cymru:** Atgoffwch y dysgwyr o'r arddodiad ar yng nghyd-destun salwch. Gellid defnyddio cardiau salwch CBAC i ymarfer.

**Gogledd Cymru:** Dysgwch yr arddodiad ar trwy ddrilio'r personau gwahanol.

**Edrych ar** – Bydd pawb yn gyfarwydd â defnyddio edrych ar. Driliwch gan ddefnyddio pobl yn y dosbarth. Edrychwch ar Bob – Edrychwch arno fe/fo. Darllenwch dros y bloc.

**Gwrando ar** - Fel uchod.

**Dwlu ar (De Cymru)** - Ar ôl drilio'r frawddeg gyntaf, gofynnwch i bawb bersonoli. Dylid ymarfer y trydydd person lluosog os bydd dysgwyr yn enwi'r un gamp. Gwnewch yr un peth gyda bwydydd ond y tro hwn, rhaid adrodd yn ôl am bobl yn y dosbarth gan ddefnyddio'r trydydd person. Darllenwch dros y bloc.

**Ymarfer** – Gofynnwch i bawb roi √ neu X ym mhob un o'r blychau. Yna, rhannwch y dosbarth yn barau i ymarfer, e.e.

Partner A: Wyt ti'n edrych ar y ddrama?

Partner B: Ydw, dw i'n edrych arni ni neu Nac ydw, dw i ddim yn edrych arni hi.

## Cam 5 – trafod rhaglenni S4C

Dylai pawb fod wedi edrych ar raglen ar S4C fel rhan o'u gwaith cartref. Felly rhannwch y dosbarth mewn grwpiau o 3 neu 4 a gwnewch yn siŵr bod o leiaf un o bob grŵp wedi gweld rhyw raglen i siarad amdani. Pan fyddan nhw wedi cael cyfle i rannu eu 5 brawddeg, cynhaliwch sesiwn fel dosbarth cyfan trwy ofyn cwestiynau fel, Beth weloch chi/Be wnaethoch chi weld? a Beth o'ch/Beth oeddech chi'n feddwl o XX?

## Cam 6 – yr arddodiad at

**Anfon at - Driliwch** y bloc "Pwy anfonodd ebost?" fel y mae yn y llyfr. Yna rhowch ddis i bob pâr a gofynnwch iddyn nhw ddweud beth roedd rhywun enwog wedi ei anfon ac at bwy. Penderfynwch fel dosbarth ar y person enwog. Rhowch y drefn ar y bwrdd gwyn: 1 – fi 2 – ti 3 – fe/fo 4 – hi – 5 – ni- 6 – chi. Opsiynau posib : llythyr, cerdyn, ebost, neges, gwahoddiad. Dylech chi alw'r rhain un ar y tro a glynu wrtho fe am funud neu ddwy cyn symud ymlaen at y nesaf. Bydd angen modelu, e.e. galw llythyr - taflu 4: Anfonodd X/Mi wnaeth X anfon lythyr ati hi.

**Ysgrifennu/Sgwennu at** – Rhannwch y dosbarth yn barau i wneud y gweithgaredd ysgrifennu sy'n ymarfer amserau gwahanol y ferf hefyd. Wedyn, rhannwch y dosbarth yn barau newydd i wneud y grid. Rhaid rhoi √ mewn un blwch ar gyfer pob person. Dyma'r patrwm i'w ddilyn.

Wyt ti'n mynd i ysgrifennu/sgwennu at y prif weinidog?

Ysgrifennais i ato fe ddoe/Ydw, bydda i'n ysgrifennu ato fe yfory/Does dim pwynt ysgrifennu ato fe.

Mi wnes i sgwennu ato fo ddoe/Ydw, mi fydda i'n sgwenno ato fo yfory/Does dim pwynt sgwennu ato fo.

**Mynd at** – Driliwch y bloc a gofynnwch i bawb grwydro'n holi "Pryd rwyt/wyt ti'n mynd at y deintydd nesa?" gan ofyn i bawb ateb yn onest.

**Cofio at** – Defnyddiwch luniau o enwogion i wneud y dril, e.e. Cofia fi at Ryan Giggs – Cofia fi ato fe/fo. Darllenwch dros y bloc.

**Edrych ymlaen at** – Rhannwch y dosbarth yn barau i wneud yr ymarfer ysgrifenedig. Ail bwrpas yma yw meithrin ymwybyddiaeth o genedl enw. Ar y diwedd, gofynnwch i bawb nodi un peth maen nhw'n edrych ymlaen ato yn y dyfodol agos.

## Cam 7 – ymarfer yr arddodiaid

**Negeseuon e-bost** - Rhannwch y dosbarth yn barau i wneud y negeseuon ebost fel parau yn y dosbarth, ac yna gofynnwch iddyn nhw ddarllen y negeseuon yn uchel. Neu gellir eu gosod fel gwaith cartref ychwanegol.

**Llongau Rhyfel** – Rhannwch y dosbarth yn barau newydd. Rhaid i bawb ddewis 3-5 blwch a champ y partner yw dyfalu pa rai. Rhaid modelu:

Partner A: Wyt ti wedi rhoi paned i Dafydd?

Partner B: (Os yw'r blwch hwnnw yn un o'r blychau a ddewiswyd) Ydw/Do, dw i wedi rhoi paned iddo fe/fo, neu Nac ydw/Naddo, dw i ddim wedi rhoi paned iddo fe/fo.

## Cam 8 – Sgwrs

Gwrandewch heb dasg i ddechrau, yna gofynnwch iddyn nhw ddarllen y ddeialog ac yna disodli'r geiriau wedi eu tanlinellu.

## Cam 9 – Thema siarad: DARLLEN

Ewch dros y geiriau yn y blychau ac yna trowch at y Sgwrs. Dilynwch y Canllawiau Cyffredinol (Siarad am thema). Argymhellir dileu'r cwestiynau ar gyfer Cam iv. fel a ganlyn:

Fersiwn y de:

A: Beth ddarllenoch chi ddiwetha?

B: Darllenais i Y Stryd.

A: Dw i'n gweld. ....?

B: Helen Naylor oedd yr awdur.

A: .....

B: Hanes pobl sy'n byw ar un stryd.

A: Diddorol! .....

B: Do , roedd e'n ardderchog.

A: .....

B: Cewch wrth gwrs, dyma chi.

Fersiwn y gogledd:

A: Be ddarllenoch chi ddiwetha?

B: Mi ddarllenes i Y Stryd.

A: Dw i'n gweld. ....?

B: Helen Naylor oedd yr awdur.

A: .....

B: Hanes pobl sy'n byw ar un stryd .

A: Diddorol! .....

B: Do , roedd o'n ardderchog.

A: .....

B: Cewch wrth gwrs, dyma chi.

Manteisiwch ar y cyfle i ddod â llyfrau addas i mewn i'r dosbarth i'w dangos - yn arbennig i hyrwyddo cyfres Amdani. Anogwch y dysgwyr i ddod ag unrhyw lyfrau Cymraeg maen nhw wedi eu mwynhau i'r dosbarth.

Yna, rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i drafod y cwestiynau. Ceir cyfle yma i ddangos gwefannau Cymru Fyw a Golwg 360 os oes adnoddau cyfrifiadurol yn yr ystafell ddosbarth. Bydd angen pwysleisio bod y Gymraeg yn rhy anodd ond gellid annog y dysgwyr i geisio deall rhai o'r penawdau.



## Cam 10 – Robin Radio

Mae hwn yn gyfle i atgyfnerthu geiriau defnyddiol Uned 7:

yn bell i ffwrdd – Gofynnwch i bawb ysgrifennu un lle ar bapur a'i roi mewn brawddeg, e.e. Mae XX yn bell i ffwrdd. Mae'n hwyl wedyn i ganfod y person sy wedi dewis y lle pella.

Does dim dyddiadur gyda chi? - Rhowch y geiriau canlynol ar y bwrdd gwyn: Car/ffôn/ sbectol/ anifail anwes/ amser. Gofynnwch i aelodau'r dosbarth ofyn i chi am y pethau yma – ac atebwch yn wir ac mewn brawddeg lawn. Yna, gofynnwch i'r dosbarth holi eu partner.

Fallai bydda i'n mynd i Eisteddfod yr Urdd – Gofynnwch i bawb ddweud un lle y byddan nhw'n mynd "fallai"/"ella" dros y penwythnos.

**Robin Radio Uned 8.**

## Cam 11 – Geirfa

Geirfa Uned 9.

## Cam 12 – Crynhoi

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a wnaed yn Uned 8. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gellir defnyddio un o'r dulliau 'Asesu ar gyfer Dysgu' a nodir yn y Canllawiau Cyffredinol.

## Canllawiau Uned 9

**Nod y wers:** Parhau i gyflwyno arddodiaid.

**Patrymau:** Dysgu'r arddodiaid am, wrth, â

### Cam 1 – Banc Cwestiynau:

Dych chi'n hoffi edrych ar S4C? Ar beth?/Dach chi'n licio edrych ar S4C? Ar be?

Dych chi'n gwrando ar y radio? Ar beth?/Dach chi'n gwrando ar y radio? Ar be?

Ble dych/Lle dach chi'n gwrando ar y radio fel arfer?

Dych/Dach chi'n edrych ymlaen at rywbeth dros y misoedd nesa?

### Cam 2 – adolygu uned 8

Gêm pelmanism. Ceir cardiau yn Atodiad 1. Rhowch ochr A ac ochr B ar liwiau gwahanol os yn bosibl. Rhowch set o gardiau i bob pâr. Rhaid gosod y cardiau ben i waered, gyda un partner yn troi un o bob lliw ar y tro i geisio creu brawddeg synhwyrol. Os bydd yn creu brawddeg synhwyrol, caiff gadw'r cardiau. Ar y diwedd, gellir ceisio cofio haneri gwahanol y brawddegau.

### Cam 3 – cyflwyno'r arddodiad am

Driliwch yr arddodiad 'am' yn drylwyr trwy fynd trwy'r bloc cyntaf yn fecanyddol, gan dynnu sylw at y cysondeb yn y terfyniadau.

Driliwch yr ail floc gan ddisodli'r personau.

**Ymarfer** – Trowch at y grid yn y llyfr. Mae un blwch gwag ar waelod y tabl i'r dysgwyr ysgrifennu enw person sy yn y newyddion ar hyn o bryd. Mae angen i bawb roi croes wrth un ateb ar gyfer pob categori. Mae'r dysgwyr yn holi ei gilydd, 'Dych chi'n siarad am XX?' a rhaid dewis un o'r brawddegau enghreifftiol.

### Cam 4 – cyflwyno'r arddodiad wrth

**Dweud wrth** – Driliwch y bloc yn drylwyr ac yna rhannwch y dosbarth yn barau i wneud yr ymarfer ysgrifenedig yn y llyfr.

## Cam 5 – Ymarfer arddodiaid

Llongau rhyfel - Mae partner A a phartner B yn dewis 3-5 brawddeg i'w hateb yn gadarnhaol. Yna, mae partner A yn gofyn "Wyt ti'n meddwl am y penwythnos?" Ateb: "Nac ydw, dw i ddim yn meddwl amdano fe." Atebir yn gadarnhaol os yw'r blwch yn un o'r rhai a ddewiswyd. Y cyntaf i ddyfalu pob un o flychau ei bartner sy'n ennill.

## Cam 6 – cyflwyno'r arddodiad â (De Cymru yn unig)

Driliwch y bloc. Yna ysgrifennwch hyn ar y bwrdd gwyn a gofynnwch i barau bersonoli:  
 Dw i'n siarad Cymraeg â.....  
 Dw i'n cytuno â..... (ffrind/aelod o'r teulu/rhywun enwog) fel arfer.  
 Dw i'n anghytuno â ..... (ffrind /aelod o'r teulu/rhywun enwog) fel arfer.  
 Dw i'n cwrdd â ..... yr wythnos nesa.

## Cam 7 – Ymarfer arddodiaid

Rhannwch y dosbarth yn barau i wneud yr ymarferion paru a chyfieithu yn y llyfr.  
 Rhannwch y dosbarth yn barau newydd i chwarae'r gêm fwrdd.

## Cam 8 – Sgwrs

Chwaraewch y sgwrs unwaith heb osod tasg. Gofynnwch i'r dysgwyr wrando am o leiaf un enghraifft o'r arddodiaid am, â ac at yn ystod yr ail wrandawriad. Chwaraewch y ddeialog am y trydydd tro, gan oedi ar ôl pob arddodiad. Wedyn, rhannwch y dosbarth yn barau i drefnu'r ddeialog. Ceir copi o'r ddeialog yn Atodiad 2. Nid yw'r cardiau hyn yn y Blwch Adnoddau. Chwaraewch y darn unwaith eto i wirio'r drefn.

## Cam 9 – Siarad am anifeiliaid

### Storom Eirfa

Gan fod angen ysgrifennu enwau anifeiliaid ar y lluniau, ceisiwch ysgogi geiriau gwahanol yma, e.e. mynd am dro, sw, bwydo, glanhau, caets, anrheg.

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri i wneud y gwaith siarad ond dylid newid y grwpiau ar ôl pob categori o anifeiliaid.

**Y lluosog ac ansoddeiriau** – Nod y gweithgaredd hwn yw ymarfer ffurfiau lluosog a chreu ymwybyddiaeth o genedl enw a threigladd.

## Cam 10 – Robin Radio

Mae hwn yn gyfle i atgyfnerthu geiriau defnyddiol Uned 8:

Dyna ddiwedd rhaglen arall – cyfle ar gyfer disodli, e.e. dosbarth, gêm, cyngerdd, cyfarfod

Does dim ots 'da fi – driliwch ragenwau gwahanol

pobl sy eisiau cwyno – Rhowch y geiriau yma ar y bwrdd gwyn: sêl cist car, disgo, llyfrgell, banc, tafarn, sinema, campfa. Gofynnwch i barau feddwl pwy sy'n mynd i'r llefydd yma – pobl sy eisiau... Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl.

**Robin Radio Uned 9.**

## Cam 11 – Geirfa

Geirfa Uned 10.

## Cam 12 – Crynhoi

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a wnaed yn Uned 9. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gellir defnyddio un o'r dulliau 'Asesu ar gyfer Dysgu' a nodir yn y Canllawiau Cyffredinol.

## Atodiad 1

Dw i'n gofyn	i ti am un cyfle arall.
Wnei di roi	llyfr i mi? llyfr i fi?
Mae'n bwysig gwranddo	ar Radio Cymru.
Dan ni'n edrych ymlaen 'Dyn ni'n edrych ymlaen	at ein gwyliau yn y bwthyn.
Cofiwch fi	at eich cydweithwyr.
Rhaid i mi sgwennu llythyr Rhaid i fi ysgrifennu llythyr	at fy nghefnder yn Awstralia.
Dw i'n mynd i edrych	ar y ddrama newydd ar S4C.
Dw i'n mynd i roi crys rygbi	iddi hi fel anrheg pen-blwydd.

## Atodiad 2

(fersiwn y de)

Meinir: Helô?

Marc: Helô, cariad, dw i'n ffonio o'r gwaith. Mae newyddion cyffrous gyda fi.

Meinir: Gwych! Beth yw dy newyddion di, cariad?

Marc: Rhaid i fi fynd i Seland Newydd am dri mis gyda'r gwaith.

Meinir: Beth? Faint o bobl sy'n mynd?

Marc: Dim ond fi.

Meinir: Pryd rwy't ti'n mynd?

Marc: Ym mis Gorffennaf.

Meinir: Ond beth amdana i?

Marc: Byddi di'n iawn am dri mis.

Meinir: Beth am y plant?

Marc: Dw i ddim yn poeni amdany'n nhw, byddan nhw'n iawn.

Meinir: Ond sut byddwn ni'n siarad â ti?

Marc: Bydda i'n gallu siarad â chi drwy'r cyfrifiadur.

Meinir: Wel, byddwn ni'n edrych ymlaen at sgwrs gyda ti bob nos.

Marc: Ym...ie...wel, bydda i'n meddwl amdanoch chi yn yr haf yng Nghymru, achos bydd hi'n aeaf yn Seland Newydd!

Meinir: Ym, un funud!

Marc: Beth, cariad?

Meinir: Ydy Cymru yn mynd ar daith rygbi i Seland Newydd ym mis Gorffennaf?

(saib)

Marc: Ydyn nhw? Anghofiais i am y rygbi...wel, fallai bydda i'n gallu gweld un gêm a bydda i'n gallu prynu crysau duon i'r plant.

Meinir: Hy! Cofia fi at y Crysau Duon!

Marc: Cariad? Cariad?...

## Atodiad 2

(fersiwn y gogledd)

Meinir: Helô?

Marc: Helô, cariad, dw i'n ffonio o'r gwaith. Mae gen i newyddion cyffrous.

Meinir: Gwych! Be ydy dy newyddion di, cariad?

Marc: Rhaid i mi fynd i Seland Newydd am dri mis efo'r gwaith.

Meinir: Be? Faint o bobol sy'n mynd?

Marc: Dim ond fi.

Meinir: Pryd wyt ti'n mynd?

Marc: Ym mis Gorffennaf.

Meinir: Ond be amdana i?

Marc: Mi fyddi di'n iawn am dri mis.

Meinir: Be am y plant?

Marc: Dw i ddim yn poeni amdanyn nhw, mi fyddan nhw'n iawn.

Meinir: Ond sut fyddwn ni'n siarad efo ti?

Marc: Mi fydda i'n medru siarad efo chi drwy'r cyfrifiadur.

Meinir: Wel, mi fyddwn ni'n edrych ymlaen at sgwrs efo ti bob nos.

Marc: Ym...ia...wel, mi fydda i'n meddwl amdanoch chi yn yr haf yng Nghymru, achos mi fydd hi'n aeaf yn Seland Newydd!

Meinir: Ym, un munud!

Marc: Be, cariad?

Meinir: Ydy Cymru yn mynd ar daith rygbi i Seland Newydd ym mis Gorffennaf?

(saib)

Marc: Ydyn nhw? Mi anghofies i am y rygbi... wel, fallai bydda i'n medru gweld un gêm ac mi fydda i'n medru prynu crysau duon i'r plant.

Meinir: Hy! Cofia fi at y Crysau Duon!

Marc: Cariad? Cariad?...

## Canllawiau Uned 10

**Nod y wers:** Dysgu dyfodol Gwneud.

**Patrymau:** gwnaf i, gwnei di, gwnaiff e/hi, gwnawn ni, gwnewch chi, gwnân nhw,  
(De Cymru)

mi wna i, mi wnei di, mi wneith o/hi, mi wnawn ni, mi wnewch chi, mi wnân nhw  
(Gogledd Cymru)

### Cam 1 – Banc Cwestiynau:

Dych/dach chi'n hoffi siarad am y newyddion?

Oes anifail anwes gyda chi?/Sgynnoch chi anifail anwes?

Oedd anifail anwes gyda chi pan o'ch chi'n blentyn?/Oedd gynnoch chi anifail anwes pan oeddech chi'n blentyn?

### Cam 2 – Adolygu uned 9

Rhowch ddau ddis i bob pâr a rhowch y canlynol ar y bwrdd gwyn:

1 – ar	1 - fi
2 – i	2 - ti
3 – at	3 - fe/fo
4 – am	4 - hi
5 – wrth	5 - chi
6 – â	6 – nhw

Ar y dechrau, rhaid cyplysu'r arddodiad a'r rhif yn unig, e.e. 3 + 5 = atoch chi.

Ar ôl ychydig funudau, rhaid rhoi'r arddodiad a'r rhagenw mewn brawddeg.

Ar gyfer rhif 6 yn rhestr yr arddodiaid yn y gogledd, dewiswch yr arddodiad rydych chi am ei ymarfer fwyaf.

### Cam 3 – Cyflwyno dyfodol Gwneud

Wrth weithio trwy bersonau dyfodol cryno 'gwneud', dylid dangos bod y terfyniadau'n cyd-fynd a therfyniadau dyfodol 'bod' (ac eithrio'r trydydd person unigol).

**Person cyntaf unigol** - Atgoffwch y dysgwyr o'r patrwm Gwnes/Mi wnes i'r coffi', gan ddisodli'r gair coffi. Yna, cyflwynwch'Gwnaf i'r coffi/Mi wna i'r coffi'. Driliwch



y bloc cyntaf gyda chardiau fflach os yn bosib. Ar ôl digon o ymarfer ailadrodd, rhowch gerdyn (neu lun) i bawb er mwyn iddyn nhw grwydro gan roi'r gair sydd ar eu cerdyn mewn brawddeg yn defnyddio 'Gwnaf i/Mi wna i...'. Syniadau am gardiau: y brechdanau, y te, y gwaith papur, yr addurno, yr adloniant, yr amserlen, y cofrestru, y ddogfen, yr eitem, y wefan, y llythyrau, y papuro, y pobi, y bwyd, y coffi, y cinio.

Driliwch yr ail bloc. Rhannwch y dosbarth yn barau i nodi pum peth y gwnân nhw yfory.

**Ail berson unigol** – Driliwch y bloc cwestiynau ac yna gosod yr holiadur fel ymarfer. Bydd angen crwydro a chael ymateb rhyw 4 o bobl a ddim y partner y trafodwyd gweithgareddau yfory gyda fe/hi ar ôl bloc 1.

**Negyddol** - Driliwch y pedair brawddeg gan ofyn i bawb bersonoli. Rhannwch y dosbarth yn barau i greu pedair brawddeg yn nodi beth na wnân nhw yfory.

**Gofyn cymwynas** – Eglurwch mai hwn yw'r patrwm ar gyfer gofyn cymwynas. Driliwch y cwestiynau, yna gofynnwch i'r dysgwyr ofyn y 4 cwestiwn yn y llyfr i chi. Modelwch yr atebion. Yna, edrychwch fel dosbarth ar y grid. Gwahoddwch y dosbarth i ofyn cwestiynau i chi. Dylid ateb, 'Gwnaf, wrth gwrs/Wna i, wrth gwrs', neu 'Na wna' / 'Na wna, mae'n flin gyda fi/Na wna i, mae'n ddrwg gen i', a rhoi rheswm pam. Rhannwch y dosbarth yn barau i wneud yr un peth.

**Trydydd person unigol** – Defnyddiwch gardiau fflach os yn bosib i ddangos pobl yn gwneud gwahanol weithgareddau.

**Person cyntaf lluosog** - Driliwch y bloc "Ar ôl y dosbarth". Rhannwch y dosbarth yn ardaloedd gwahanol trwy ddefnyddio cardiau fflach, e.e. siopa/edrych ar y teledu/ llenwi'r tanc petrol/darllen. Rhaid i bawb fynd i'r ardal briodol i gynrychioli un peth wnân nhw ar ôl y dosbarth gan greu brawddeg 'Gwnawn ni/Mi wnawn ni...'

**Ail berson lluosog** – Driliwch y cwestiynau. Yna, gofynnwch i bawb edrych ar yr amserlen rhaglenni teledu yn y llyfr. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri i holi ei gilydd 'Beth/be wnewch chi wylio dydd Sadwrn/dydd Sul?' Rhaid adrodd yn ôl yn y trydydd person.

**Trydydd person lluosog** – Driliwch y bloc 'Cyn y parti'. Yna, rhowch sefyllfaoedd eraill, e.e. 'Cyn y Nadolig', 'Cyn y briodas', 'Cyn y gwyliau'. Rhaid greu pedair brawddeg yn defnyddio 'Gwnân nhw' ar gyfer pob sefyllfa.

**Ymarfer: Holiadur** "Beth/be wnest ti?" a "Beth/be wnei di?" Mae'n bwysig bod y dysgwyr yn gallu ymdopi â mwy nag un amser ar y tro felly dyma gyfle syml i ymarfer siarad yn y gorffennol a'r dyfodol. Cofiwch gynnal sesiwn adrodd yn ôl er mwyn ymarfer y trydydd person.

**Ymarfer Ysgrifenedig** Gofynnwch i'r dysgwyr fynd yn barau i wneud y ddau ymarfer. Dylid gwneud y rhain wedyn fel driliau llafar.

**Misoedd y flwyddyn** – Ewch dros fisoedd y flwyddyn ac yna trowch at y grid yn y llyfr. Mae angen i'r parau ddilyn y patrwm yn y frawddeg o dan y grid. Mae'n bosib bydd angen esbonio Santes Dwynwen a Ffŵl Ebrill.

**Gwrando** – Rhannwch y dosbarth yn barau a chwarae'r darn gan ofyn iddyn nhw roi'r ffafrau mewn trefn ac ateb y cwestiynau yn y llyfr. Ceir copi o'r sgript yn Atodiad 1.

## Cam 4 - Sgwrs

Gwrandawriad cyntaf – pawb i wrando am un gymwynas.

Ar ôl yr ail wrandawriad – ymarfer darllen a disodli.

## Cam 5 – Gwaith Siarad – Penwythnosau

Er mwyn cael pawb i ddechrau meddwl am eu penwythnosau, gofynnwch iddyn nhw roi ✓ yn ymyl y pethau maen nhw'n eu gwneud yn gyson dros y Sul. Yna, rhannwch y dosbarth yn driodd ar gyfer y gwaith siarad.

## Cam 6 - Robin Radio

Mae hwn yn gyfle i atgyfnerthu geiriau defnyddiol Uned 9:

pobl arbennig iawn – disodli arbennig

y rhai sy'n gwrando arnon ni – disodli'r rhagenw

rhaid i chi gael rheswm – Rhwch gyfres o sefyllfaoedd a gofyn i'r dysgwyr ymateb gyda brawddeg 'Rhaid i chi gael XX' e.e. i fynd i gyngerdd (Rhaid i chi gael tocyn), i ddringo mynydd, i fynd ar wyliau i Ffrainc, i wyllo ffilm ar y ffôn, i chwarae pêl-droed, i wneud brechdan.

**Robin Radio Uned 10.**

## Cam 7 - Geirfa

Geirfa Uned 11.

## Cam 8 – Crynhoi

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a wnaed yn Uned 10. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gellir defnyddio un o'r dulliau 'Asesu ar gyfer Dysgu' a nodir yn y Canllawiau Cyffredinol.

## Uned 10 - Atodiad 1 (De Cymru)

Merch: Mam! Wnei di olchi'r ffrog yma cyn heno – â llaw?

Mam: W – dy ffrog barti! Gwnaf wrth gwrs, ble rwyd ti'n mynd?

Merch: I barti tŷ ffrindiau newydd o'r gwaith.

Mam: Ble maen nhw'n byw?

Merch: Tu allan i Fryncastell felly dw i ddim yn gallu cael bws. Wnei di roi lifft i fi?

Mam: Gwnaf, os wyt ti'n gwybod ble mae'r tŷ.

Merch: Wnei di roi lifft i Ceri hefyd?

Mam: Oes rhaid i fi? Mae hi'n byw yn y dre!

Merch: Wel, mae teulu Ceri ar wyliau. Wnei di fynd heibio'r archfarchnad hefyd? Dw i angen mynd i'r peiriant twll yn y wal i gael arian i brynu cwrw a chreision.

Mam: Wel...gwnaf, mae e ar y ffordd i dŷ Ceri, fwy neu lai.

Merch: Gaf i fenthyg dy sgidiau coch?

Mam: Ond maen nhw'n newydd, a dw i angen y sgidiau i briodas Bethan. Wyt ti'n siŵr wnei di ddim strywo'r sgidiau?

Merch: Wrth gwrs wnaif i ddim!

Mam: Sut wyt ti'n dod adre?

Merch: Wel...wnei di ddod i fy nôl i?

Mam: Am faint o'r gloch?

Merch: Dau o'r gloch?

Mam: Na wnaif, wir!

Merch: Un o'r gloch, 'te?

Mam: Wnaif i ddim dy nôl di o gwbl! Bydd rhaid i ti a Ceri gael tacsî.

Merch: O'r gorau ... ond wnei di gofio golchi'r ffrog? (Drws yn cau'n glep)

Mam: Gwnaf...yn y peiriant golchi!

## Uned 10 - Atodiad 2 (Gogledd Cymru)

Merch: Mam! Wnei di olchi'r ffrog yma cyn heno – efo llaw?

Mam: W – dy ffrog barti di! Wna i, wrth gwrs, lle wyt ti'n mynd?

Merch: I barti tŷ ffrindiau newydd o'r gwaith.

Mam: Lle maen nhw'n byw?

Merch: Tu allan i Frynecastell felly dw i ddim yn medru cael bws. Wnei di roi lifft i mi?

Mam: Wna i, os wyt ti'n gwybod lle mae'r tŷ.

Merch: Wnei di roi lifft i Ceri hefyd?

Mam: Oes rhaid i mi? Mae hi'n byw yn y dre!

Merch: Wel, mae teulu Ceri ar wyliau. Wnei di fynd heibio'r archfarchnad hefyd? Dw i angen mynd i'r peiriant twll yn y wal i gael pres i brynu cwrw a chreision.

Mam: Wel...wna i, mae o ar y ffordd i dŷ Ceri, fwy neu lai.

Merch: Ga i fenthyg dy sgidiau coch?

Mam: Ond maen nhw'n newydd, a dw i angen y sgidiau i briodas Bethan. Wyt ti'n siŵr wnei di ddim difetha'r sgidiau?

Merch: Wrth gwrs wna i ddim!

Mam: Sut wyt ti'n dŵad adre?

Merch: Wel...wnei di ddŵad i fy nôl i?

Mam: Am faint o'r gloch?

Merch: Dau o'r gloch?

Mam: Na wna i, wir!

Merch: Un o'r gloch, 'ta?

Mam: Wna i ddim dy nôl di o gwbl! Mi fydd rhaid i ti a Ceri gael tacsî.

Merch: O'r gorau ... ond wnei di gofio golchi'r ffrog? (Drws yn cau'n glep)

Mam: Wna i...yn y peiriant golchi!

## Canllawiau Uned 11

**Nod y wers:** Dysgu dyfodol Mynd.

**Patrymau:** af i, ei di, aiff e/hi, (eith o/hi), awn ni, ewch chi, â'n nhw

### Cam 1 – Banc Cwestiynau:

Pryd gwnewch/wnewch chi godi yfory?

Beth/Be wnewch chi yfory?

Beth/Be wnewch chi ar ôl y dosbarth?

Beth/Be wnewch chi ym mis Awst?

### Cam 2 – Adolygu Uned 10

Yn syml iawn, gofynnwch i bawb greu eu holiadur eu hun ar ddarn o bapur er mwyn ymarfer 'Beth/be wnei di?' neu 'Beth/be wnewch chi?' Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl.

Enw	nos yfory	dydd Sul	wythnos nesa

### Cam 3 – Ffurfiâu lluosog

Rhannwch y dosbarth yn barau i nodi ffurfiâu lluosog y geiriau y byddwch yn eu galw allan. Y nod yw meithrin ymwybyddiaeth o rai o'r terfyniadau mwyaf cyffredin.

au	llyfr	diddordeb	rhif	siop
iau	pwynt	lliw	dydd	pris
i	gwrs	swydd	poced	tabled
oedd	milltir	ardal	mis	ystafell

## Cam 4 – cyflwyno dyfodol Mynd

Dylai'r gwaith hwn fod yn hawdd os yw'r dosbarth wedi dysgu dyfodol 'gwneud' yn dda.

**Person cyntaf unigol** – Atgoffwch y dosbarth o'r patrwm Es i i'r dre, gan ddisodli. Driliwch bloc 1 gan ddefnyddio cardiau fflach os yn bosib, e.e. llyfrgell, dosbarth, sinema, pwll nofio, ysgol, tafarn, theatr.

**Cwestiynau** – Driliwch y bloc cwestiynau. Driliwch y trydydd bloc i gadarnhau'r person cyntaf ac yna rhwch y dosbarth ar waith gyda'r holiadur yn y llyfr.

**Trydydd person** – Er mwyn cyflwyno'r trydydd person, gofynnwch i aelod cryf o'r dosbarth ateb un o'r cwestiynau yn yr holiadur. Trowch yr ateb i'r trydydd person er mwyn cyflwyno'r dril. Gellir ailadrodd hyn gyda nifer o ddysgwyr gwahanol er mwyn drilio nifer o frawddegau gwahanol. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr a rhannwch y dosbarth yn barau i adrodd yn ôl ar y grid.

**Person cyntaf a thrydydd person lluosog** – Driliwch y bloc yn dda. Rhannwch y dosbarth yn barau i gytuno ar dri lle 'ân nhw ddim' yfory gan adrodd yn ôl 'awn ni ddim...' a gweddill y dosbarthu yn troi eu brawddegau i'r trydydd person.

**Ymarfer** – Grid: Symudwch ymlaen at y grid yn y llyfr. Gofynnwch i barau ffeindio ail hanner "cywir" y brawddegau ac yna ymarfer dweud y brawddegau yn llawn wrth ei gilydd. Gellir hefyd wahaniaethu trwy ofyn i rai parau gofio hanner cyntaf neu ail hanner y frawddeg.

**Dis a'r map:** Cyn gwneud y gweithgaredd nesaf, ewch dros ddyfodol 'mynd' ar lafar unwaith eto. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri gan roi dis i bob grŵp. Mae'r dis yn cynrychioli'r rhagenwau: 1- fi, 2- ti, 3 – hi, 4 – ni, 5 – chi, 6 – nhw. Yna, dosbarthwch y set o gardiau sy yn Atodiad 1 i'w gosod ben i waered a'u troi fesul un: llyfrgell, castell, llongau, traeth, Parc y Scarlets, Senedd, eglwys, llyn, cychod, rhaeadr, maes y Sioe, Old Trafford, Tŵr Eiffel, llun o'r Beatles, 10 Stryd Downing, porthladd. Rhaid edrych ar y map a chreu brawddeg. Modelwch yn ofalus: taflu rhif 1, tro cerdyn llyfrgell = Os af i i Aberystwyth, gwnaf i/mi wna i weld llyfrgell. Rhaid parhau i droi'r cardiau nes cael ateb synhwyrol.

## Cam 5 – Sgwrs

Mae'r sgwrs yn ymwneud â theithio, sef y thema sgwrsio ac felly'n paratoi ar gyfer y gwaith llafar. Gwrandawriad 1af – rhaid nodi'r dulliau o deithio sy'n cael eu crybwyll.

Gwrando eto ac ymarfer darllen.

Trafod sut basen nhw'n mynd i Baris a Llundain a beth basen nhw'n hoffi ei wneud yna.

## Cam 6 – Gwaith siarad: Teithio

Darllenwch dros y geiriau yn y cwmwl geiriau ac yna rhannwch y dosbarth yn barau newydd i'w darllen nhw eto. Wedyn, gofynnwch iddyn nhw nodi 5 gair heb edrych yn y ffeil. Rhaid wedyn symud at bartner newydd gan gymharu rhestri ac ychwanegu unrhyw eiriau newydd. Gellir gwneud hyn nifer o weithiau os y dymunir. Yna, rhaid llunio brawddegau yn cynnwys rhai o'r geiriau. Gwnewch grwpiau o dri i drafod y cwestiynau.

## Cam 7 – Robin Radio

Ymarfer ymadroddion defnyddiol Uned 10:

Wnewch chi ddim credu... - Gofynnwch i barau feddwl am ail hanner i'r frawddeg. Cyfarchion pen-blwydd/ceisiadau – Ysgrifennwch y paragraff isod ar y bwrdd gwyn a gofynnwch i barau lenwi'r bylchau:

Dyma gyfarchion pen-blwydd i .....(dyn) sy'n dathlu ei ben-blwydd ar .....  
 ....., a .....(menyw/dynes ) sy'n dathlu ei phen-blwydd ar ..  
 ..... Maen nhw eisiau clywed ..... gan ....., a  
 .....gan..... Diolch am y ceisiadau.

Yna, gofynnwch iddyn nhw rannu'r paragraff a'i ddarllen i'r dosbarth.

**Robin Radio 11.**

## Cam 8 – Geirfa

Geirfa Uned 12.

## Cam 9 – Crynhoi

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a wnaed yn Uned 11. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gellir defnyddio un o'r dulliau 'Asesu ar gyfer Dysgu' a nodir yn y Canllawiau Cyffredinol.



**Uned 11 - Atodiad 1**

llyfrgell	castell
llongau	traeth
Eisteddfod	Parc y Scarlets
Y Senedd	eglwys
llyn	cychod
rhaeadr	Maes y Sioe
Old Trafford	Tŵr Eiffel
llun o'r Beatles	10 Stryd Downing
porthladd	

## Canllawiau Uned 12

**Nod y wers:** Dysgu dyfodol Cael.

**Patrymau:** caf/mi ga i, cei/mi gei di, caiff e/hi, (mi geith o/hi), cawn/mi gawn ni, cewch/mi gewch chi, cân/mi gân nhw.

### Cam 1 – Banc Cwestiynau:

Ble/Lle ewch yfory?

Ble/Lle ewch chi dros y penwythnos?

### Cam 2 – Adolygu Uned 11

Rhowch un o'r cardiau yn Atodiad 1 i bob aelod o'r dosbarth. Gwyliau yw'r thema. Yn y lle cyntaf, ysgrifennwch eiriau cyntaf y cwestiynau rhaid eu holi, ond gan fynd dros y cwestiynau hefyd:

Ble/Lle?	(Ble/Lle ewch chi ar eich gwyliau?)
Pryd?	(Pryd ewch chi ar eich gwyliau?)
Gyda phwy/Efo pwy?	(Gyda phwy/Efo pwy ewch chi?)
Sut?	(Sut ewch chi?)
Aros ble/lle?	(Ble gwnewch chi aros/Lle wnewch chi aros?)
Bwyta beth/be?	(Beth/Be wnewch chi fwyta?)
Gweld beth/be?	(Beth/Be wnewch chi weld?)

Rhaid i bawb grwydro yn holi ei gilydd.

### Cam 3 – Cyflwyno dyfodol Cael

**Person cyntaf unigol** – Atgoffwch y dosbarth o'r patrwm Ces i dost i frecwast, gan ddisodli. Driliwch bloc 1 gan ddefnyddio cardiau bwydydd neu fwydydd go iawn. Does dim rhaid cadw at gyd-destun brechwast. Darllenwch dros y bloc.

**Cwestiynau** – Driliwch y bloc cwestiynau ac yna rhowch y dosbarth ar waith gyda'r holiadur yn y llyfr.

**Trydydd person** – Er mwyn cyflwyno'r trydydd person, gofynnwch i aelod cryf o'r dosbarth ateb un o'r cwestiynau yn yr holiadur. Trowch yr ateb i'r trydydd person er mwyn cyflwyno'r dril. Gellir ailadrodd hyn gyda nifer o ddysgwyr gwahanol er mwyn drilio nifer o frawddegau gwahanol. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr a rhannwch y dosbarth yn barau i adrodd yn ôl ar y grid.

**Person cyntaf a thrydydd person lluosog** – Driliwch y bloc yn dda ac yna gofynnwch i barau edrych ar y brawddegau yn y blwch a disodli'r elfennau a danlinellir er mwyn sicrhau digon o ailadrodd.

**Ymarfer** – Gêm gardiau: Rhannwch y dosbarth yn barau a rhowch siwt gyfan o bac o gardiau i bob pâr. Mae'r brawddegau am Gwyn yn modelu sut i roi'r gweithgaredd ar waith.

**Y negyddol** – Driliwch y brawddegau yn y bloc gan roi cyfle i bawb bersonoli. Rhannwch y dosbarth yn barau gan roi dis i bob pâr. Rhaid dilyn y patrwm yn y llyfr gan ddisodli'r enw bob tro. Mae'r rhifau ar y dis yn cynrychioli'r rhagenwau: 1- fi, 2- ti, 3 – hi, 4 – ni, 5 – chi, 6 – nhw

## Cam 4 – Gofyn am ganiatâd

Atgoffwch y dysgwyr o'r ymadrodd 'Gaf i...?' a'r atebion gyda'r ymarfer disodli sy yn y llyfr. Wedyn, driliwch y bloc 'Gawn ni...?' yn drylwyr. Er mwyn ymarfer, ceir gêm llongau rhyfel yn y llyfr. Rhaid gofyn 'Gawn ni...?' bob tro.

## Cam 5 – Sgwrs

Gwrandawriad 1 – Rhaid nodi un rheswm pam dyw'r cwsmer ddim yn hapus.  
Chwarae o leiaf unwaith eto a rhannwch y dosbarth yn barau i ad-drefnu'r ddeialog (Atodiad 2).  
Chwarae eto i wirio'r drefn.  
Ymarfer darllen.

## Cam 6 – Gwaith siarad: Technoleg

### Storom Eirfa.

#### Sgwrs

Dilynwch y camau yn y Canllawiau Cyffredinol (Siarad am thema). Argymhellir dileu cwestiynau yn Cam iv. Argymhellir yr isod:

Fersiwn y De

A: .....

B: Ydw, mae diddordeb gyda fi mewn technoleg.

A: .....

B: Oes, mae ffôn newydd gyda fi.

A: .....

B: Oedd, ond roedd e'n werth pob ceiniog.

A: .....

B: Na chewch wir, mae e'n rhy ddrud! Beth tasech chi'n torri'r ffôn?

A: Bydda i'n ofalus iawn...

Fersiwn y gogledd:

A: .....

B: Ydw, mae gen i ddiddordeb mewn technoleg.

A: .....

B: Oes, mae gen i ffôn newydd.

A: .....

B: Oedd, ond roedd o'n werth pob ceiniog.

A: .....

B: Na chewch wir, mae o'n rhy ddrud! Be tasech chi'n torri'r ffôn?

A: Mi fydda i'n ofalus iawn...

Gwnewch grwpiau o dri i drafod y cwestiynau.

Rhowch y tabl isod (neu ddiweddariad ohono) ar y bwrdd gwyn:

O'r blaen	Nawr/Rŵan
Rhoi lluniau mewn albwm	Instagram
Llythyr i'r papur newydd	Trydar
Cardiau post o'r gwyliau	Facebook
Gadael nodyn ar y bwrdd	Tecstio
Ffonio	Skype/Facetime/Negesydd
Map	Sat Nav
Ysgrifennu â llaw	Cyfrifiadur
Llyfrgell	Gw glo
Siopau Gwyliau	Y We
Recordiau	Spotify/Youtube

Mae hwn yn gyfle i ymarfer yr amherffaith, e.e. Ro'n i'n (arfer) rhoi lluniau mewn albwm, ond nawr/rŵan dw i'n defnyddio Instagram.

## Cam 7 - Robin Radio

Ymarfer ymadroddion defnyddiol Uned 11:

Diolch am y gwahoddiad i'r parti – disodli parti.

Y degfed tro – cyfieithu chwim: the tenth boy, the tenth taxi, the tenth visitor, the tenth cottage, the tenth beast, the tenth butcher, the tenth harbour/port.

Oc ca i ddweud – atgoffwch y dysgwyr o'r ymadrodd a gofyn iddynt ei ddweud mewn ffyrdd gwahanol, e.e. yn grac/yn flin, yn gwrtais, yn dawel, yn hapus.

**Robin Radio 12.**

## Cam 8 – Geirfa

Geirfa Uned 12.

## Cam 9 – Crynhoi

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a wnaed yn Uned 12. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gellir defnyddio un o'r dulliau 'Asesu ar gyfer Dysgu' a nodir yn y Canllawiau Cyffredinol.

## Uned 12 - Atodiad 1

<p>Gogledd Cymru mis Gorffennaf y teulu yn y car gwely a brechwast cawl Castell Caernarfon</p>	<p>Porthcawl mis Awst y plant ar y bws fflat pysgod a sglodion y ffair</p>
<p>Llundain mis Mawrth partner ar y trê gwesty bwyd Thai sioe</p>	<p>Yr Alban mis Chwefror ffrindiau ar fws gwesty hagis gêm rygbi</p>
<p>Iwerddon mis Mai gŵr/gwraig ar y fferi gwely a brechwast Guinness Swyddfa Bost Dilyn</p>	<p>Paris mis Hydref ar ben fy hun/ar fy mhen fy hun ar y trê gwely a brechwast croissants Tŵr Eiffel</p>
<p>Barcelona mis Awst ffrindiau mewn awyren fflat tapas Sagrada Familia</p>	<p>Yr Almaen mis Rhagfyr y teulu mewn awyren chalet caws mynyddoedd</p>
<p>Awstralia mis Ebrill ffrind mewn awyren efo teulu/gyda theulu cangarŵ Tŷ Opera Sydney</p>	<p>Fflorida mis Medi y teulu mewn awyren gwesty byrgar a sglodion Byd Disney</p>
<p>Fenis mis Mai partner ar y fferi ac ar y trê gwesty bach pasta gondolas</p>	<p>India mis Tachwedd partner mewn awyren gwesty cyrri Y Taj Mahal</p>

<p>Tyddewi mis Mehefin y teulu yn y car pabell selsig a ffa Yr Eglwys Gadeiriol</p>	<p>De Ffrainc mis Awst y teulu yn y car fflat pysgod traethau hyfryd</p>
<p>Patagonia mis Ebrill ffrindiau o'r dosbarth Cymraeg mewn awyren efo pobl leol/gyda phobl leol llawer o gig Ysgol Gymraeg Trelew</p>	<p>Nant Gwrtheyrn mis Ionawr ffrindiau o'r dosbarth Cymraeg yn y car mewn bwthyn cinio rhost y môr</p>



## Uned 12 - Atodiad 2 (De Cymru)

Person y siop:	Gaf i helpu?
Cwsmer:	Cewch. Gaf i air gyda chi am y ffôn 'ma?
Person y siop:	Cewch, wrth gwrs.
Cwsmer:	Prynais i'r ffôn dau fis yn ôl yn y siop yma. Dyw e ddim yn gweithio o gwbl erbyn hyn. Roedd e'n ddrud iawn a dw i'n talu llawer am y cytundeb.
Person y siop:	Beth yw'r broblem?
Cwsmer:	Mae'r sgrin yn dywyll pan dw i'n tecstio, a dw i ddim yn gallu clywed y llais pan mae rhywun yn ffonio.
Person y Siop:	Dw i'n gweld.
Cwsmer:	Mae e'n gwneud sŵn "ping" pan dw i ddim yn disgwyl clywed "ping".
Person y Siop:	Gaf i weld y ffôn?
Cwsmer:	Cewch, wrth gwrs. Dyma chi.
Person y Siop:	Dych chi wedi trio diffodd y ffôn?
Cwsmer:	Ym... ydw, wrth gwrs...
Person y Siop:	Gaf i wneud?
Cwsmer:	Cewch.
(Sŵn "ping")	
Person y Siop:	Dyma chi. Mae popeth yn iawn nawr.
Cwsmer:	Diolch.
Person y Siop:	Gaf i helpu gyda rhywbeth arall? Gaf i esbonio'r ffôn yn iawn i chi?
Cwsmer:	Dim diolch. Dw i'n deall popeth nawr. Hwyl.
Person y Siop:	Hwyl! (Saib) Gwela i chi y mis nesa!

## Atodiad 2 (Gogledd Cymru)

- Person y siop: Ga i helpu?
- Cwsmer: Cewch. Ga i air efo chi am y ffôn 'ma?
- Person y siop: Cewch, wrth gwrs.
- Cwsmer: Mi i brynes i'r ffôn dau fis yn ôl yn y siop yma. Dydy o ddim yn gweithio o gwbl erbyn hyn. Roedd o'n ddrud iawn a dw i'n talu llawer am y cytundeb.
- Person y siop: Be ydy'r broblem?
- Cwsmer: Mae'r sgrin yn dywyll pan dw i'n tecstio, a dw i ddim yn medru clywed y llais pan mae rhywun yn ffonio.
- Person y Siop: Dw i'n gweld.
- Cwsmer: Mae o'n gwneud sŵn "ping" pan dw i ddim yn disgwyl clywed "ping".
- Person y Siop: Ga i weld y ffôn?
- Cwsmer: Cewch, wrth gwrs. Dyma chi.
- Person y Siop: Dach chi wedi trio diffodd y ffôn?
- Cwsmer: Ym... do, wrth gwrs...
- Person y Siop: Ga i wneud?
- Cwsmer: Cewch.
- (Sŵn "ping")
- Person y Siop: Dyma chi. Mae popeth yn iawn rŵan.
- Cwsmer: Diolch.
- Person y Siop: Ga i helpu efo rhywbeth arall? Ga i esbonio'r ffôn yn iawn i chi?
- Cwsmer: Dim diolch. Dw i'n dallt popeth rŵan. Hwyl.
- Person y Siop: Hwyl! (Saib) Mi wela i chi mis nesa!

## Canllawiau Uned 13

**Nod y wers:** Dysgu defnyddio rhif + blynedd.

**Patrymau:** un flwyddyn – deg mlynedd, dw i'n byw ers... , ro'n i'n byw am... , gwnes/mi wnes i XX yn ôl.

### Cam 1 – Banc Cwestiynau:

Gaf/Ga i lifft adre o'r dosbarth os gwelwch chi'n dda?  
Fasech chi'n hoffi cael anifail anwes?

### Cam 2 - Adolygu Gaf i/Ga i...?

Mae angen set o gardiau i bob pâr (Atodiad 1).  
Rhaid rhoi'r cardiau ben i waered ac mae'r ddau bartner yn codi cerdyn bob yn ail.  
Rhaid i'r sawl sy'n codi'r cerdyn ffurfio cwestiwn, e.e.  
Gaf/Ga i gau'r ffenest?  
Rhaid i'r partner ateb yn negyddol ac wedyn rhoi rheswm, e.e.  
Na chewch, mae hi'n dwym/boeth yn yr ystafell.  
Mae'r cam o roi rheswm yn bwysig gan ei fod yn sicrhau bod yn rhaid i'r dysgwyr ymarfer mwy na'r patrwm targed.  
Er mwyn ymarfer ffurfiau 'chi' a 'ti', dywedwch wrth y dosbarth am ddechrau gyda 'chi' ac wedyn newid i 'ti' tua hanner ffordd trwy'r gweithgaredd, pan fyddwch yn dweud wrthynt am wneud.

### Cam 3 – Adolygu

Er mwyn cadarnhau cwestiynau ac atebion elfennol, ynghyd â threigladau, gofynnwch i bawb siarad â thua 5 person yn y dosbarth a llenwi'r holiadur 'yn wreiddiol' a 'byw nawr/rwan'. Bydd hyn yn helpu wrth drafod byw mewn ardal am XX o flynyddoedd yn hwyrach yn y wers.

## Cam 4 – Cyflwyno blynedd

**1 – 10** - Yn syml iawn, cyflwynwch blwyddyn/blynedd yn dilyn rhif, gan dynnu sylw at y ffaith bod y dysgwyr eisoes yn gyfarwydd â'r rheolau hyn. Ar ôl cyflwyno, rhowch gerdyn (Atodiad 2) gyda'r rhif ar un ochr a geiriau ar yr ochr arall, e.e. 2 > dwy flynedd, i'r dysgwyr brofi ei gilydd.

**Dw i'n byw ers** – Driliwch y bloc ac yna pawb ar eu traed yn personoli, gan ddefnyddio'r enw lle yn hytrach na'r gair 'ardal'.

**Cwestiynau ers** – Driliwch y cwestiynau fesul un, gan gadw pawb ar eu traed ac yn crwydro er mwyn holi'r cwestiwn (a chael ateb) yn syth ar ôl ei ddysgu.

**Ymarfer:** Ysgrifennwch y tri chwestiwn isod ar y bwrdd gwyn a rhowch gerdyn i bawb (Atodiad 3). Rhaid iddynt ateb gyda'r atebion ar y cerdyn. Gellir dileu'r cwestiynau o'r bwrdd gwyn pan welwch chi fod y rhan fwyaf o'r dysgwyr yn hyderus yn eu holi:

Gyda phwy dych/Efo pwy dach chi'n byw?

Ble dych/Lle dach chi'n byw?

Ers faint dych/dach chi'n byw yn XX?

**Amherffaith** – Driliwch y brawddegau gan ddangos y gwahaniaeth rhwng 'ers' ac 'am'. Gofynnwch i'r dysgwyr bersonoli amdanynt eu hunain/frindiau/aelodau o'r teulu.

**Cwestiynau yn yr amherffaith** – Driliwch y cwestiynau ac yna rhannwch y dosbarth yn barau i holi ei gilydd am faint roedd Dewi a Dona'n byw yn y llyfyrdd gwahanol.

**Yn ôl** – Driliwch y brawddegau fesul un, gan stopio ar ôl pob er mwyn i'r dysgwyr bersonoli.

**Ymarfer: Stori'r Loteri** – Darllenwch dros y brawddegau am y loteri a gofynnwch i barau greu stori arall am ennill y loteri, gan ymarfer y person cyntaf lluosog.

**Holiadur** – Gellir cael sesiwn adrodd yn ôl er mwyn ymarfer y trydydd person.

## Cam 5 – Ymarfer Darllen, Siarad ac Ysgrifennu.

Y cam cyntaf yw darllen y tri pharagraff. Gofynnwch i'r dosbarth ddarllen y paragraff cyntaf yn dawel iddynt eu hunain. Wedyn, darllenwch chi'r paragraff gan ateb unrhyw gwestiynau. Ailadroddwch yr un dull gyda'r ddau baragraff nesaf. Rhannwch y dosbarth yn barau i ddarllen y tri pharagraff.

Yr ail gam yw i grwpiau o dri benderfynu i bwy basen nhw'n rhoi'r swydd a pham.

Yn olaf, rhaid ailysgrifennu'r paragraff cyntaf yn y trydydd person.

## Cam 6 – Gwranddo a Deall

Chwaraewch y sgwrs o leiaf ddwywaith i'r dysgwyr gael ateb y cwestiynau yn y llyfr. Mae'r pedwar cwestiwn yn profi 'blynedd'.

## Cam 7 – Sgwrs

Chwaraewch y sgwrs ddwywaith ac yna rhannwch y dosbarth yn barau i ddarllen a disodli.

## Cam 8 – Gwaith siarad: Gwaith

Storom Eirfa.

Gwnewch grwpiau o dri i drafod y cwestiynau.

Defnyddiwch y galwedigaethau a restrir i ymarfer yr amodol: Baswn i/Mi faswn i'n hoffi bod yn diwtor Cymraeg neu Faswn i ddim yn hoffi bod yn diwtor Cymraeg. Gyda grŵp da, gellid gofyn am reswm.

## Cam 9 – Robin Radio

Ymarfer ymadroddion defnyddiol Uned 12:

Sut hwyl gest ti? – Rhaid cael y dysgwyr i roi lleoliad, e.e. Sut hwyl gest ti yn y parti/yn y briodas ac ati.

Mae'n gas gyda fi/gen i dechnoleg – personoli yn lle technoleg yn y lle cyntaf. Yr ail dro, rhaid dweud naill ai Mae'n gas gyda fi/gen i dechnoleg neu Mae technoleg yn iawn pan mae'n gweithio neu Dw i'n dwlu ar dechnoleg./Dw i wrth fy modd efo technoleg.

Gobeithio cei di well lwc tro nesa – Gofynnwch i bobl ddweud yr un ymadrodd gyda tomorrow, next week, next month, next year.

**Robin Radio 13.**

## Cam 10 - Geirfa

Geirfa Uned 14.

## Cam 11 – Crynhoi

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a wnaed yn Uned 13. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gellir defnyddio un o'r dulliau 'Asesu ar gyfer Dysgu' a nodir yn y Canllawiau Cyffredinol.

## Uned 13 - Atodiad 1

gofyn cwestiwn personol	mynd i gysgu nawr/rŵan
cau'r ffenest	prynu peint i chi
agor y drws	dŵad i'ch gweld chi heno dod i'ch gweld chi heno
mynd i gael coffi	eich clywed chi'n canu
siarad Saesneg	gwerthu rhywbeth i chi
trefnu parti i'r dosbarth	defnyddio eich car chi
gofyn cymwynas fach	canu
bwyta fy nghinio nawr/rŵan	sgwrs am eiliad

## Uned 13 - Atodiad 2

1	un flwyddyn
2	dwy flynedd
3	tair blynedd
4	pedair blynedd
5	pum mlynedd
6	chwe blynedd
7	saith mlynedd
8	wyth mlynedd
9	naw mlynedd
10	deg mlynedd



## Uned 13 - Atodiad 3 (Gogledd Cymru)

ar ben fy hun Caergybi 3 blynedd	efo'r teulu Bangor 7 mlynedd
efo fy mhartner i Wrecsam 9 mlynedd	efo fy ngŵr i/fy ngwraig i Dinbych 1 flwyddyn
efo fy mhlant i Aberhonddu 5 mlynedd	efo ffrind Y Drenewydd 2 flynedd
efo ffrindiau coleg Aberystwyth 1 flwyddyn	efo fy nghi i Machynlleth 10 mlynedd
ar ben fy hun Aberteifi 4 blynedd	efo fy nheulu i Hwlfordd 8 mlynedd
efo fy mhartner i Llanelli 3 blynedd	efo fy ngŵr i/fy ngwraig i Abertawe 6 blynedd
efo fy merch i Y Barri 6 blynedd	efo ffrind Caerdydd 2 flynedd
efo ffrindiau Pontypridd 3 blynedd	efo dau gi a chath Casnewydd 9 mlynedd

## Atodiad 3 (De Cymru)

ar fy mhen fy hun Caerdybi 3 blynedd	gyda'r teulu Bangor 7 mlynedd
gyda fy mhartner Wrecsam 9 mlynedd	gyda fy ngŵr/ngwraig Dinbych 1 flwyddyn
gyda fy mhlant Aberhonddu 5 mlynedd	gyda ffrind Y Drenewydd 2 flynedd
gyda ffrindiau coleg Aberystwyth 1 flwyddyn	gyda fy nghi Machynlleth 10 mlynedd
ar fy mhen fy hun Aberteifi 4 blynedd	gyda fy nheulu Hwlfordd 8 mlynedd
gyda fy mhartner Llanelli 3 blynedd	gyda fy ngŵr/ngwraig Abertawe 6 blynedd
gyda fy merch Y Barri 6 blynedd	gyda ffrind Caerdydd 2 flynedd
gyda ffrindiau Pontypridd 3 blynedd	gyda dau gi a chath Casnewydd 9 mlynedd

## Canllawiau Uned 14

**Nod y wers:** Adolygu ac ymestyn o fewn cyd-destun Trefnu Digwyddiadau.

**Patrymau newydd:** Atebion Cael yn y dyfodol. Defnyddio Cael i roi caniatâd. Dyfodol cryno Dod – dof i/mi ddo i, doi di/mi ddoi di, daw e/hi (mi ddaw o/hi), down ni/mi ddown ni, dewch chi/mi ddewch chi, dôn nhw/mi ddôn nhw

### Cam 1 – Banc Cwestiynau:

Beth/Be oedd eich gwaith chi chwe blynedd yn ôl?

Ble ro'ch/Lle oeddech chi'n byw ugain mlynedd yn ôl?

### Cam 2 – Gêm o gardiau

Byddwch wedi gosod y grid "Gêm o gardiau" fel gwaith cartref. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri a rhowch becyn o gardiau i bob grŵp. Wrth droi cerdyn, maen nhw'n ateb y cwestiwn sydd ar y grid ar gyfer y cerdyn hwnnw. Os yn bosib, gwahoddwch siaradwyr rhugl i'r wers i fynd trwy'r gêm gyda'r dysgwyr. Gall helpu hyder y dysgwyr i wneud y gweithgaredd unwaith cyn i'r siaradwyr Cymraeg gyrraedd.

### Cam 3

Rhaid i'r dysgwyr greu cwestiynau i'r atebion a roddir.

### Cam 4 – Cael

Yma, ceir gwaith adolygu ac ymestyn y defnydd o 'cael'.

Mae'r bloc cyntaf yn cyflwyno atebion cadarnhaol wrth ofyn am ganiatâd. Driliwch nhw'n drylwyr.

Mae'r ail bloc yn cyflwyno atebion negyddol wrth ofyn am ganiatâd. Unwaith eto, driliwch nhw'n drylwyr.

Yna, ceir dau ymarfer cysylltu cwestiynau ag atebion – Yn y tŷ ac Yn y gwaith.

Mae'r bloc nesaf yn cyflwyno cysyniad newydd o roi caniatâd. Driliwch y bloc yn drylwyr. Os yn bosib, defnyddiwch gardiau fflach i aelodau'r dosbarth gael crwydro yn rhoi caniatâd i'w gilydd i fynd i leoliadau gwahanol neu wneud gweithgareddau gwahanol.

Dylid wedyn egluro y gellir defnyddio 'cael' i gyfleu caniatâd gydag amserau eraill y berf. Ceir ymarfer yn y llyfr – Dw i ddim yn cael.../Pan o'n i'n blentyn, do'n i ddim yn cael... Defnyddiwch yr enghreifftiau i gyflwyno'r gwaith ac yna rhannwch y dosbarth yn barau i feddwl am enghreifftiau eraill.

## Cam 5 – Ynganu

Santes Dwynwen – Ysgrifennwch y paragraff ar y bwrdd gwyn. Darllenwch y paragraff gan ofyn i'r dysgwyr wrando'n ofalus. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr ei ddarllen nifer o weithiau yn eu parau – frawddeg ar y tro, bob yn ail. Dechreuwch ddileu geiriau'n raddol o'r bwrdd gwyn – y tri arddodiad (am, at, at), wedyn yng Nghymru/eglwys/ym mis Chwefror, wedyn anfon cerdyn (x2)/rhamantus.

## Cam 6 – Adolygu dyfodol cryno mynd

Y cam cyntaf yw rhannu'r dosbarth yn barau i wneud y gwaith ar y diffiniadau. Mae'n bosib bydd rhai geiriau newydd ond bydd hyn yn cyflwyno elfen o her.

Cyn edrych ar y calendr digwyddiadau, ewch dros y ddeialog enghreifftiol y bydd y dysgwyr yn ei defnyddio i drafod y calendr - adolygu dyfodol cryno 'mynd' yw'r nod yma. Yr unig drefnolion y dylai'r dysgwyr eu defnyddio yw cyntaf a thrydydd. O ran y dyddiadau eraill, dylid defnyddio rhifolion.

## Cam 7 – Sgwrs 1

Chwaraewch y sgwrs heb osod unrhyw dasg y tro cyntaf. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o 5 os yn bosib iddyn nhw ymarfer darllen. Yna, chwaraewch y darn unwaith eto cyn i'r dysgwyr ddisodli'r geiriau a danlinellir. Defnyddir y ddeialog hon i gyflwyno ffurfiau dyfodol cryno 'dod'. Rhoddir sylw manwl iddynt isod.

## Cam 8 – Cyflwyno dyfodol Dod

**Person cyntaf unigol** – Driliwch y bloc, gan ddefnyddio lluniau neu wrthrychau os yn bosib.

**Ail berson** – Driliwch y cwestiynau'n drylwyr ac yna rhowch gerdyn i bawb (Atodiad 1). Rhaid holi tri chwestiwn: Sut doi/ddoi di i'r gwaith? Am faint o'r gloch doi/ddoi di? Gyda phwy doi di?/Efo pwy ddoi di? Rhaid canfod person gyda'r un cerdyn. Gellir aildosbarthu cardiau os bydd parau'n canfod ei gilydd yn gyflym iawn.

**Ymarfer** – Yr holiadur Parti Gwisg Ffansi yn y llyfr.

**Trydydd person** – Defnyddiwch yr atebion i'r holiadur uchod er mwyn drilio'r trydydd person. Darllenwch dros y bloc yn y llyfr i grynhoi.

**Person cyntaf a thrydydd person lluosog** – Driliwch y bloc. Yna, rhannwch yr ystafell yn ddau hanner, gan ofyn i'r dysgwyr fynd i un hanner os ydyn nhw eisiau dod gyda chi a'r hanner arall os nad ydyn nhw eisiau dod. Galwch lefydd, e.e. Ffrainc, noson gwis. Mae'r dysgwyr sy'n mynd i un rhan yn dweud, 'Down ni/mi ddown ni i XX gyda/efo chi', gyda'r dysgwyr eraill yn creu brawddeg negyddol. Dylid wedyn ymarfer y trydydd person hefyd, e.e. 'Dôn/Mi ddôn nhw i XX gyda/efo chi'.

Mae'r dril olaf yn cyflwyno Dof i â... . Dylid defnyddio gwrthrychau i gyflwyno'r dril os yn bosibl

## Cam 8 – Gwranddo a Gwylio

Dangoswch y fideo ar sir Gaerfyrddin a rhannwch y dosbarth yn barau i ateb y cwestiynau.

## Cam 9 – Trefnu taith ddosbarth yn yr ardal

Ymarfer siarad a defnyddio'r dyfodol cryno a geir yma. Awgrymir y cwestiynau mae'n rhaid eu gofyn yn y llyfr: Ble awn ni? Pryd awn ni? Sut awn ni? O ble awn ni? Beth wnawn ni yno? Beth wnawn ni weld yno? Beth gawn ni i fwyta ac yfed yno? Pryd down ni'n ôl?

(Lle awn ni? Pryd awn ni? Sut awn ni? O le awn ni? Be wnawn ni yno? Be gawn ni i fwyta ac yfed yno? Pryd ddown ni'n ôl?)

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i drafod a chymharu awgrymiadau ar y diwedd. Gellid cynnal pleidlais i ganfod y daith fwyaf poblogaidd.

## Cam 10 – Sgwrs 2

Chwaraewch y sgwrs ac yna gofynnwch i bob un ddweud un peth a ddeallon nhw yn y Sgwrs. Chwaraewch y sgwrs eto a rhannwch y dosbarth yn barau i ddarllen a disodli.

## Cam 11: Siarad – y flwyddyn nesa

Y gwaith paratoi y tro hwn yw ticio pob gweithgaredd y bydd y dysgwyr yn ei wneud y flwyddyn nesaf. Dylid eu hannog i ymestyn wrth wneud hyn. Gweithgaredd i grwpiau bach yw hwn, gan gadw'r un grwpiau ar gyfer y gwaith ateb cwestiynau.

## Cam 12 – Robin Radio

Ymarfer ymadroddion defnyddiol Uned 13:

Dw i'n eich clywed chi'n gofyn – Yn syml iawn, gofynnwch i'r dysgwyr ailadrodd y frawddeg, ond mewn ffyrdd gwahanol, e.e. wrth sibrwd, siarad yn normal, gweiddi.

Mae hi'n ganol nos – Ewch dros yr ymadroddion 'Mae hi'n amser gwely' ac 'Mae hi'n amser cinio'. Wrth eu dweud, rhaid i'r dysgwyr ddweud naill ai 'Mae hi'n ganol nos' neu 'Mae hi'n ganol dydd'. Rhannwch y dosbarth yn barau i ymarfer gyda'i gilydd.

Siwrne saff – Gofynnwch i bawb godi gan ddatgan wrth grwydro eu bod yn mynd ar daith. Y patrwm i'w ymarfer yw, 'Bydda i'n mynd i XX yfory'. Mae'r partner yn ymateb bob tro trwy ddweud 'Siwrne saff'.

**Robin Radio Uned 14.**

## Cam 13 – Geirfa

Geirfa Uned 15.

## Cam 11 – Crynhoi

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a wnaed yn Uned 14. Dylid ychwanegu os bydd bylchau. Gellir defnyddio un o'r dulliau 'Asesu ar gyfer Dysgu' a nodir yn y Canllawiau Cyffredinol.

## Uned 14 - Atodiad 1

Yn y car Erbyn 10.30am ar fy mhen fy hun/ar ben fy hun	Yn y car Erbyn 10.30am ar fy mhen fy hun/ar ben fy hun
Ar y bws Erbyn 8.30am ar fy mhen fy hun/ar ben fy hun	Ar y bws Erbyn 8.30am ar fy mhen fy hun/ar ben fy hun
Ar y beic Erbyn 9.00am ar fy mhen fy hun/ar ben fy hun	Ar y bws Erbyn 9.00am ar fy mhen fy hun/ar ben fy hun
Ar y trêrn Erbyn 8.00am Gyda fy mhartner/Efo fy mhartner	Ar y trêrn Erbyn 8.00am Gyda fy mhartner/Efo fy mhartner
Yn y car Erbyn 10.00am Ar fy mhen fy hun/Ar ben fy hun	Yn y car Erbyn 10.00am Ar fy mhen fy hun/Ar ben fy hun
Ar y bws Erbyn 8.00am Ar fy mhen fy hun/Ar ben fy hun	Ar y bws Erbyn 8.00am Ar fy mhen fy hun/Ar ben fy hun
Ar y beic Erbyn 9.30am Ar fy mhen fy hun/Ar ben fy hun	Ar y bws Erbyn 9.30am Ar fy mhen fy hun/Ar ben fy hun
Ar y trêrn Erbyn 8.30am Gyda fy mhartner/Efo fy mhartner	Ar y bws Erbyn 9.30am Ar fy mhen fy hun/Ar ben fy hun

## Uned 15

**Nod yr uned:** Disgrifio pobl a phethau

**Patrymau newydd:** Pa mor...? Mor ..... â

### Cam 1 – Banc Cwestiynau:

Sut dewch/Sut ddewch chi i'r dosbarth yr wythnos nesaf?

### Cam 2 – Rhannu newyddion

Rhannwch y dosbarth yn barau neu'n grwpiau bach i gyfnewid newyddion am yr wythnos. Gan ddibynnu ar faint y dosbarth, gellir cynnal sesiwn adrodd yn ôl. Os bydd rhywbeth anghyffredin e.e. rhywun wedi bod ar wyliau diddorol, dylid cynnal sesiwn holi'r person.

### Cam 3 – Adolygu Uned 14

Adolygu dyfodol dod:

Gofynnwch i'r dosbarth greu yr holiadur isod ar ddarn o bapur

Enw	Sut...?	Pryd...?	Am faint o'r gloch...?

Dod i'r dosbarth yr wythnos nesaf yw'r thema. Ewch dros y cwestiynau bydd angen eu gofyn i bump aelod o'r dosbarth. Awgrymir defnyddio'r cardiau a geir yn Atodiad 1 neu fel arall, bydd yr atebion yn debyg iawn i'w gilydd.

Sut dewch/ddewch chi i'r dosbarth yr wythnos nesaf?

Gyda phwy dewch/Efo pwy ddewch chi i'r dosbarth yr wythnos nesaf?

Pryd dewch/ddewch chi i'r dosbarth yr wythnos nesaf?

Am faint o'r gloch dewch/ddewch chi i'r dosbarth wythnos nesaf?

Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl yn y trydydd person. Dylid manteisio ar y cyfle i ymarfer ffurfiau lluosog hefyd yn ystod y cyfnod hwn.



## Cam 4 – Ansoddeiriau

### Disgrifio ceir

Ceir pedair brawddeg i ddisgrifio ceir yn y llyfr. Mae'r patrwm sylfaenol hwn yn bwysig iawn. Gellid nodi rhai brawddegau tebyg cyn cychwyn, e.e. Mae'r tywydd yn braf heddiw. Mae'r coffi yn dda. Mae'r gwaith cartre'n bwysig. Mae'r llyfr yn ddiddorol.

Ceisiwch gasglu digon o luniau o geir o bapurau newydd neu geir bach ar gyfer pob aelod o'r dosbarth. Dangoswch luniau o ddau gar gwahanol ar y sgrîn o bosib, neu defnyddiwch y cardiau fflach yma o becyn CBAC. Driliwch y brawddegau yn y llyfr, gan bwyntio ar y car perthnasol.



Gofynnwch am awgrymiadau eraill, e.e. drud/rhad/glân/brwnt (budr)/newydd/hen/modern/ mawr /bach. Yna, pawb i grwydro gyda eu llun/car bach a disgrifio eu car. Dylid cadw'r un llun/gwrthrych am rai munudau, ac yna dechrau cyfnewid bob tro.

### Cymharu

Rhannwch y dosbarth yn barau i wneud y dasg sy yn y llyfr yn cymharu gwrthrychau.

### Disgrifio pobl

Rhannwch y dosbarth yn barau newydd i edrych ar y darlun o 5 dyn a dewis y brawddegau cywir iddyn nhw eu disgrifio. Bydd angen cael cyflenwad o luniau o enwogion (neu unrhyw ddynion) er mwyn i'r rhai sy'n gorffen y dasg yma'n gyflym gael cyfle i ymarfer mwy gan ddefnyddio'r 3ydd person. Pan mae pawb wedi gorffen, casglwch y lluniau a rhowch un i bawb, iddyn nhw grwydro yn disgrifio'r person yn y llun, yna cyfnewid llun.

Rhannwch y dosbarth yn barau newydd eto i weithio allan pwy yw pwy yn y grid i ddisgrifio'r merched. Dyma'r atebion:

Mae bag melyn gyda X/Mae gan X fag melyn	Katy
Mae siaced las gyda X/Mae gan X siaced las	Maya a Monika
Mae gwallt gwyn gyda X/Mae gan X wallt gwyn	Delyth
Mae gwallt hir gyda X/Mae gan X wallt hir (2)	Katy a Monika
Mae sbectol gyda X/Mae gan X sbectol	Delyth

Mae sgarff ddu gyda X/Mae gan X sgarff ddu	Samia
Mae bag glas golau gyda X/Mae gan X fag glas golau	Maya
Mae cardigan binc gyda X/Mae gan X gardigan binc	Delyth
Mae sandalau gyda X/Mae gan X sandalau	Katy
Mae bag coch gyda X/Mae gan X fag coch	Samia
Mae siaced lwyd gyda X/Mae gan X siaced lwyd	Samia
Mae cylchgrawn gyda X/Mae gan X gylchgrawn	Maya

Yna, yn yr un parau dylai'r dysgwyr edrych ar y llun o'r merched a cheisio eu disgrifio heb gyfeirio'n ôl at y disgrifiadau yn y grid.

Y cam olaf ydy bod pob pâr yn cael enw un o'r deg person ac yn disgrifio'r person mor fanwl â phosib i'w ddarllen i'r dosbarth. Rhaid i'r parau eraill ddweud pwy gafodd ei ddisgrifio.

Os oes gennych setiau o'r gêm 'Guess Who?'; gallant fod yn ddefnyddiol ac yn dipyn o hwyl i ymarfer disgrifio.

### **Pa mor...?**

#### Pa mor dal?

Driliwch y cwestiynau yn y bloc. Yna, cyflwynwch yr atebion. Darllenwch dros y bloc. Os ydych chi'n meddwl bod pawb yn hapus i drafod eu taldra, gellir gofyn i unigolion fynd o gwmpas yr ystafell yn gofyn "Pa mor dal wyt ti?".

Er mwyn ymarfer y trydydd person, gellir defnyddio gwybodaeth am daltra enwogion a rhannu'r dosbarth yn grwpiau o 3 i ddyfalu'r atebion. Marc i'r tîm agosâ, dau farc os yn gwbl gywir. Ceir enghreifftiau isod ond bydd angen eu diweddarau. Dewiswch bobol sy'n adnabyddus i'r dosbarth. (Gellir cael hyd i wybodaeth ar [celebheights.com](http://celebheights.com)).

- Gareth Bale - 6 troedfedd, un fodfedd
- Leigh Halfpenny – 5 troedfedd, 10 modfedd
- Catherine Zeta Jones -5 troedfedd 7 modfedd
- Kylie Minogue - 5 troedfedd
- Tom Jones – 5 troedfedd 10 modfedd
- Serena Williams – 5 troedfedd 9 modfedd
- Donald Trump –6 troedfedd 2 fodfedd
- Mo Farah – 5 troedfedd 8 modfedd
- Daniel Radcliffe – 5 troedfedd 4 modfedd
- Elton John – 5 troedfedd 7 modfedd
- Lenny Henry – 6 troedfedd 3 modfedd
- Paul McCartney – 5 troedfedd 10 modfedd

Pa mor dda?

Os yn bosib, defnyddiwch gardiau fflach i gynrychioli'r berfenwau yn y bloc. Darllenwch dros yr atebion posib yn y llyfr. Gofynnwch i aelodau'r dosbarth ofyn y cwestiynau i chi ac atebwch yn onest, ond gan ddefnyddio'r atebion sydd yn y llyfr. Gofynnwch i'r dysgwyr gwblhau'r grid gan ymarfer y pedwar ateb wrth ymateb os yn bosib.

Pa mor aml?

Cyflwynwch y cwestiynau a geir yn y llyfr gan ofyn i'r dysgwyr ofyn y cwestiynau i chi. Atebwch yn onest. Yna, darllenwch dros y bloc yn y llyfr. Rhannwch y dosbarth yn barau i ofyn y cwestiynau hyn i'w gilydd. Yna, rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri ar gyfer y gweithgaredd siarad.

Ymarfer

Yn olaf, rhannwch y dosbarth yn barau i wneud y gweithgaredd paru cwestiwn ac ateb. Os bydd paru wedi gorffen yn gyflym, gofynnwch iddyn nhw edrych ar yr atebion a cheisio cofio'r cwestiynau.

**Cymharu ansoddeiriau – y radd gyfartal**

Atgoffwch y dysgwyr o frawddegau trydydd person presennol yn y negyddol, e.e Dyw hi ddim yn dwym/Dydy hi ddim yn gynnes; Dyw/Dydy hi ddim yn oer; Dyw/Dydy hi ddim yn wlyb; Dyw/Dydy hi ddim yn wyntog. Yna, cyflwynwch y brawddegau yn y bloc. Gellir defnyddio cardiau fflach CBAC y Tywydd. Rhannwch y dosbarth yn barau i wneud yr ymarfer yn y llyfr. Ar ôl iddynt ei wneud fel ymarfer ysgrifenedig, gellir cael dril llafar i gloi.

**Cam 5 – Sgwrs**

Chwaraewch y ddeialog unwaith. Yna gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar y sgript yn ystod yr ail wrandawriad. Gofynnwch wedyn iddyn nhw ddarllen y ddeialog A/B,B/A. Yna, rhaid newid yr elfennau sydd wedi'u tanlinellu gan ddefnyddio'r tabl. Bydd angen eu cyfarwyddo i ddewis taith hir ar gyfer rhan Catrin a thaith fyrrach ar gyfer rhan Dai, fel bod y ddeialog yn gwneud synnwyr.

**Cam 6 - Darllen - Cymdogion**

Darllenwch y darn yn uchel i'r dysgwyr y tro cyntaf. Yna, rhannwch nhw'n barau i ddarllen y darn gyda'i gilydd a gwneud y dasg.

## Cam 7 - Sgwrsio - Cymdogion

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri ar gyfer y sgwrsio. Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl.

## Cam 8 – Robin Radio

Atgoffwch y dysgwyr o ymadroddion defnyddiol Uned 14:

Rwyt ti newydd symud tŷ. Yn syml iawn, gofynnwch i barau ddisodli'r geiriau a danlinellir

munud ola.

Gofynnwch beth mae'r dysgwyr yn ei adael tan y funud/ munud ola.

hen bryd

Gofynnwch i bob dysgwr greu brawddeg 'Mae'n hen bryd i fi/mi...'

Robin Radio 15

## Cam 9 – Geirfa Uned 16

## Cam 10 – Crynhoi

Cyfeiriwch at y gwaith cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a wnaed yn Uned 15. Dylid ychwanegu, os bydd bylchau.

### Ymarfer Ychwanegol

#### Ymarfer Geirfa - Lluniadur

Os ydych chi'n meddwl na fyddai'r dosbarth yn rhy sensitif, rhannwch y dosbarth yn dimau. Rhowch bapur sgrap a phin ffelt i bob grŵp. Gofynnwch i un person o bob tîm ddarlunio gair y byddwch wedi'i osod, o blith geirfa Sylfaen. Bydd rhywun o bob tîm yn tynnu llun ar yr un pryd. Y tîm cyntaf i ddyfalu'r gair sy'n sgorio pwynt. Gellir gwneud hyn nifer o weithiau. Dylai person gwahanol ddylunio bob tro.

## Uned 15, Atodiad 1

Sut: Pryd: Am faint o'r gloch:	yn y car bore dydd Llun am 9am	Sut: Pryd: Am faint o'r gloch:	ar y bus bore dydd Mawrth am 9.30am
Sut: Pryd: Am faint o'r gloch:	ar y trên bore dydd Mercher am 10am	Sut: Pryd: Am faint o'r gloch:	ar y beic bore dydd Iau am 10.30am
Sut: Pryd: Am faint o'r gloch:	cerdded amser cinio dydd Iau am 12pm	Sut: Pryd: Am faint o'r gloch:	yn y car amser cinio dydd Llun am 12.30pm
Sut: Pryd: Am faint o'r gloch:	ar y bus amser cinio dydd Iau am 1pm	Sut: Pryd: Am faint o'r gloch:	ar y trên nos Lun am 6pm
Sut: Pryd: Am faint o'r gloch:	ar y beic nos Fawrth am 6.30pm	Sut: Pryd: Am faint o'r gloch:	cerdded nos Fercher am 7pm
Sut: Pryd: Am faint o'r gloch:	yn y car nos Iau am 7.30pm	Sut: Pryd: Am faint o'r gloch:	ar y bus bore dydd Gwener am 8am
Sut: Pryd: Am faint o'r gloch:	ar y trên bore dydd Sadwrn am 9.30am	Sut: Pryd: Am faint o'r gloch:	ar y beic nos Lun a nos Iau am 7pm
Sut: Pryd: Am faint o'r gloch:	cerdded nos Lun a nos Iau am 6.30pm	Sut: Pryd: Am faint o'r gloch:	yn y car nos Fawrth a nos Iau am 6pm

## Uned 16

**Nod yr uned:** Cymharu ansoddeiriau (y radd gymharol)

**Patrymau newydd:** gradd gymharol ansoddeiriau rheolaidd (e.e. talach) a gradd gymharol ansoddeiriau afreolaidd cyffredin (mwy, llai, gwell, gwaeth).

### Cam 1 – Banc Cwestiynau

Pa mor aml dych/dach chi'n siopa mewn archfarchnad?  
Pa mor brysur o'ch/oeddech chi y penwythnos diwetha?  
Pa mor brysur fyddwch chi y penwythnos nesa?

### Cam 2 – Rhannu newyddion

Rhannwch y dosbarth yn barau neu'n grwpiau bach i gyfnewid newyddion am yr wythnos. Gan ddibynnu ar faint y dosbarth, gellir cynnal sesiwn adrodd yn ôl. Os bydd rhywbeth anghyffredin e.e. rhywun wedi bod ar wyliau diddorol, dylid cynnal sesiwn holi'r person.

### Cam 3 – Adolygu uned 15

Rhowch gerdyn neu ddau i bawb grwydro o gwmpas (Atodiad 1). Bydd angen i chi fodelu'n ofalus cyn rhoi'r gweithgaredd ar waith, e.e. Ydy Castell Caerdydd yn bert/ddel? Ydy, ond ddim mor bert/ddel â Chastell Caernarfon.

## Cam 4 – Cyflwyno'r Radd Gymharol.

### Ansoddeiriau Rheolaidd

Cychwynnwch drwy bwyntio at neu gerdded at aelod o'r dosbarth (sy ddim yn orsensitif) a dweud ffaith amlwg o'r rhain: Dw i'n dalach na chi/ Dw i'n ifancach/ fengach na chi/Dw i'n henach na ti. Yna, ysgrifennwch y tair brawddeg ar y bwrdd gwyn. Tanlinellwch yr ach a gofyn i'r dosbarth beth ydy'r gair yn Saesneg. Dylai fod yn amlwg mai *taller/younger/older* ydy'r ystyr. Driliwch y bloc, a gwahoddwch frawddegau gan y dosbarth yn cymharu ei gilydd yn defnyddio'r tri ansoddair tal, hen, ifanc.

Symudwch ymlaen at y tywydd. Defnyddiwch gardiau fflach CBAC i ddrilio'r brawddegau am y tywydd. Bydd angen tynnu sylw at y newid (caledu) o b i p yn wlypach. Rhowch gerdyn i bawb gyda'r arwydd tywydd am un o'r ansoddeiriau yma, neu defnyddiwch y llun perthnasol o gardiau fflach CBAC. Rhaid i bawb ddangos y llun i aelod arall o'r dosbarth. Bydd y person fydd yn gweld y gair/llun yn dweud e.e. "Roedd hi'n oer ddoe" a'r person sy'n dal y llun yn dweud "Mae hi'n oerach heddiw".

Symudwch at y bloc nesaf. Driliwch y ddau bâr cyntaf o frawddegau: Mae Llundain yn bell > Mae Paris yn bellach; Mae Aberystwyth yn agos > Mae Abertawe'n agosach. Yna, defnyddiwch fap o Gymru neu wneud map bras ar y bwrdd gwyn, gan osod lleoliad y dosbarth yn gyntaf, ac yna rhoi rhywle gweddol bell o fewn Cymru a dweud e.e. "Mae Caerfyrddin yn bell". Ychwanegwch lleoliad arall a dweud "Mae Aberystwyth yn bellach". Wedyn, rhowch leoliad sy'n eithaf agos, ac un sy'n agosach byth. Os oes gennych chi glôb, mae'n ddefnyddiol i sôn am wledydd. Yna, rhowch bâr o gardiau post i bob dysgwr/pâr ac arnynt enwau/ lluniau dinasoedd adnabyddus. Rhaid i'r dysgwyr greu brawddegau i ddweud wrth y dosbarth. Dylai pob dysgwr/pâr grwydro yn dweud eu brawddegau, ac yna cyfnewid cardiau. Gellid hefyd gael cwis - nodi lleoliadau a pharau i ddyfalu pa un sy bellaf trwy ddweud 'Mae X yn bellach nag Y'.

Casglwch y cardiau post a sôn am ddwy o'r dinasoedd ar y cardiau post gan honni bod un yn ddrud a'r llall yn ddrutach. Gofynnwch i'r dysgwyr ailadrodd nifer o weithiau. Yna i'r gwrthwyneb gan ddweud bod un yn rhad a'r llall yn rhatach. Unwaith eto, bydd angen tynnu sylw at y caledu yn drutach a rhatach. I sicrhau bod hyn yn berthnasol i bawb, gofynnwch i'r dysgwyr am enwau siopau yn yr ardal a rhestrwch nhw ar y bwrdd gwyn. Yna, rhannwch yn barau i gymharu nifer o'r siopau.

Yn olaf, rhannwch y dosbarth yn barau i wneud yr ymarfer yn y llyfr. Er mwyn eu paratoi, cychwynnwch drwy gael pawb mewn cylch. Gofynnwch iddyn nhw ddilyn eich wyneb ac ailadrodd y gair. Dywedwch "Hapus" a gwenwch. Dywedwch "Trist" ac edrychwch yn drist. Dywedwch "hapus" a gwenwch ychydig. Yna, "Hapusach" a gwenwch fel giât! Dywedwch "trist" ac edrychwch ychydig yn ddigalon. Yna, "Tristach" ac edrychwch yn drist iawn. Gwnewch hyn tua phedair gwaith. Rhowch y parau ar waith i wneud yr ymarfer yn y llyfr. Bydd angen tynnu sylw at y newid yn 'tenau > teneuach' a 'trwm > trymach' wrth fynd dros yr atebion.

Ansoddeiriau Afreolaidd

Mwy, Llai > Ewch â chasgliad o wrthrychau o feintiau gwahanol i'r dosbarth, e.e. dwy botel ddŵr, dau lyfr, dau fag, dau oren, dwy bêl, dau gerdyn pen-blwydd er mwyn drilio 'mwy' a 'llai'. Rhowch nhw mewn dwy res, A a B i greu brawddegau 'Mae A yn fwy na B/Mae B yn fwy nag A'. Wedyn, gwnewch yr un peth i ddysgu llai.

Gwell > Yna rhowch restr o fisgedi/teisennau/pwdinau ar y bwrdd gwyn. Rhowch eich barn. e.e. " Mae cacen siocled yn well na bara brith". Driliwch y frawddeg a gofynnwch i barau greu brawddegau tebyg.

Gwaeth > Ysgrifennwch GLAW/GWYNT/EIRA/NIWL/IÂ(RHEW) a rhoi eich barn am dywydd, e.e. "Mae gwynt yn waeth na glaw". Driliwch y frawddeg a gofynnwch i barau greu brawddegau tebyg.

Darllenwch dros y pedair brawddeg yn y llyfr. Gofynnwch i ddysgwyr ddisodli'r enghreifftiau yn y tair brawddeg gyntaf.

Rhannwch y dosbarth yn barau i gwblhau'r brawddegau yn y llyfr. Ewch dros yr atebion. Gadewch i'r dysgwyr ddarllen yr atebion y cyntaf, ond rhaid eu dweud heb ddibynnu ar y gair ysgrifenedig yr ail dro.

**Cam 5 – Gwranddo**

Ceir cerdd fach gan Emyr Davies. Chwaraewch y gerdd fwy nag unwaith er mwyn i'r dysgwyr lenwi'r bylchau. Wedi gwirio'r atebion, mae'n bosib bydd y dosbarth yn mwynhau ei chyd-ddarllen.

Yna, rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach ar gyfer siarad rhydd ar y testun siopa ar-lein. Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl.



## Cam 6 – Parhau i gyflwyno'r radd gymharol

Uwch, Is > Mae Uwch /Is yn hawdd eu cyflwyno drwy ddefnyddio stumiau llaw neu leoliad ffenestri. Driliwch y brawddegau yn y bloc hefyd. Yna, defnyddiwch becyn o gardiau gofyn i'r dosbarth ddyfalu ydy'r rhif nesaf yn mynd i fod yn uwch neu'n is trwy alw'r gair allan.

Ansoddeiriau hir – Eglurwch fod y Gymraeg a'r Saesneg yn debyg o ran ychwanegu terfyniad at ansoddeiriau byr, ond yn rhoi mwy/llai o flaen ansoddeiriau hir er mwyn creu'r radd gyfartal. Driliwch y pedair brawddeg yn y bloc, gan stopio ar ôl pob un i ddisodli'r elfennau gwahanol. Bydd angen tynnu sylw at y treigladd laes a na yn troi yn nag o flaen llafariad.

### Ymarfer

Newidiwch y parau i wneud y gweithgaredd yn creu brawddegau'n cymharu dau lun sydd yn y llyfr. Bydd y gweithgaredd hwn yn dod â holl elfennau'r wers ynghyd. Gofynnwch i'r parau greu cymaint o frawddegau â phosib am bob pâr a gofynnwch am ddedoliad wrth i'r dysgwyr adrodd yn ôl.

### Y Tywydd

Darllenwch dros y parau o frawddegau am y tywydd ac yna rhowch ddis i bob pâr. Rhaid taflu'r dis a chreu brawddegau ar yr un patrwm gan ddilyn y cod isod:

Rhif 1 – gwlyb

Rhif 2 – cymylog

Rhif 3 – stormus

Rhif 4 – gwyntog

Rhif 5 – sych (er mwyn gallu tynnu sylw at ynganiad yr 'y')

Rhif 6 - niwlog

Rhannwch y dosbarth yn barau i wneud y blwch 'Ymarfer'. Rhaid dewis pâr o'r ochr chwith ac ansoddair o'r ochr dde i'w cymharu. Unwaith eto, bydd holl elfennau'r wers yn dod ynghyd.

## Cam 7 – Sgwrs

Ceir cyfle yma, ar ôl gwrandao nifer o weithiau, i geisio ail- greu'r ddeialog gyda strivedi (Atodiad 2) cyn ei darllen. Nid yw'r ddeialog hon ar gardiau yn y Blwch Adnoddau.

## Cam 8 - Darllen a gwrando

Gallwch chwarae'r sain tra mae'r dosbarth yn darllen y darn ar yr un pryd ac yna gall y dosbarth wneud y tasgau mewn paru. Os ydy amser yn brin, gellir gosod y darn fel gwaith cartref darllen a deall, neu gellir chwarae'r darn, dechrau'r dasg a gofyn i'r dysgwyr ei gorffen gartref. Os felly, gellir gwneud y dasg siarad sy'n dilyn yn y wers nesaf ar ôl gwirio'r atebion.

## Cam 9 – Sgwrsio - Dw i ddim yn hoffi....

Ceir Sgwrs (Sgwrs 2) er mwyn darparu sgaffaldau a syniadau ar gyfer y dasg siarad. Dylid disodli'r elfennau a danlinellir. Ceir tabl yma i ysgogi'r siarad a chael pobl ar eu traed yn holi ei gilydd. Pwrpas y tabl yw ysgogi siarad. Gyda'r partner olaf, dylid trafod yr anifeiliaid.

## Cam 10 – Robin Radio

Atgoffwch y dysgwyr o ymadroddion defnyddiol Uned 15:

Pa fath o gymdogion sy gyda chi/sgynnoch chi? – Cynhaliwch ymarfer cyfieithu cyflym (Saesneg > Cymraeg) er mwyn disodli cymdogion gan ddefnyddio tŷ, ysgol, car, golygfa.

y dyn ei hun –gofynnwch i'r dosbarth am opsiynau eraill e.e. y rheolwr, y tiwtor, y plentyn

Mae'n anodd canolbwyntio – beth arall sy'n anodd ei wneud?

Robin Radio Uned 16.

## Cam 11 – Geirfa Uned 17

## Cam 12 – Crynhoi

Cyfeiriwch at y gwaith cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a wnaed yn Uned 16. Dylid ychwanegu, os bydd bylchau.

## Gweithgaredd Ychwanegol

Os ydych am gael seibiant, mae recordiad o Siân James yn canu 'Mil harddach wyt' ar y Safle Rhyngweithiol. Bydd modd tynnu sylw at y ffurf 'harddach'.

### Uned 16, Atodiad 1

Castell Caerdydd - pert/del	hufen iâ - oer
Alaska - oer	Eastenders - cyffrous
Birmingham - mawr	mis Hydref - gwlyb
mis Tachwedd - wlyb	bara - rhad
prosecco - drud	rygbi - cyffrous
mis Ionawr - diflas	mis Mai - twym/cynnes
Yr Wyddfa - uchel	teithio ar y bus - drud
Paris - pell	bwyd Indian - blasus

## Uned 16, Atodiad 2 (ferswin y de)

**A:** Croeso i'r cyfweliad.

**B:** Diolch.

**A:** Felly, y cwestiwn cynta: Pam dych chi eisiau swydd newydd?

**B:** A bod yn onest, roedd y bôs diwetha'n ofnadwy.

**A:** O? Pam felly?

**B:** Roedd hi'n rhoi llawer o bwysau ar y staff. Dw i eisiau swydd gyda llai o straen.

**A:** Dw i'n gweld. Felly pam dych chi wedi gwneud cais am y swydd yma?

**B:** Mae'r ganolfan yma'n fwy cyfleus na'r swyddfa lle dw i'n gweithio nawr. Dw i'n gallu cael bws yma.

**A:** Unrhyw beth arall?

**B:** Dw i angen mwy o wyliau. Ac mae tiwtor Cymraeg yn cael llawer iawn o wyliau.

**A:** Wel, mae gwyliau'r haf yn hir...

**B:** A dw i angen mwy o arian i fynd ar wyliau, wrth gwrs. Dw i'n dlawd nawr. Dw i angen bod yn fwy cyfoethog i gael gwyliau gwell.

**A:** Mae gwyliau yn bwysig, ond mae'r tymor yn bwysicach. Reit, cwestiwn dau. Barod?

**B:** Barod.

**A:** Dych chi'n berson amyneddgar?

**B:** Does neb mwy amyneddgar na fi.

**A:** Iawn. Un cwestiwn arall. Dych chi'n hapus i weithio gyda'r nos?

**B:** Gyda'r nos? Dych chi'n fwy creulon na'r bôs diwetha! Nesa, byddwch chi'n gofyn i if weithio ar ddydd Sadwrn! Dw i eisiau llai o waith, dim mwy o waith. Dydd da i chi!

## Uned 16, Atodiad 2 (ferswin y gogledd)

**A:** Croeso i'r cyfweiliad.

**B:** Diolch.

**A:** Felly, y cwestiwn cynta: Pam dach chi isio swydd newydd?

**B:** A bod yn onest, roedd y bôs diwetha'n ofnadwy.

**A:** O? Pam felly?

**B:** Roedd hi'n rhoi llawer o bwysau ar y staff. Dw i isio swydd efo llai o straen.

**A:** Dw i'n gweld. Felly pam dach chi wedi gwneud cais am y swydd yma?

**B:** Mae'r ganolfan yma'n fwy cyfleus na'r swyddfa lle dw i'n gweithio rŵan. Dw i'n medru cael bws i fama.

**A:** Unrhyw beth arall?

**B:** Dw i angen mwy o wyliau. Ac mae tiwtor Cymraeg yn cael llawer iawn o wyliau.

**A:** Wel, mae gwyliau'r haf yn hir...

**B:** A dw i angen mwy o bres i fynd ar wyliau, wrth gwrs. Dw i'n dlawd rŵan. Dw i angen bod yn fwy cyfoethog i gael gwyliau gwell.

**A:** Mae gwyliau yn bwysig, ond mae'r tymor yn bwysicach. Reit, cwestiwn dau. Barod?

**B:** Barod.

**A:** Dach chi'n berson amyneddgar?

**B:** Does 'na neb mwy amyneddgar na fi.

**A:** Iawn. Un cwestiwn arall. Dach chi'n hapus i weithio gyda'r nos?

**B:** Gyda'r nos? Dach chi'n fwy creulon na'r bôs diwetha! Mi fyddwch chi'n gofyn i mi weithio ar ddydd Sadwrn nesa! Dw i isio llai o waith, dim mwy o waith. Hwyl i chi!

## Uned 17

**Nod yr uned:** Cymharu ansoddeiriau (y radd eithaf).

**Patrymau newydd:** gradd eithaf ansoddeiriau rheolaidd (e.e. tala) a gradd eitha ansoddeiriau afreolaidd cyffredin (mwy, lleia, gorau, gwaetha).

### Cam 1 – Banc Cwestiynau

Ydy hi'n oerach na ddoe?

### Cam 2 – Rhannu newyddion

Rhannwch y dosbarth yn barau neu'n grwpiau bach i gyfnewid newyddion am yr wythnos. Gan ddibynnu ar faint y dosbarth, gellir cynnal sesiwn adrodd yn ôl. Os bydd rhywbeth anghyffredin e.e. rhywun wedi bod ar wyliau diddorol, dylid cynnal sesiwn holi'r person.

### Cam 3 – Adolygu Uned 16

Ceir gêm drac yn y llyfr i adolygu. Y tro cyntaf mae'r dysgwyr yn mynd o gwmpas, rhaid rhoi'r ffurf gymharol yn unig (e.e. talach). Yr ail dro, rhaid rhoi'r ffurf gymharol mewn brawddeg.

Rhowch becyn o gardiau i bob pâr. Rhaid dyfalu a fydd yn cerdyn nesaf yn y pecyn yn uwch neu'n is.

### Cam 4 - Cyflwyno'r radd eithaf

#### Ansoddeiriau Rheolaidd

Dewiswch 3 pherson o'r dosbarth. Gwnewch yn siŵr mai dyn yw'r talaf. Gofynnwch iddyn nhw sefyll o flaen y dosbarth a dweud: 'Mae A yn dal, mae B yn dalach ond C yw/ydy'r tala'. Driliwch y frawddeg 'X yw/ydy'r tala'. Gofynnwch i bob dyn godi. Rhaid creu brawddeg 'X yw/ydy'r tala'. Bydd y person yna'n eistedd er mwyn cael brawddeg newydd. Dylid ailadrodd hyn nes bod un dyn yn unig yn sefyll.

Yna, ysgrifennwch enw 3 dyn enwog dros 60 oed e.e. "Mae Max Boyce yn hen, mae Tom Jones yn henach/hŷn, ond Anthony Hopkins yw/ydy'r hena/hyna. Driliwch frawddeg y radd eithaf.

Dilynwch yr un patrwm gyda ifanc a cryf. Gellir defnyddio brawddegau fel: "Mae Geraint Thomas yn ifanc, mae Gareth Bale yn ifancach, ond Ethan Ampadou yw/ydy'r ifanca/fenga." "Mae Gareth Bale yn gryf, mae Wayne Hennessy yn gryfach ond George North yw/ydy'r cryfa."

Darllenwch dros y bloc yn y llyfr.

Yna, defnyddiwch luniau o ferched enwog i'w cymharu, e.e. Shirley Bassey yw/ydy'r hena/hyna; Charlotte Church yw/ydy'r ifanca/fenga. Os bydd y dosbarth yn hapus, ailadroddwch y gweithgaredd uchod o gael y merched i gyd ar eu traed er mwyn ymarfer 'X yw/ydy'r dala'. Tynnwch sylw at y treigladd. Yna, gofynnwch i'r dosbarth am awgrymiadau o ferched enwog. Rhestrwch nhw ar y bwrdd gwyn a gofynnwch iddyn nhw drafod pwy yw/ydy'r galla. Eto, tynnwch sylw at y treigladd.

Darllenwch dros y bloc yn y llyfr.

Rhannwch y dosbarth yn barau i holi cwestiynau i'w gilydd am y ddau grid, e.e. Pwy yw/ydy'r hena/hyna? Pwy yw/ydy'r tala/dala?

#### Ansoddeiriau Afreolaidd

Driliwch y bloc ansoddeiriau afreolaidd yn ofalus. Os yn bosib, defnyddiwch luniau o ddynion enwog i'r dosbarth greu brawddegau yn defnyddio'r ansoddeiriau afreolaidd. Ailadroddwch y gweithgaredd gyda lluniau o ferched. Os bydd rhywun yn sylwi bod ll ddim yn treiglo gyda'r merched, nodwch nad yw'n treiglo ar ôl y fannod/y. (Nid yw ll na rh yn treiglo ar ôl 'yn, y, mor, cyn, un, rhy.)

Y cam olaf yw cyflwyno'r grid a rhannwch y dosbarth yn barau i drafod.

Y cam nesaf yw cyflwyno'r cysyniad o ddefnyddio 'mwy/llleia' gydag ansoddeiriau hir. Driliwch y bloc 'dinasoedd', gan ofyn i bobl ddisodli enwau'r dinasoedd i greu brawddegau newydd gan ddefnyddio'r ansoddeiriau 'swnllyd'.

Yn y bloc nesaf, ceir bwytaï a siopau. Eto, gofynnwch i bobl ddisodli'r Sosban a Siop y Gornel am fwytaï a siopau go iawn er mwyn mynegi barn.

#### Gofyn cwestiynau

Cyflwyno cwestiynau yw pwrpas y bloc nesaf. Driliwch y cwestiynau. Gofynnwch i aelodau'r dosbarth eich holi chi i chi allu modelu'r atebion. Cynhaliwch sesiwn dosbarth gyda'r dysgwyr i gyd yn holi'r cwestiynau (corws) i aelodau'r dosbarth.

Holiadur – Ceir holiadur yn y llyfr. Gofynnwch i'r dosbarth holi'r cwestiynau i chi gyntaf a modelwch yr atebion. Wedyn, pawb ar eu traed yn holi ei gilydd – rhaid holi o leiaf pum person. Rhaid osgoi sefyllfa lle bydd dysgwyr yn dechrau eu brawddegau gyda 'Dw i'n meddwl...'. Felly, gofynnwch iddyn nhw ymarfer yr ymadrodd, 'yn fy marn i'.

Atebion

Atgoffwch y dysgwyr mai 'le/la' a 'Nage/Naci' yw'r atebion pan fo pwyslais. Gofynnwch i bawb gynnig atebion gwahanol i'r lle perta/dela a'r traeth gorau.

Ymarfer

Ceir cyfres o weithgareddau i ymarfer yr holl elfennau.

Cymharu Gareth, Ann a Geraint, e.e. Mae Ann yn dal, mae Gareth yn dalach ond Geraint yw/ydy'r tala.

Cymharu dinasoedd – Darllenwch dros y brawddegau fel dosbarth ac yna rhannwch y dosbarth yn barau i gymharu'r dinasoedd newydd a nodir.

Gid cymharu – Dilynwch y canllawiau yn y llyfr. Ceir y pethau i'w cymharu yn y grid a'r ansoddeiriau o dano fe.

Ucha/Isa

Ceir dau ansoddair ychwanegol i'w cyflwyno. Gellid eu dysgu fel geiriau unigol. Yna, rhannwch y dosbarth yn barau i gymharu'r mynyddoedd. Gellid ymarfer dweud uchder y mynyddoedd hefyd er mwyn ymarfer rhifau.

**Cam 5 – Darllen a Siarad**

Rhannwch y dosbarth yn barau i sganio'r hysbysebion ac ateb y cwestiynau. Dylent wedyn benderfynu i ba gwrs basen nhw'n hoffi mynd ac i ba un fasen nhw ddim yn hoffi mynd. Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl er mwyn ymarfer y trydydd person.

**Cam 6 – Sgwrs 1**

Wrth wrando y tro cyntaf, dylai'r dysgwyr wrando am enghreifftiau o'r radd eithaf – twyma/poetha, mwya blasus (x2), rhata, gorau. Rhannwch y dosbarth yn barau i ddarllen y ddeialog cyn troi at y gweithgaredd o ddewis bwyd a diod sy'n dilyn.



## Cam 7 – Sgwrs 2

Y tro hwn, rhaid i'r dysgwyr lenwi'r bylchau wrth wrando. Dylid chwarae'r sgwrs o leiaf ddwywaith.

## Cam 8 – Sgwrsio – Hoff leoedd a hoff bethau

Grwpiau o dri i fynd trwy'r ddau ymarfer. Dylid cynnal sesiwn adrodd yn ôl.

## Cam 9 – Robin Radio

Atgoffwch y dysgwyr o ymadroddion defnyddiol Uned 17:

y bwletin tywydd

Gofynnwch i'r dysgwyr sut bydd y tywydd dros y dyddiau nesaf.

Ma's â fe/Allan â fo

Mae'n dda 'da fi/gen i ddweud.

Gofynnwch i bawb gyfieithu '*I'm pleased to hear*', wedyn '*I'm pleased to hear the news*', wedyn '*I'm pleased to hear the news about your sister*'.

Robin Radio Uned 17.

## Cam 10 – Geirfa Uned 18

## Cam 11 – Crynhoi

Cyfeiriwch at y gwaith cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a wnaed yn Uned 17. Dylid ychwanegu, os bydd bylchau.

## Uned 18

**Nod yr uned:** Cyfnewid gwybodaeth

Does dim cynnwys newydd, ond ceir cyfle i adolygu'r gwahanol ffyrdd o ofyn cwestiwn.

### Cam 1 – Banc Cwestiynau:

Pwy yw/ydy'r canwr gorau ar hyn o bryd?

Pwy yw/ydy'r actor gorau ar y teledu?

Beth oedd y rhaglen deledu orau pan o'ch/oeddech chi'n ifanc?

### Cam 2 – Adolygu uned 17

Rhowch gerdyn i bawb (Atodiad 1). Rhaid iddyn nhw grwydro'r dosbarth a chymharu eu dau leoliad o safbwynt y tywydd gan greu brawddegau yn y radd gymharol a'r radd eithaf, e.e. Mae Kathmandu'n oerach na Llundain. Llundain yw'r lle twyma/ydy'r lle cynhesa. Os ydyn nhw'n gyfarwydd â'r llefydd, gellid eu hannog i ddefnyddio agos/pell hefyd.

### Cam 3 - Cyflwyno'r blociau cwestiwn

Cwestiynau yw/ydy

Pwy yw/ydy...? Os yn bosib, rhowch lun o berson enwog i bawb. Crwydro yn gofyn "Pwy yw'r/ydy'r person enwog?" (Gellir rhoi'r enw ar y cefn!)

Beth yw/Be ydy...? Rhowch rifau ar sgrin os yn bosib, e.e. rhif ar ddrws ffrynt, a rhannwch y dosbarth yn barau i holi ei gilydd 'Beth yw/Be ydy'r rhif?' Os nad yw hyn yn bosib, gellir gofyn i bawb ysgrifennu rhif ar bapur. Crwydro yn gofyn 'Beth /Be ydy'r rhif?' Cyfnewid bob tro fel bod digon o ymarfer gyda rhifau gwahanol.

Faint yw/ydy...? Rhowch docyn theatr/trên/bws i bawb. Pawb i grwydro'n gofyn "Faint yw/ydy'r tocyn?" Dylai'r dysgwyr gadw'n un tocyn am ychydig ac yna cyfnewid bob tro.

Faint o'r gloch yw/ydy...? Ceisiwch gael cloc a gofyn i'r dosbarth ofyn i chi: "Faint o'r gloch yw/ydy hi?" Byddai'n wych petai modd rhoi cloc i grwpiau bach i ymarfer ar eu pennau eu hunain.

Y rheol yn yr enghreifftiau uchod i gyd yw bod enw pendant (y fannod o flaen yr enw) bob tro.

Pa mor bell...? Driliwch y bloc. Yna, defnyddiwch Google neu Bing maps i ddarganfod pa mor bell yw lleoliadau gwahanol o'r ystafell ddosbarth. Paratowch restr a rhannwch y dosbarth yn grwpiau i gynnal cwis - yr agosaf ati sy'n cael y pwynt!

### Cwestiynau sy

Sy cyn arddodiad – Edrychwch ar yr enghreifftiau yn y llun. Os yn bosib, ymarferwch drwy ddefnyddio lluniau eraill, gan gael parau i holi ei gilydd.

Sy cyn berfenw - Pwy sy'n gweithio mewn ysbyty? Driliwch y cwestiwn ac yna dwedwch y geiriau mecanic, athro, a ffermwr er mwyn i'r dysgwyr greu cwestiynau tebyg i'r dril cychwynnol.

Beth/Be sy'n digwydd yfory? Rhannwch y dosbarth yn barau ar gyfer gêm stamina. Mae Partner A yn gofyn y cwestiwn drosodd a throsodd nes bod Partner B yn methu meddwl am ateb lle mae'n disodli'r gair cyfarfod. Yna, rhaid cyfnewid rôl.

Faint sy'n chwarae mewn tîm pêl-rwyd? Dwedwch y rhifau 11, 15 a 5 er mwyn i'r dysgwyr ofyn cwestiynau i'r dril cychwynnol (Faint sy'n chwarae mewn tîm pêl-droed (neu hoci)/rygbi/pêl-fasged?)

### Cwestiynau mae

Driliwch y bloc ac yna galwch atebion i fynnu'r cwestiwn cywir, e.e. am saith o'r gloch, bore dydd Llun, yn yr ysgol, yn y coleg.

Ceir tair hysbyseb ar gyfer digwyddiadau. Yn syml iawn, rhaid i barau holi ei gilydd er mwyn cael yr wybodaeth sydd yn yr hysbysebion.

### Ymarfer

Mae gwaith pâr Parti Pen-blwydd Ffion yn adolygu cwestiynau'n defnyddio yw/ydy (Beth yw/Beth ydy oed... a Beth yw/Be ydy hoff fwyd...) a mae (Ble/Lle mae ... yn byw?).

Beth/Be sy ymlaen dros y penwythnos ? Gwnewch yr ymarfer Gwranddo yn gyntaf. Yna, yn ddelfrydol, rhannwch y dosbarth yn grwpiau o bedwar. Rhaid i bawb gael cerdyn (Atodiad 2) ac ateb cwestiynau gweddill y grŵp. Mae'n bosib bydd angen i chi fodelu gyda un cerdyn i ddangos sut i greu'r cwestiynau: Pryd mae'r XX? / Ble mae e/hi? Lle mae o/hi? / Am faint o'r gloch mae e/o/hi? / Faint yw e/hi? Faint ydy o/hi? Ar ôl i grŵp orffen y dasg, gallant symud ymlaen i drafod y digwyddiadau.

Canolfan Hamdden Abercastell – Y tro hwn, rhannwch y dosbarth yn barau i ysgrifennu'r cwestiynau mae angen eu gofyn i gael yr atebion i'r blychau yn yr hysbyseb.

Cwestiynau personol

Cwestiynau personol – darllenwch gwestiynau ac atebion Ffion fel gwaith ynganu. Yna gofynnwch i bartneriaid ofyn cwestiynau i'w gilydd (gallant ddweud manylion gwir neu ffug).

Ewch ymlaen i'r gwranddo a gofyn i'r dysgwyr lenwi'r grid. Dylid ei chwarae o leiaf ddwywaith.

Er gwybodaeth dyma sgript y sain. Gallwch ei llungopïo a gofyn i'r dosbarth grwydro wedyn gyda'r manylion ffug os dymunwch.

Fersiwn y de:

Beth yw'ch enw llawn chi?	Aled Wyn Hughes.
Beth yw'ch rhif ffôn chi?	078 126 71625
Beth yw'ch cyfeiriad chi?	73 Coed y Bryn, Aberystwyth
Beth yw'ch cyfeiriad ebost chi?	aled.wyn123@coedybryn.com
Beth yw'ch dyddiad geni chi?	Ebrill un deg tri, 1965.
Beth yw'ch enw llawn chi?	Llinos Siân Roberts
Beth yw'ch rhif ffôn chi?	01353 758940
Beth yw'ch cyfeiriad chi?	Cwrt y Cae, Rhydaman
Beth yw'ch cyfeiriad ebost chi?	Llinos.sian@rhydaman.cymru
Beth yw'ch dyddiad geni chi?	Tachwedd un deg saith, 1980
Beth yw'ch enw llawn chi?	Tomos Tomos
Beth yw'ch rhif ffôn chi?	07718 462375
Beth yw'ch cyfeiriad chi?	16 Llys y Castell, Llanelli
Beth yw'ch cyfeiriad ebost chi?	Tomos2@tom.com
Beth yw'ch dyddiad geni chi?	Ionawr dau ddeg naw, 1952.
Beth yw'ch enw llawn chi?	Eleri Haf Owen.
Beth yw'ch rhif ffôn chi?	07953825401
Beth yw'ch cyfeiriad chi?	42 Ffordd yr Eglwys, Llandaf, Caerdydd
Beth yw'ch cyfeiriad ebost chi?	Haf@cymraeg.cymru
Beth yw'ch dyddiad geni chi?	Mehefin 21, 1997.

Fersiwn y gogledd:

Be ydy'ch enw llawn chi?	Aled Wyn Hughes.
Be ydy'ch rhif ffôn chi?	078 126 71625
Be ydy'ch cyfeiriad chi?	73 Coed y Bryn, Aberystwyth
Be ydy'ch cyfeiriad ebost chi?	aled.wyn123@coedybryn.com
Be ydy'ch dyddiad geni chi?	Ebrill un deg tri, 1965.
Be ydy'ch enw llawn chi?	Llinos Siân Roberts
Be ydy'ch rhif ffôn chi?	01353 758940
Be ydy'ch cyfeiriad chi?	Cwrt y Cae, Rhydaman
Be ydy'ch cyfeiriad ebost chi?	Llinos.sian@rhydaman.cymru
Be ydy'ch dyddiad geni chi?	Tachwedd un deg saith, 1980
Be ydy'ch enw llawn chi?	Tomos Tomos
Be ydy'ch rhif ffôn chi?	07718 462375
Be ydy'ch cyfeiriad chi?	16 Llys y Castell, Llanelli
Be ydy'ch cyfeiriad ebost chi?	Tomos2@tom.com
Be ydy'ch dyddiad geni chi?	Ionawr dau ddeg naw, 1952.
Be ydy'ch enw llawn chi?	Eleri Haf Owen.
Be ydy'ch rhif ffôn chi?	07953825401
Be ydy'ch cyfeiriad chi?	42 Ffordd yr Eglwys, Llandaf, Caerdydd
Be ydy'ch cyfeiriad ebost chi?	Haf@cymraeg.cymru
Be ydy'ch dyddiad geni chi?	Mehefin 21, 1997.

Y cam olaf yw gofyn i bartneriaid newydd ofyn y cwestiynau i'w gilydd heb edrych arnyn nhw (gallant ddweud manylion gwir neu ffug).

## Cam 4 – Sgwrs

Ar ôl y gwrandawriad cyntaf, ysgrifennwch y cwestiynau canlynol ar y bwrdd gwyn:

O ble mae Anti Miriam yn dod? /O le mae Anti Miriam yn dŵad?

Pryd mae hi'n dod?/Pryd mae hi'n dŵad

Sut mae hi'n dod?/Sut mae hi'n dŵad?

Pam mae hi'n dod?/Pam mae hi'n dŵad?

Gyda phwy mae hi'n dod?/Efo pwy mae hi'n dŵad?

Ble bydd hi'n aros?/Lle fydd hi'n aros?

Gofynnwch i barau nodi'r atebion ar bapur sgrap a chwaraewch y ddeialog ddwy neu dair gwaith eto. Gwiriwch yr atebion ac yna gofynnwch i'r parau ddarllen y ddeialog ddwywaith.

Gellir ailgreu'r ddeialog drwy newid Miriam i Morus.

## Cam 5 - Sgwrsio – Dathlu

Storom Eirfa 'dathlu'. Gobeithir bydd y llun yn sbarduno geirfa. Grwpiau o dri i fynd trwy'r cwestiynau'n siarad a dylid cynnal sesiwn adrodd yn ôl.

## Cam 6 – Gwranddo

Mae hon yn dasg debyg i un o'r tasgau yn arholiad Sylfaen. Chwaraewch y darn nifer o weithiau.

## Cam 7 – Robin Radio

Atgoffwch y dysgwyr o ymadroddion defnyddiol Uned 17:

Galwch fi'n Barbara

Fel tipyn o hwyl, gofynnwch i'r dysgwyr ddewis enw newydd (un Cymraeg os yn bosib) a cherdded o gwmpas yn dweud Galwch fi'n XX.

Dyma'r lle mwya rhamantus yng Nghymru

Disodlwch 'Dyma'r' ar gyfer 'XX yw/ydy'r...' gan ofyn i bawb enwi'r lle mwya rhamantus i Gymru yn eu barn nhw.

y mynydd gyda'r grug

Robin Radio Uned 18.

## Cam 8 – Geirfa Uned 19

## Cam 9 – Crynhoi

Cyfeiriwch at y gwaith cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a wnaed yn Uned 18. Dylid ychwanegu, os bydd bylchau.

## Uned 18, Atodiad 1

Kathmandu 3° oer	Llundain 20° braf	Moscow - 5° rhewi	Barcelona 26° twym/poeth
Blaenau Ffestiniog 5° gwlyb	Porthcawl 4° diflas	Helsinki -1° bwrw eira	Glasgow 10° stormus
Llanberis 9° niwlog	Aberystwyth 15° heulog	Paris 18° cymylog	Dubai 30° sych
Dinbych-y-Pysgod 19° braf	Sydney 25° cymylog	Efrog Newydd 6° cymylog	Tokyo 10° sych

## Uned 18, Atodiad 2

<p>Comedi " Tu ôl i chi!" Theatr Bryncastell Nos Sadwrn, 24 Tachwedd Dechrau am 7.30 Tocynnau: £7</p>	<p>Gêm Bêl-droed Merched Canolfan Hamdden Abercastell Prynhawn Sadwrn, 24 Tachwedd Am 3 o'r gloch Tocynnau: gan aelodau'r tîm ac yn y ganolfan hamdden. £5 y pen.</p>
<p>Bore Coffi Neuadd Capel y Groes, Bryncastell Bore Sadwrn, 26 Tachwedd 10am – 1pm Mynediad: £1</p>	<p>Noson Tapas Neuadd Ysgol Abercastell Nos Wener, 25 Tachwedd Dechrau am 6.30pm Tocynnau: £8 yn cynnwys bwyd ac un ddioid.</p>

<p>Comedi " Tu ôl i chi!" Theatr Bryncastell Nos Sadwrn, 24 Tachwedd Dechrau am 7.30 Tocynnau: £7</p>	<p>Gêm Bêl-droed Merched Canolfan Hamdden Abercastell Prynhawn Sadwrn, 24 Tachwedd Am 3 o'r gloch Tocynnau: gan aelodau'r tîm ac yn y ganolfan hamdden. £5 y pen.</p>
<p>Bore Coffi Neuadd Capel y Groes, Bryncastell Bore Sadwrn, 26 Tachwedd 10am – 1pm Mynediad: £1</p>	<p>Noson Tapas Neuadd Ysgol Abercastell Nos Wener, 25 Tachwedd Dechrau am 6.30pm Tocynnau: £8 yn cynnwys bwyd ac un ddioid.</p>



## Uned 19

**Nod yr uned:** Cyfarwyddo a chyfeirio

**Cynnwys yr uned:** Ceir cyfle yma i adolygu ffurfiau gorchmynnol ond canolbwyntir hefyd ar ffurfiau anos megis Mwynhewch/Dere (Tyrd) â/Cer (Dos) â

### Cam 1 – Banc Cwestiynau:

Beth/Be ddathloch chi ddiwetha?  
Beth/Be fyddwch chi'n ei ddathlu nesa?  
Beth yw/Be ydy'ch cyfeiriad ebost chi?  
Pa mor bell dych/dach chi'n byw o'r dosbarth?

### Cam 2 - Adolygu uned 18:

Ysgrifennwch y 6 gair isod ar y bwrdd gwyn. Rhowch ddis i bob grŵp o dri. Rhaid i bob aelod o'r grŵp daflu dis a gofyn cwestiwn i'r person ar y chwith sy'n cychwyn gyda'r gair sy'n cyfateb i'r rhif ar y dis. Rhaid cael cwestiwn newydd bob tro.

- |             |          |                       |
|-------------|----------|-----------------------|
| 1. Beth/Be? | 2. Pwy?  | 3. Ble/Lle?           |
| 4. Sut?     | 5. Pryd? | 6. Gyda phwy/Efo pwy? |

### Cam 3 – Gorchmynion

#### Ffurfiol/lluosog

Mae'r patrwm yma wedi ei ddysgu yn y llyfr Mynediad, felly cyfle i adolygu ac ymestyn sydd yma.

Atgoffwch y dysgwyr o'r patrwm drwy ddweud "Codwch" a gofyn iddyn nhw wneud. Yna, "Eisteddwch". Gofynnwch iddyn nhw a ydyn nhw'n cofio mwy (yn defnyddio "–wch"). Rhowch eu hawgrymiadau mewn pedair colofn fel yn y gwrslyfr (ychwanegu terfyniad at y berfenw/ gollwng y llafariad olaf/ychwanegu at y bôn/afreolaidd). Os gallwch chi, ysgrifennwch "wch" mewn lliw gwahanol. Gofynnwch am unrhyw rai eraill sydd yn y tabl yn y llyfr ond y dysgwyr heb eu cynnig. Ychwanegwch nhw at eich tabl chi. Os yn bosib, cadwch y rhestr hon ar y bwrdd gwyn.

Rhowch bawb mewn cylch ac yna cyfeiriwch y dosbarth i wneud symudiadau fel hyn: (Efallai bydd rhaid eu hatgoffa o 'de' a 'chwith'.)

Trowch i'r dde.

Codwch eich braich dde.

Rhowch eich braich dde i lawr.

Cerddwch!

Trowch i'r chwith.

Codwch eich coes chwith.

Rhowch eich coes chwith i lawr.

Stopiwch!

Eisteddwch!

### Yn y dre

Edrychwch ar gynllun y dref yn y llyfr. Ewch dros y lleoliadau. Rhannwch y dosbarth yn barau i ateb y cwestiwn 'Ble dych chi?'/ 'Lle dach chi?' Y ganolfan hamdden yw'r ateb. Rhannwch y dosbarth yn barau i greu un set o gyfarwyddiadau tebyg. Gwiriwch eu bod yn gywir ac yna gofynnwch i un o bob pâr ddarllen y cyfarwyddiadau a phawb arall yn y dosbarth i weithio allan ble maen nhw.

### Mwynhewch, Gadewch, Gwrandewch

Driliwch "Mwynhewch y penwythnos" a gofynnwch i barau ddisodli'r gair penwythnos (e.e. y gwyliau, eich bwyd, y ffilm, y parti).

Yna, dywedwch "Codwch. Gadewch eich ffeiliau. Dewch yma. Ewch yn ôl. Eisteddwch." Gofynnwch a ddeallwyd beth oedd yr ail orchymyn, sef 'Gadewch'. Driliwch y brawddegau yn y llyfr ac unwaith eto, gofynnwch i barau ddisodli.

Yn olaf, driliwch y brawddegau gyda "Gwrandewch".

### Ymarfer – Cawl Tomato Cogydd Diog

Gofynnwch i barau lenwi'r bylchau. Os bydd pâr yn gorffen, dylent geisio cofio cymaint â phosib o'r gorchmynion. Gellir gofyn i'r dosbarth cyfan wneud hyn ar ôl adrodd yn ôl hefyd.

### Unigol/Anffurfiol

Ewch yn ôl at eich rhestri o ddechrau'r uned (os yw'n dal i fod ar y bwrdd gwyn) a gofynnwch sut rydyn ni'n gofyn i ffrind wneud rhywbeth.

Ychwanegwch "a" o dan/ger pob "wch". Ychwanegwch Mwynhewch / Mwynha; Gadewch / Gadawa; Gwrandewch / Gwrandawa.

Rhannwch y dosbarth yn barau i wneud y tasgau nesaf. Gwiriwch y bylchau cyn yr ail gam o ailysgrifennu'r nodyn.

Dyw "Cer/Dere" ddim yn newydd. Cychwynnwch drwy gyfarwyddo gwahanol aelodau o'r dosbarth i fynd i wahanol rannau o'r ystafell: "Ceri, cer i'r gornel yna" "Twm, cer at y drws...." ac ati. Yna, gofynnwch i bob un ddod yn ôl fesul un ("Twm, dere'n ôl" ac ati) Wedyn driliwch y ddau flwch cyntaf yn gyflym. Yna, trowch at y trydydd bloc. Ewch â llyfr i'r dosbarth a driliwch 'Cer/Dos â'r llyfr at aelod o'r dosbarth'. Gofynnwch i aelod o'r dosbarth eich gorchymyn chi i fynd â'r llyfr at rywun i gychwyn, ac yna gorchymyn ei gilydd nes bod pawb wedi cael tro. Darllenwch dros y bloc dril. Ar gyfer y dril olaf, rhowch wrthrych neu lun gwahanol i bob aelod o'r dosbarth. Driliwch y frawddeg sylfaenol 'Dere/Tyrd â'r llyfr yma!' Yna, gofynnwch am bob un gwrthrych yn ôl. Rhowch gyfle i aelodau eraill o'r dosbarth wneud hyn. Darllenwch dros y bloc dril.

## Cam 4 - Gwrando

Chwaraewch y dasg wrando sawl gwaith i'r dysgwyr gwblhau'r negeseuon.

## Cam 5 - Gorchmynion

Ceir un agwedd ar orchmynion ar ôl, sef treiglo enw amhendant yn dilyn gorchmyn (am ei bod yn ffurf gryno). Unwaith eto, defnyddiwch wrthrychau sy'n treiglo i gyflwyno'r dril gan ddsbarthu un gwrthrych i bawb. Rhaid iddynt grwydro gyda'u gwrthrych, gan ddweud Pryna XX! Dylent gadw'r un gwrthrych am ychydig, ac yna cyfnewid bob tro.

## Cam 6 - Sgwrs

Yn gyntaf, chwaraewch y ddeialog a gofyn beth ydy'r sefyllfa. Cyn yr ail wrandawriad, gofynnwch iddyn nhw gyfrif faint o bobl sy yn y cyfarfod. Yna, gofynnwch iddyn nhw feddwl pa broblemau mae Twm yn eu cael yn y cyfarfod. Ar ôl y trydydd neu'r pedwerydd gwrandawriad, gadewch iddyn nhw edrych ar y sgrïpt tra byddwch yn chwarae'r darn eto, ac yna gofynnwch oes unrhyw beth sy ddim yn glir. Yn olaf, gallant ddarllen A/B, B/A heb newid dim.

## Cam 7 - Darllen

Partneriaid newydd i wneud y dasg ddarllen a sgwrsio.

## Cam 8 - Cyfleoliadau

Mae'n bwysig dangos cyfleoliadau (cyfuniadau o eiriau). Ceir cyfle i'r dysgwyr greu cyfleoliadau gyda 'bwyd' a 'bwyta'. Rhaid iddynt benderfynu ydy'r geiriau o gwmpas y cylch yn mynd cyn neu ar ôl 'bwyd' a 'bwyta'. Yn achos 'bwyta' bydd yn rhaid atgoffa'r dysgwyr efallai y bydd angen treiglo. Fel cam olaf, rhaid dewis chwech o'r cyfleoliadau ac ysgrifennu chwe brawddeg.

## Cam 9 - Sgwrsio – Bwyd

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau newydd o dri i wneud y gwaith sgwrsio arferol. Tasg olaf yr uned ydy holiadur lle mae angen siarad â phawb ac wedyn gweld a oes un tŷ bwyta lleol yn dod i'r brig.

## Cam 10 – Gwranddo

Gellir chwarae'r eitem hyd at dair gwaith.

## Cam 11 – Robin Radio

Atgoffwch y dysgwyr o ymadroddion defnyddiol Uned 18:

y dyddiau hyn

Gofynnwch i barau feddwl am un frawddeg yn gorffen â'r ymadrodd 'y dyddiau hyn'.

Cymharwch y brawddegau.

y cwestiwn ola

Sicrhewch fod pawb yn deall y gwahaniaeth rhwng ola a diwetha.

Wyt ti'n gallu dyfalu?

Gofynnwch i bawb 'Dych chi'n gallu dyfalu beth yw/ydy maint fy nhraed i?' Mae pawb yn dyfalu ac yna'n mynd o gwmpas yn holi ei gilydd. Byddant yn datgelu'r gwir ar ddiwedd y gweithgaredd.

**Robin Radio Uned 19.**

## Cam 12 – Geirfa Uned 20

## Cam 13 – Crynhoi

Cyfeiriwch at y gwaith cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a wnaed yn Uned 19. Dylid ychwanegu, os bydd bylchau.

## Uned 20

**Nod yr uned:** Mynegi bwriad

**Patrymau newydd:** ffurfiau'r dyfodol cryno (person cyntaf unigol, ail berson unigol a lluosog yn unig)

### Cam 1 – Banc Cwestiynau:

Soniwch am eich gwaith chi yr wythnos yma.

### Cam 2 - Adolygu Uned 19

Rhowch gopi o'r cardiau yn Atodiad 1 i bob pâr. Rhaid rhoi'r cardiau i gyd ben i waered a chreu parau sy'n gwneud synnwyr drwy droi dau gerdyn ar y tro. Rhaid troi'r ail gerdyn yn orchymyn (chi). Os bydd parau'n gorffen yn gyflym, gofynnwch iddyn nhw wneud pob gorchymyn yn ffurfiol ac yn anffurfiol.

### Cam 3 - Ymarfer atebion

Does dim gwaith newydd yn yr uned hon ond mae'n gyfle i adolygu atebion. Atebion cadarnhaol a nodir yn yr uned ond bydd angen mynd dros yr atebion negyddol hefyd.

#### Atebion person cyntaf unigol

Ceir cyfres o gwestiynau ar y thema 'darllen'. Ewch dros y cwestiynau gan sicrhau bod pawb yn gallu ateb yn briodol. Stopiwch i gynnal dril bob hyn a hyn os bydd pobl yn ansicr. Yna, gofynnwch i bawb godi a gofyn y cwestiynau hyn i'w gilydd, gan ateb ac yna ymhelaethu. Gallech chi fodelu.

Wedyn, rhannwch y dosbarth yn barau i greu cwestiynau tebyg ar yr un o'r tair thema a restrir yn y llyfr – siopa, chwaraeon, gwyliau. Dylid wedyn annog cymaint o sgwrsio â phosib gan ddefnyddio'r cwestiynau bydd y dysgwyr wedi'u paratoi.

#### Atebion trydydd person unigol

Gofynnwch y cwestiynau gan ofyn i'r dosbarth ymateb heb eu llyfrau. Dylid cynnal dril ychwanegol yn ôl yr angen. Yna, rhannwch y dosbarth yn barau i ymarfer y cwestiynau canlynol:

Ydy X yn gallu mynd i'r cyfarfod heddiw?

Fydd X yn gallu mynd i'r cyfarfod yfory?

Rhaid canfod yr un person sy'n rhydd yn ystod un cyfnod i fynd i'r cyfarfod, sef Jac yfory.

Yna, ceir pâr o gwestiynau i ddangos y gwahaniaeth rhwng 'oes' ac 'ydy'. Rhannwch y dosbarth yn barau i wneud i greu parau o gwestiynau yn dilyn patrwm y cwestiynau enghreifftiol.

#### Atebion person cyntaf lluosog

Rhannwch y dosbarth yn ddau hanner – atebion cadarnhaol a negyddol. Gofynnwch y cwestiynau sy ar y thema 'teithio' fesul un gan ofyn i'r dysgwyr sefyll yn hanner cywir yr ystafell. Maen nhw wedyn yn ymarfer yr atebion fel corws. Gwnewch ddriliau ychwanegol yn ôl yr angen.

#### Atebion trydydd person lluosog

Cadwch y dysgwyr ar eu traed a dau hanner yr ystafell yn gadarnhaol ac yn negyddol unwaith eto. Rhoi eu barn ar blant mae'r dysgwyr y tro hwn. Eto, gwnewch ddriliau ychwanegol yn ôl yr angen.

Rhannwch y dosbarth yn barau. Rhaid iddyn nhw edrych ar y grid yn y llyfr a dyfalu beth oedd yr ateb mwyaf poblogaidd ar gyfer pob categori. Ar ôl gorffen eu hatebion, rhaid iddyn nhw ymarfer y cwestiwn 'Fasen nhw'n dweud XX?' a bydd rhaid i chi ateb. Bydd pwynt am bob ateb cywir. Dyma'r atebion:

lliw	glas
ffordd o deithio	car
rhywbeth yn yr ystafell ymolchi	bath
rhywbeth sy'n dod mewn carton	llaeth
ffrwyth ar goeden	afal
rhywbeth sy'n dod mewn pâr	esgidiau
rhywbeth yn y swyddfa bost	stamp

#### **Ymarfer**

Ceir dau ymarfer syml: Paru cwestiwn ac ateb a chreu cwestiynau.

## **Cam 4 – Ymatebion**

Canolbwyntir ar ddau ymateb yn unig – Ydy ac Oes.

Er mwyn ymarfer Ydy, gellid rhoi cerdyn tywydd i bob aelod o'r dosbarth. Maen nhw'n disgrifio'r tywydd ar y cerdyn ac rydych chi'n ymateb Ydy, wir. Gellid cael pawb ar eu traed yn drilio ei gilydd.

Driliwch yr ail floc ac yna cael pawb ar eu traed yn dweud brawddegau wrth ei gilydd – brawddegau tebyg i'r dril ond gan ddisodli 'bwyd'.

Ceir ymarfer yn y llyfr. Gellid gofyn i barau edrych ar y brawddegau gyntaf a llunio'r ymateb ond erbyn y diwedd dylid mynd dros y gwaith fel dril llafar.

## Cam 5 – Sgwrs

### Sgwrs 1

Gofynnwch i bawb roi cynnig ar roi'r atebion yn y ddeialog cyn gwrando. Chwaraewch y sgwrs eto a gofynnwch i ble mae e'n symud. Ar ôl y trydydd gwrandawriad, gofynnwch beth mae'n rhaid iddo brynu. Rhannwch y dosbarth yn barau i ddarllen yn dilyn y trydydd gwrandawriad.

### Sgwrs 2

Y tro hwn, dylai'r dysgwyr lenwi'r bylchau (cwestiynau ac atebion) wrth wrando'r tro cyntaf. Yna, rhannwch y dosbarth yn barau i ddarllen y ddeialog.

## Cam 6 – Darllen

Mae gweddill yr uned yn ymwneud â thema, sef y Tŷ, gan gychwyn gyda'r Hysbysebion i'w darllen a fydd yn ymarfer geirfa ddefnyddiol.

## Cam 7 – Sgwrsio - Y Tŷ

Ewch dros y cwmwl geiriau a rhannwch y dosbarth yn barau i wneud y dasg. Wedyn, rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i wneud y gwaith sgwrsio. Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl.

## Cam 8 – Robin Radio

Atgoffwch y dysgwyr o ymadroddion defnyddiol Uned 19:

cyngor doeth iawn

Gofynnwch i barau feddwl am un cyngor doeth i'r dosbarth. Wrth iddynt adrodd yn ôl, bydd pawb arall yn dweud 'Cyngor doeth iawn'.

Dim byd gwerthfawr

Gofynnwch i bawb gyfieithu – *nothing special, nothing important, nothing bad.*

dwyn o dai

Gofynnwch i barau feddwl am bum lleoliad arall mae'n bosib dwyn ohonyn nhw. Efallai bydd gwaith ar y lluosog yn codi yma.

Robin Radio Uned 20.



## Cam 9 – Geirfa Uned 21

## Cam 10 – Crynhoi

Cyfeiriwch at y gwaith cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a wnaed yn Uned 20. Dylid ychwanegu, os bydd bylchau.

## Uned 20, Atodiad 1

Dan ni'n hwyr. 'Dyn ni'n hwyr.	Brysio
Dw i bron yn barod.	Aros am funud
Rhaid i mi bostio'r llythyr. Rhaid i fi bostio'r llythyr.	Mynd i swyddfa'r post
Mae gen i ormod o waith tŷ. Mae gormod o waith tŷ gyda fi.	Helpu fi
Dw i ddim yn medru mynd allan o'r maes parcio. Dw i ddim yn gallu mynd ma's o'r maes parcio.	Symud y car
Mae'r ffôn yn brysur.	Dal y lein
Mae hi'n oer yma.	Gwisgo cardigan
Dydy Dr Davies ddim ar gael heddiw. Dyw Dr Davies ddim ar gael heddiw.	Ffonio'n ôl yfory
Does 'na ddim llawer o betrol yn y car. Does dim llawer o betrol yn y car.	Mynd i'r garej
Rwy't ti'n edrych yn gynnes. Rwy't ti'n edrych yn dwym.	Tynnu'r crys chwys

## Uned 21

**Nod yr uned:** Adolygu ac ymestyn.

### Cam 1 – Banc Cwestiynau:

Pa waith wnewch chi ar y tŷ/yn yr ardd nesa?  
Beth yw/Be ydy'r peth gorau am eich tŷ chi?  
Beth yw/Be ydy'r peth gwaetha am eich tŷ chi?

### Cam 2 - Adolygu Uned 20

Er mwyn adolygu'r atebion, gofynnwch nifer fawr o gwestiynau uniongyrchol - yn seiliedig ar eich gwybodaeth o'r dosbarth. Mae hwn yn gam y gellir ei wneud yn gyson yn y dosbarth. Wedyn, rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri gan roi dau ddis i bob grŵp. Mae dis un yn cynrychioli'r rhagenwau (gellir dewis unrhyw ragenw os teflir 6), a'r ail ddis yn cynrychioli amserau'r ferf (bydd angen mynd dros rhain).

1 - ti	1 - presennol
2 - e/o	2 - amherffaith (roedd)
3 - hi	3 - dyfodol
4 - chi	4 - amodol (bas..)
5 - nhw	5 - wedi
6 -	6 - gorffennol

Modelwch ychydig o weithiau, e.e.

1 + 4 - Faset ti'n hoffi mynd i'r sinema heno?

3 + 6 - Edrychodd hi ar y teledu neithiwr?/Wnaeth hi edrych ar y teledu neithiwr?

### Cam 3 - Gêm o gardiau

Byddwch wedi gosod y grid "Gêm o gardiau" fel gwaith cartref. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri a rhowch becyn o gardiau i bob grŵp. Wrth droi cerdyn, maen nhw'n ateb y cwestiwn sydd ar y grid ar gyfer y cerdyn hwnnw. Os yn bosib, gwahoddwch siaradwyr rhugl i'r wers i fynd trwy'r gêm gyda'r dysgwyr. Gall helpu hyder y dysgwyr i wneud y gweithgaredd unwaith cyn i'r siaradwyr Cymraeg gyrraedd.

### Cam 4 – Gwrando, Darllen ac Ynganu

Chwaraewch y cyhoeddiadau gan ofyn i'r dysgwyr wrando yn unig. Yr ail dro, dylent wrando a dilyn y sgript ar yr un pryd. Gellir wedyn eu rhannu'n barau i drafod ble gallen nhw glywed y cyhoeddiadau hyn. Dyma atebion posib:

- |                                  |                      |                |
|----------------------------------|----------------------|----------------|
| 1. Cyfarfod                      | 2. Bwletin newyddion | 3. Gorsaf drên |
| 4. Bwletin tywydd (radio/teledu) | 5. Theatr            | 6. Eisteddfod  |

Fel cam olaf, dylid rhoi cyfle i'r dysgwyr ddarllen y cyhoeddiadau'n uchel ar gyfer ymarfer ynganu.

Ni ddisgwylir i'r dysgwyr ddeall pob gair yn y cyhoeddiadau hyn. Y dasg yw eu bod yn gallu dyfalu'r cyd-destun ar gyfer y cyhoeddiadau.

## Cam 5 – Adolygu – Llenwi Bylchau

Rhannwch y dosbarth yn barau newydd i lenwi'r bylchau. Neu gellid rhoi cyfle iddynt weithio'n unigol ac yna trafod eu hatebion gyda phartner. Mae'r bylchau hyn yn debyg i'r bylchau a geir yn yr arholiad Sylfaen.

## Cam 6 – Y thema – Gwyliau

Cerdd – Ceir cerdd gan Emyr Davies. Darllenwch chi'r gerdd ac yna rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri i ateb y cwestiynau ar y gerdd a siarad am golli pethau ar wyliau.

Gwyllo 1 – Dangoswch y fideo a gofynnwch i'r dysgwyr wneud y gweithgaredd a'r gwaith llafar dilynol.

Sgwrs – Ar ôl chwarae'r ddeialog o leiaf ddwywaith, gofynnwch i bob pâr nodi o leiaf 2 o gwynion Carwyn Crac/Berwyn Blin. Gofynnwch i bawb adrodd yn ôl a nodi'r cwynion gwahanol ar y bwrdd gwyn. Rhannwch y dosbarth yn barau i ddarllen y ddeialog.

Darllen hysbysebion – Rhannwch y dosbarth yn barau newydd i wneud y gwaith darllen a'r gwaith llafar dilynol.

Gwyllo 2 – Mae'n debyg bydd angen chwarae'r fideo dair gwaith er mwyn i'r parau gwblhau'r gweithgaredd hwn. Dylid cael sesiwn adrodd yn ôl.

Geirfa – Yn hytrach na Storom Eirfa, rhannwch y dosbarth yn barau i ddweud beth sydd yn y cês.

Sgwrsio – Rhannwch y dosbarth yn grwpiau ar gyfer y Gwaith Sgwrsio arferol.

## Cam 7 – Robin Radio

Rhowch gardiau post ar fwrdd. Er mwyn ymarfer ymadroddion Uned 20, codwch gerdyn post a dywedwch "Roedd fy nhaith ddiweddara i ..... Ar ôl y daith, ro'n i wedi blino." Gofynnwch i bawb ddewis a chodi cerdyn post. Ewch at rywun a gofyn am weld eu cerdyn post. "Roedd dy daith ddiweddara i ..... Sut o't/oeddet ti'n teimlo ar ôl y daith?" Rhowch gyfle iddi/iddo ateb. Yna dywedwch wrth y dosbarth: "Roedd ei daith/thaith ddiweddara i .... ar ôl y daith roedd e/o/hi'n teimlo'n....." Gwnewch yr un peth gyda dyn os oeddech chi'n sôn am ddynes gyntaf, a fel arall.

Yna gofynnwch iddyn nhw ofyn i'w gilydd: "Beth/Be oedd dy daith ddiweddara? Sut o't/oeddet ti'n teimlo ar ôl dy daith?"

Gofynnwch i'r dosbarth ailadrodd y frawddeg arall "Does dim byd arall"/"Does 'na ddim byd arall". Ac yna, gofynnwch iddyn nhw ailadrodd "Does neb arall."/"Does 'na neb arall".

## Cam 8 – Geirfa Uned 22

## Cam 9 – Crynhoi

Cyfeiriwch at y gwaith cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a wnaed yn Uned 21. Dylid ychwanegu, os bydd bylchau.

## Gweithgaredd Ychwanegol

Ysgrifennwch y geiriau **Mynd/Bwyta/Yfed/Gweld** ar y bwrdd gwyn. Rhowch gerdyn post i bawb. Gofynnwch i bawb grwydro yn disgrifio eu gwyliau nesaf gan ddefnyddio'r pedwar berfenw ar y bwrdd gwyn. Dylid mynd dros y cwestiynau'n drylwyr yn gyntaf – Ble/Lle ei di/ewch chi? Beth/Be wnei di/wnewch chi fwyta? Beth/Be wnei di/wnewch chi yfed? Beth wnei di/wnewch chi weld? Gellid defnyddio 'ti' am rai munudau, ac yna newid i 'chi'. Dylid rhoi cyfle i bawb bersonoli ar y diwedd.

## Uned 22

**Nod yr uned:** Dysgu sut i gynghori

**Patrymau newydd:** Dylwn i, dylet ti, dylai fe/hi, dylen ni, dylech chi, dylen nhw/Mi ddylwn i, mi ddylet ti, mi ddylai fo/hi, mi ddylen ni, mi ddylen chi, mi ddylen nhw.

### Cam 1 – Banc Cwestiynau:

Dwedwch/Deudwch rywbeth am eich gwyliau gorau erioed.

Ble ro'ch chi'n mynd ar wyliau pan o'ch chi'n blentyn?/Lle oeddech chi'n mynd ar wyliau pan oeddech chi'n blentyn?

Ble byddwch/Lle fyddwch chi'n mynd ar wyliau nesa?

### Cam 2 - Adolygu uned 21

Rhannwch gardiau post i bawb. Ysgrifennwch y geiriau Mynd/Teithio/Bwyta/Yfed/Gweld. Ceir gweithgaredd ychwanegol i ymarfer y dyfodol yn Uned 21, felly y tro hwn dylid ymarfer y gorffennol cryno. Ewch dros y cwestiynau'n drylwyr, e.e. Ble/Lle est ti? Defnyddiwch gwestiynau 'ti' am rai munudau, gyda'r dysgwyr yn ateb yn yr unigol. Yna, defnyddiwch gwestiynau 'chi' gan annog y dysgwyr i ateb yn y lluosog gan ddefnyddio 'ni'. Dylid rhoi cyfle i bawb bersonoli ar ddiwedd y gweithgaredd.

### Cam 3 - Cyflwyno'r patrwm newydd – dylwn i/mi ddylwn i

Rhaid dangos bod y cysylltiad rhwng yr amodol "Baswn" a "Dylwn" yn amlwg. Felly, cychwynnwch drwy atgoffa'r dosbarth o'r amodol trwy ddisodli'r elfennau wedi eu tanlinellu yn y brawddegau yn y cwrs. Atgoffwch y dysgwyr unwaith eto o derfyniadau amodol bod ar ddechrau pob cam wrth gyflwyno gwaith newydd isod.

Y cam nesaf ydy drilio bloc 'Dylwn i...'/Mi ddylwn i...'. Defnyddiwch gardiau i ddrilio rhagor o frawddegau, gan gael pawb ar eu traed yn crwydro gyda'r cardiau. Rhowch y cyfle i bawb bersonoli. Driliwch y bloc cwestiynau a rhowch yr holiadur ar waith.

Driliwch y trydydd person trwy gyfeirio at y lluniau yn y cwrs – fe/fo, hi, y plant. Yna, darllenwch dros y bloc yn y cwrs.

Driliwch floc 'ni' a 'nhw'. Er mwyn ymarfer, dywedwch gyfres o frawddegau fel "Dylai'r/Mi ddylai'r plant wneud eu gwaith cartref", gyda'r dysgwyr yn dweud, "Dylen/Mi ddylen **nhw** wneud eu gwaith cartref".

Er mwyn cyflwyno chi, defnyddiwch y cardiau unwaith eto. Yna, rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri i greu cynghorion i'r dosbarth ar sut i wella eu Cymraeg gan ddefnyddio "Dylech chi...". Gofynnwch i bawb adrodd yn ôl ac yna edrychwch ar yr awgrymiadau yn y llyfr. Rhannwch y dosbarth yn barau newydd i wneud y gweithgaredd 'Cynghori' yn y llyfr. Ar ôl cael sesiwn adrodd yn ôl, ceir holiadur yn adeiladu ar y gwaith hwn lle mae'r dysgwyr yn gofyn am gyngor.

Prynu anrhegion – Yn olaf, dyma gyfle i ddefnyddio "Dylen ni/Mi ddylen ni" mewn sgwrs. Parau neu grwpiau o 3. Cymharwch yr anrhegion ar y diwedd.

Yna, er mwyn atgyfnerthu pob person, rhowch bawb mewn cylch a phasio cardiau o gwmpas. Byddwch chi'n galw rhagenw, e.e. 'ni' ac felly y frawddeg fydd "Dylen/Mi ddylen ni hwfro". Bydd angen newid y cardiau a'r rhagenwau'n gyson.

### Y Negyddol

Atgoffwch y dysgwyr o'r treigladd mewn brawddegau negyddol. Driliwch y brawddegau yn y llyfr, gan roi cyfle i bawb bersonoli. Gellir defnyddio brawddegau personol y dosbarth i ymarfer y trydydd person.

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio'n unigol am ddwy funud yn rhoi'r ymadroddion yn y blwch priodol yn y grid. Maen nhw wedyn yn cymharu eu rhestri gyda phartner ac yn adrodd yn ôl i'r dosbarth am y pethau maen nhw'n gytun amdany'n nhw, e.e.

Dylen/Mi ddylen ni fwydo'r adar yn y gaea.

Ddylen ni ddim ebostio ffrindiau yn lle ffonio.

### Cwestiynau ac atebion

Unwaith eto, atgoffwch y dysgwyr o'r angen am dreigladd meddal mewn cwestiwn uniongyrchol. Yn gyntaf, driliwch y cwestiynau yn y cwrs – cedwir at yr un cwestiwn ar gyfer pob person er mwyn cadw pethau'n syml. Y cam olaf ydy drilio'r atebion cadarnhaol a negyddol, gan ddefnyddio "Bawd i fyny/bawd i lawr" i gael yr ateb cywir. Dylid defnyddio'r grid i sicrhau digon o ymarfer. Bydd angen dis i bob pâr. Mae partner 1 yn taflu'r dis ac yn symud ymlaen gan ddibynnu beth ydy'r rhif. Hefyd, rhaid defnyddio'r rhagenw sy'n cyfateb i'r rhif ar y dis:

1 – fi

2 – ti

3 – hi

4 – ni

5 – chi

6 – nhw

Mae'r partner sy'n glanio ar y sgwâr yn gofyn y cwestiwn a'r partner arall yn ateb yn gadarnhaol neu'n negyddol. Neu gellid dweud wrth bawb am ateb yn gadarnhaol ar y dechrau, ac yna'n negyddol ar ôl rhai munudau. Ar ôl cyrraedd diwedd y grid, dylid mynd yn ôl a dechrau eto os bydd angen.

## Cam 4 - Gwranddo

Mae'r patrwm newydd yn codi'n naturiol yn y darn Gwranddo felly mae'n gyfle unwaith eto i atgyfnerthu.

## Cam 5 – Sgwrs

Llungopiwch gopi o Atodiad 1 ar gyfer pob dysgwr iddynt gwblhau'r sgript bylchog wrth wrando. Bydd angen ei chwarae droeon. Yn olaf rhannwch y dosbarth yn ddau hanner i ddarllen y sgript fel côr (bydd hyn yn gwirio'r atebion mewn ffordd hwyliog heb roi unigolion mewn sefyllfa chwithig).

## Cam 6 – Pynciau Sgwrsio

Ceir cyfle yma i ailgylchu'r pynciau sgwrsio yng nghyd-destun y patrwm targed. Dylid cynnal sesiwn adrodd yn ôl.

## Cam 7 - Sgwrsio – Dillad

Dechreuwch gyda'r storom eirfa a rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i drafod y pwnc.

## Cam 8 – Robin Radio

Atgoffwch y dysgwyr o ymadroddion defnyddiol Uned 21:

Dych/Dach chi'n ôl i aros?

Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am air i ddisodli "aros".

ambell waith/ar ôl yr holl deithio.

Gofynnwch i barau roi'r geiriau mewn dwy frawddeg.

Robin Radio Uned 22.



## Cam 9 – Geirfa Uned 23

Ceir llawer o eirfa yma.

## Cam 10 – Crynhoi

Cyfeiriwch at y gwaith cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a wnaed yn Uned 22. Dylid ychwanegu, os bydd bylchau. Fel rhan o'r crynhoi, dylid chwarae Gêm Stamina. Grwpiau o 3 neu 4 (neu ddsbarth cyfan mewn grŵp bach). Beth ddylen ni wneud dros yn penwythnos yw'r pwnc. Pawb i ddweud rhywbeth yn ei dro. Unrhyw un sy'n ailadrodd – allan. Pencampwr – y person sy'n llwyddo i ddweud y mwyaf o bethau, heb ailadrodd. Yna, os dymunwch a bod grwpiau yng ngham 1, gall y pencampwr gystadlu yn erbyn ei gilydd i ddweud be ddylen nhw **ddim** gwneud dros y penwythnos – o flaen y dosbarth.

## Uned 22, Atodiad 1 (fersiwn y de)

**Fe:** ..... i brynu rhain?

**Hi:** Na ddylet, wir! Mae digon o ..... gyda ti yn barod.

**Fe:** Beth am y ..... 'ma?

**Hi:** Faint o ..... gwyn plaen sy 'da ti yn barod? Ddylet ti ..... prynu un arall.

**Fe:** Basai hi'n neis cael un newydd....

**Hi:** ..... ni ddim gwario gormod o arian, cofia am y gwyliau yn y Seychelles!

**Fe:** Rwyd ti'n iawn, mae'n siŵr. Ond rhaid i mi gael ..... newydd. Beth am hwn?

**Hi:** Ych a fi! Dw i ddim yn hoffi'r lliw ..... o gwbl.

**Fe:** Pa liw ddylwn i gael 'te?

**Hi:** Oren!

**Fe:** Oren? Ond dw i ddim yn hoffi oren.

**Hi:** Bydd oren yn edrych yn dda.

**Fe:** Dylwn i gael ..... newydd, beth bynnag.

**Hi:** ....., wrth gwrs cariad. .... ti a dy ..... logi ..... o siop Trefor Davies.

**Fe:** Ond...

**Hi:** ..... am y gwyliau yn y Seychelles!

**Fe:** O'r gorau . Ond gaf i ofyn un cwestiwn?

**Hi:** Cei, wrth gwrs.

**Fe:** Faint fydd cost dy ..... di?

**Hi:** Hm...

## Uned 22, Atodiad 1 (fersiwn y gogledd)

**Fo:** \_\_\_\_\_ i brynu'r rhain?

**Hi:** Na ddylet, wir! Mae gen ti ddigon o \_\_\_\_\_ yn barod.

**Fo:** Be am y \_\_\_\_\_ 'ma?

**Hi:** Faint o \_\_\_\_\_ gwyn plaen sy gen ti yn barod? Ddylet ti \_\_\_\_\_ prynu un arall.

**Fo:** Mi fasai hi'n neis cael un newydd...

**Hi:** \_\_\_\_\_ ni ddim gwario gormod o bres, cofia am y gwyliau yn y Seychelles!

**Fo:** Rwy't ti'n iawn, mae'n siŵr. Ond rhaid i mi gael \_\_\_\_\_ newydd. Be am hwn?

**Hi:** Ych a fi! Dw i ddim yn hoffi'r lliw \_\_\_\_\_ o gwbl.

**Fo:** Pa liw ddylwn i gael, 'ta?

**Hi:** Oren!

**Fo:** Oren? Ond dw i ddim yn hoffi oren.

**Hi:** Mi fydd oren yn edrych yn dda.

**Fo:** Mi ddylwn i gael \_\_\_\_\_ newydd, beth bynnag.

**Hi:** \_\_\_\_\_, wrth gwrs cariad. Mi \_\_\_\_\_ ti a dy \_\_\_\_\_ logi \_\_\_\_\_ o siop Trefor Davies.

**Fo:** Ond...

**Hi:** \_\_\_\_\_ am y gwyliau yn y Seychelles!

**Fo:** O'r gorau. Ond ga i ofyn un cwestiwn?

**Hi:** Cei, wrth gwrs.

**Fo:** Faint fydd cost dy \_\_\_\_\_ \_\_\_\_\_ di?

**Hi:** Hm...

## Uned 23

**Nod yr uned:** Mynegi dymuniad a'r gallu i wneud rhywbeth.

**Patrymau newydd:** Hoffwn i/Mi hoffwn i, Gallwn i/Mi fedrwn i (pob person).

### Cam 1 – Banc Cwestiynau:

Beth/Be ddylech chi wneud dros y penwythnos?

Beth/Be ddylech chi wneud yr wythnos nesaf?

Disgrifiwch eich dillad heddiw.

### Cam 2 - Adolygu Uned 22

Rhowch set o'r cardiau yn Atodiad 1 i bob pâr. Byddan nhw hefyd angen set o gardiau ✓ X ? (o'r Blwch Adnoddau porffor) a dis. Rhaid troi un o'r cardiau o'r Atodiad a cherdyn ✓ X ? a thaflu'r dis. Bydd y rhifau ar y dis yn cyfateb i enwau/rhagenwau byddwch chi'n eu dewis, e.e.

Cerdyn golchi'r car + cerdyn ? + rhif 5 (yn cyfateb i 'chi') = Ddylech chi olchi'r car?

Mae hwn hefyd yn gyfle i holi'n gyffredinol am yr hyn y dylai'r dysgwyr ei wneud dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf, gan ddefnyddio atebion i adolygu'r trydydd person.

### Cam 3 – cyflwyno'r gwaith newydd.

Os yw'r dysgwyr wedi meistrolu ffurfiau Dylwn i, ni ddylai'r gwaith hwn fod yn anodd. Felly, cyfeiriwch at y ffurfiau hyn yn gyson wrth gyflwyno'r berfau newydd.

Hoffi - Driliwch y frawddeg gyntaf (Hoffwn i/Mi hoffwn i...) gan ofyn i bawb bersonoli'n syth. Defnyddiwch yr atebion i ymarfer personau eraill. Darllenwch dros y bloc. Driliwch y bloc cwestiynau. Rhowch gerdyn post i bawb. Gofynnwch i bawb ofyn y cwestiwn "Ble/Lle hoffet ti fynd ar wyliau?" er mwyn cael yr ateb "Hoffwn/Mi hoffwn i fynd..." Ar ôl ychydig o funudau, gofynnwch iddyn nhw newid y cwestiwn i "Lle hoffech chi fynd...?" i gael yr ateb "Hoffen/Mi hoffen ni fynd ...."

Gallu/Medru – Driliwch y frawddeg 'Gallwn/Mi fedrwn i redeg marathon'. Yna, rhowch y canlynol ar y bwrdd gwyn:

actio mewn drama gan Shakespeare	addurno ystafell yn y tŷ
blogio yn Gymraeg	coginio bwyd i ddeg o bobl
ysgrifennu hunangofiant	ysgrifennu nofel
neidio o awyren	trwsio injan car
cerdded deg milltir	gyrru ar y dde

Dylid gwahodd pawb i greu un frawddeg yn y person cyntaf ac yna defnyddio'r atebion i ymarfer y personau eraill. Driliwch y frawddeg negyddol i'r cwrs – Allwn/Fedrwn i ddim newid olwyn – ac ailadroddwch yr ymarfer uchod gyda brawddegau negyddol.

Yn olaf, cyflwynwch y cwestiynau. Driliwch y bloc yn gyntaf, ac yna'r bloc gyda'r atebion. Eto, dylid cyfeirio at yr hyn sydd ar y bwrdd gwyn i ymarfer y cwestiynau a'r atebion.

#### Ymarfer

Gofynnwch i'r dosbarth: "Allech/Fedrech chi redeg marathon?" Gofynnwch i'r bobol sy'n dweud "Gallwn/Medrwn" sefyll ar y dde i chi a'r rhai sy'n dweud " Na allwn/Na fedrwn" sefyll ar y chwith. Mae angen i'r rhai sy'n "gallu/medru" ddweud . "Gallen ni redeg marathon – allen nhw ddim rhedeg marathon." Ac i'r gwrthwyneb i'r grŵp arall. Yna, dilynwch yr un broses gyda " Allech chi newid olwyn?" ac "Allech chi newid plwg?"

Y cam nesaf ydy'r holiadur yn y cwrs. Rhaid holi o leiaf bump o bobl. Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl.

## Cam 4 – Gwrando

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer gwaith Gwrando. Dylid chwarae'r darn dair gwaith.

## Cam 5 – Darllen

Bydd y gwaith hwn yn gymorth i baratoi at yr arholiad. Gofynnwch i barau weithio ar hwn gyda'i gilydd. Gall parau sy'n gorffen yn gyflym ddarllen y negeseuon i'w gilydd i ymarfer ynganu.

## Cam 6 – Gofyn cwestiynau i ganfod gwybodaeth

Mae hwn eto yn ymdebygu at y gwaith arholiad. Rhowch hysbyseb debyg ar y bwrdd gwyn. Dylid cynnwys yr atebion ar ôl i chi gael y cwestiwn.

Dewch i'r gêm griced fawr nesa yn ..... (Abertawe)  
 Bydd/Mi fydd Morgannwg yn chwarae yn erbyn .....  
 (Surrey)  
 ar ddydd ..... Awst y cyntaf. (Sul)  
 Cofiwch ddod â phicnic!  
 Mae/Mae 'na ..... o leoedd ar y bws mini. (16)  
 Bws yn gadael Bryncastell am 8 y bore. Yn ôl tua ..... o'r  
 gloch y nos. (8)  
 Pris y bws yw/ydy £10. Bydd y bws yn gadael o'r .....  
 (Clwb Criced)  
 Pris tocynnau i'r gêm yw/ydy ..... , ar gael o'r clwb. (£20)

Rhowch ychydig o funudau i unigolion feddwl am y cwestiynau maen nhw am eu gofyn ac yna ewch drostyn nhw fel dosbarth cyfan. Rhannwch y dosbarth yn barau i roi cynnig ar yr hysbysebion yn y cwrs. Mae'n bwysig bod y dysgwyr ddim yn edrych ar y dudalen flaenorol/ddilydol i ganfod yr atebion. Mae'r dasg yn debyg iawn i gwestiwn yr arholiad ond mae'n dasg anodd i ddechrau felly mae'n debyg bydd angen llawer o gymorth yma. Bydd hi'n bwysig gwirio'r cwestiynau (a'r atebion) yn ofalus.

## Cam 7 – Llenwi Bylchau

Gadewch i unigolion roi cynnig ar y dasg ar eu pennau eu hunain ac yna trafod eu hatebion gyda phartner cyn mynd drostynt fel dosbarth.

## Cam 8 - Cân – Ynys Llanddwyn

Mae cyfeiriad wedi bod at Santes Dwynwen yn uned 14 (a bydd cyfeiriad eto yn yr uned nesaf). Mae pwrpas y dasg hon yn debyg i Robin Radio – meithrin y gallu i godi gwybodaeth mewn darn na fyddan nhw'n ei ddeall yn llwyr. Ni argymhellir dosbarthu'r geiriau ond fe'u ceir isod. Mae'r gân ar gael ar YouTube - <https://m.youtube.com/watch?v=mthEBMKkdIM>.

Ynys Llanddwyn – Mynediad am Ddim

Mi hoffwn fyw ar ynys Llanddwyn  
Mewn bwthyn gwyn uwchben y lli.  
Gwyllo adar y môr bob bore  
A dy gael di gyda mi.

Mae eglwys Dwynwen ar ynys Llanddwyn  
Ac ynddi fe weddiwn ni  
Gofyn iddi Santes Cariadon  
A ddoi di yno gyda mi?

Mae'r môr yn las rownd ynys Llanddwyn

Gorwedd ar y traeth a theimlo heulwen yr haf

Ac ynddo fe ymolchwn ni

Paid â phoeni am y glaw mae tonnau'r môr yn braf.

Lle mae adar yn pysgota  
O dwed y doi dy gyda mi

Gorwedd ar y traeth a theimlo heulwen yr haf,  
Paid â phoeni am y glaw, mae tonnau'r môr yn braf.

A phan ddaw'r nos dros ynys Llanddwyn  
Pan fydd yr haul a'r môr yn cwrdd  
Eisteddaf wrth y tân yn fy mwthyn  
Efallai nad af byth i ffwrdd.

## Cam 9 - Gwaith Siarad am ymarfer y Gymraeg

Cofiwch mai trefnu taith go iawn sydd y tu ôl i'r ymarfer yma. Gallwch wneud hyn ar ddiwedd y cwrs. Dylai taith dosbarth fod yn rhan o'r cwrs os ydy hynny'n ymarferol.

## Cam 10 - Ysgrifennu nodyn

Tasg fer i'w gwneud gyda phartner. Mae'n bwysig cymharu'r atebion.

## Cam 11 - Sgwrs

Chwaraewch y darn unwaith, a gofyn beth yw problem y fenyw/ddynes.

Cyn chwarae'r darn eto, gofynnwch i bawb wrando am yr wybodaeth ganlynol: ble mae ei mab hi, pam mae e/o yno a beth yw/ydy ei enw e/o?

Yna, gofynnwch i'r parau ddarllen y darn A/B,B/A cyn newid "mab" i "ffrind", a manylion y ffrind i fod yn rhywun enwog go iawn mewn rhywle arall yn gwneud rhywbeth arall.

## Cam 12 – Gwaith Siarad - Byw'n Iach

Rhannwch y dosbarth yn barau i wneud y storom eirfa ac yna rhannwch y dosbarth yn barau ar gyfer y gwaith sgwrsio. Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl. Ar ôl hyn, gall y dosbarth cyfan feddwl am y pum cyngor doeth.

## Cam 13 – Pynciau Sgwrsio

Ceir cyfle yma i ailgylchu'r pynciau sgwrsio yng nghyd-destun y patrwm targed. Dylid cynnal sesiwn adrodd yn ôl.

## Cam 14 – Robin Radio

Yr ymadroddion dan sylw tro yma ydy "fel mae'n digwydd", "i fod i" ac "yr unig un". Gwnewch ymarfer arddywediad. Ceir y paragraff isod. Bydd angen i chi allu ei roi ar y bwrdd gwyn/sleid PowerPoint/darn o bapur er mwyn i'r dysgwyr allu cymharu eu fersiwn nhw yn erbyn y gwreiddiol. Gellid gofyn i bawb nodi un peth oedd yn anghywir ganddynt a thrafod pam.

### Paragraff y de

Mae hi'n amser prysur iawn yn y gwaith, fel mae'n digwydd. 'Dyn ni i fod i symud i swyddfa newydd yr wythnos nesa. Fi yw'r unig un sy wedi dechrau pacio. Does neb eisiau mynd. 'Dyn ni i fod i ddefnyddio trê neu rannu ceir i gyrraedd y gwaith, achos mae llai o le parcio, ond fel mae'n digwydd dyw'r orsaf ddim mor gyfleus. Dylen ni fod yn fwy heini, achos mae mwy o waith mynd i fyny ac i lawr y grisiau, ac mae'n bellach o ganol y dre felly fydd neb yn gallu mynd allan i gael cinio. Y bos yw'r unig un sy'n hapus achos mae hi'n byw ar bwys y swyddfa newydd.



### Paragraff y gogledd

Mae hi'n amser prysur iawn yn y gwaith, fel mae'n digwydd. Dan ni i fod i symud i swyddfa newydd wythnos nesa. Fi ydy'r unig un sy wedi dechrau pacio. Does 'na neb isio mynd. Dan ni i fod i ddefnyddio trên neu rannu ceir i gyrraedd y gwaith, achos mae 'na lai o le parcio, ond fel mae'n digwydd dydy'r orsaf ddim mor gyfleus. Mi ddylen ni fod yn fwy heini, achos mae 'na fwy o waith mynd i fyny ac i lawr y grisiau, ac mae'n bellach o ganol y dre felly fydd 'na neb yn medru mynd allan i gael cinio. Y bos ydy'r unig un sy'n hapus achos mae hi'n byw wrth ymyl y swyddfa newydd.

Gofynnwch i bawb ar y diwedd beth ydy " as it happens", " supposed to" a " the only one" yn Gymraeg.

Robin Radio Uned 23.

## **Cam 15 – Geirfa Uned 24**

## **Cam 16 – Crynhoi**

Cyfeiriwch at y gwaith cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a wnaed yn Uned 23. Dylid ychwanegu, os bydd bylchau.

**Uned 23, Atodiad 1**

peintio'r fffenestri	hwfro'r tŷ	golchi'r car	codi arian o'r banc	golchi'r llestri
ffonio'r teulu	gwneud paned	torri'r lawnt	prynu crys newydd	mynd â'r ci am dro
gwneud y gwaith papur	mynd â'r car i'r garej	ebostio'r bôs		

## Uned 24

**Nod yr uned:** Dysgu'r trefnolion

**Patrymau newydd:** y cyntaf hyd at y degfed

### Cam 1 – Banc Cwestiynau

Beth hoffech/Be liciech chi wneud dros y penwythnos?  
Ble hoffech/Lle liciech chi fynd ar wyliau tasech chi'n ennill y loteri?

### Cam 2 - Adolygu uned 23

Grwpiau o 3. Rhowch bynciau i'r dosbarth er mwyn sbarduno tair brawddeg ar y patrwm isod:

Dŵr - "Dylwn/Mi ddylwn i gael cawod > Gallwn/Mi fedrwn i fynd i'r pwll nofio > Hoffwn/ Mi hoffwn i fynd i spa."

Teithio - "Dylwn/Mi ddylwn i brynu beic > Gallwn/Mi fedrwn i brynu beic modur > Hoffwn/ Mi hoffwn i brynu car."

Pynciau posib: ymarfer corff, y tŷ, technoleg, coginio, drama.

Rhaid iddyn nhw rannu'r frawddeg rhwng y 3 i'w darllen i'r dosbarth gyda theimlad. Gwobr i'r grŵp sy'n meddwl am y 3 gorau!

### Cam 3 - Geirfa.

Os oedd y dysgwyr wedi elwa ar yr ymarfer arddywediad yn yr uned ddiwethaf, darllenwch y brawddegau canlynol allan i'r dosbarth. Mae'r brawddegau'n cynnwys geirfa o'r uned. Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu'r brawddegau.

Mae'r disgyblion yn rhedeg yn y coridorau ar y ffordd i'r wers ffiseg.

Fy nghas beth i yw/ydy pysgota mewn cwch hwylio pan fydd storm ar y môr.

Yn yr haf mae plant yn mynd â'u bocsus bwyd i'r cae yn yr awr ginio ac yn cael picnic.

Yna, ysgrifennwch y brawddegau ar y bwrdd gwyn i bawb gael eu gwirio. Gofynnwch i bobl nodi'r eirfa newydd sy'n codi yn Uned 24.

## Cam 4 - Cyflwyno gwaith newydd

### Trefnolion gwrywaidd

Dangoswch luniau tai cardiau CBAC os dymunwch neu luniau o gylchgronau/ bapurau neu daflenni gwerthwyr tai. Gallwch gael grwpiau i roi pump tŷ mewn trefn o ran amser ei brynu os dymunwch.

Rhaid gwneud cryn dipyn o ddrilio yn yr uned yma. Ewch â chasgliad o wrthrychau i'r dosbarth er mwyn drilio trefnolion, e.e. pum llyfr gan gael pawb i ailadrodd o 'y llyfr cynta' hyd at 'y pumed llyfr'. Os oes digon o lyfrau i bawb, gellid rhoi un i bawb gyda post-it arno gyda rhif o 1-5. Yn syml iawn, mae'r dysgwyr yn crwydro gan ddweud, e.e. 'y pedwerydd llyfr'. Dylid cadw'r un llyfr am ychydig ac yna newid wrth siarad â phartner newydd bob tro. Er mwyn atgyfnerthu, darllenwch dros y blociau am 'y tŷ'. Gofynnwch i bawb nodi pryd prynon nhw eu tŷ cyntaf nhw. Wedyn, darllenwch y bloc am y 'car'.

Wedyn, cyflwynwch y trefnolion o'r 'chweched' hyd at y 'ddegfed'. Os oes 10 llyfr gyda chi, gellir gwneud hyn gyda rhagor o lyfrau. Atgyfnerthwch drwy ddarllen dros y bloc 'Pryd pasiaist ti dy brawf gyrru?' yn y llyfr. Rhowch gerdyn chwarae (1-10) i bawb yn y dosbarth. Rhaid i bawb sefyll mewn rhes gan ofyn y cwestiwn 'Pryd pasiaist ti dy brawf gyrru?' i un o'r bobl sy'n sefyll ar eu pwys yn y rhes. Rhaid i bawb ateb gyda'r rhif sy ar eu cerdyn (e.e. 3 – y trydydd tro) a bydd angen iddyn nhw drefnu eu hunain mewn trefn o'r cyntaf i'r degfed. Rhaid cofio dweud pa ben sy'n cynrychioli'r cyntaf a pha ben sy'n cynrychioli'r degfed. Os oes mwy na deg yn y dosbarth, defnyddiwch yr un rhif fwy nag unwaith. Gall pawb bersonoli ar y diwedd.

Rhannwch y dosbarth yn barau i ymarfer. Ceir cyfres o gwestiynau 'Sawl gwaith...?' Rhowch ddis i bob pâr. Mae Partner A yn holi'r cwestiwn ac Ateb B yn ateb yn unol â'r rhif ar y dis, e.e. Dyma'r tro cynta, Dyma'r pedwerydd tro. Dylid newid rôl ar ôl ychydig. Ymarfer mecanyddol yw hwn.

Aelodau'r teulu. Mae'r lluniau yma ar gael fel cardiau fflach CBAC hefyd felly gallwch ddefnyddio'r set wrth ddrilio'r drefn – dechreuwch gyda "unig blentyn", ond ar ôl y lluniau gallwch fynd fyny i "nawfed" am hwyl. Gofynnwch i bawb ddweud beth ydy/ oedd eu safle yn eu teulu, ac yna mewn paru gofynnwch iddyn nhw bwyntio at y plant yn y llun a dweud beth yw eu safle nhw, yn eu barn nhw. Efallai bydd angen egluro bod y gair plentyn yn wrywaidd, hyd yn oed os ydyn ni'n sôn am ferch.

Penblwyddi – Os y dymunwch, adroddwch y dyddiadau fel y maen nhw fel "rap" = mae hyn yn help i rai pobl gofio'r patrwm. Nid dysgu'r trefnolion i gyd yw'r bwriad yma. Gofynnwch i unrhyw sy'n cael pen-blwydd rhwng y cyntaf a'r degfed o'r mis ddweud dyddiad eu pen-blwydd. Rhowch yr atebion i bawb arall ysgrifennu'r dyddiad i lawr fel eu bod yn gallu ateb y cwestiwn "Pryd mae dy ben-blwydd di?" yn gywir. Ond, ni ddylid cyflwyno'r trefnolion i gyd. Bydd hyn yn codi yn Canolradd, er bod tabl cyflawn ar gael yn Help Llaw.

Mae'r ymarfer Calendr yn canolbwyntio ar 10 rhif cyntaf bob mis, ac yn gyfle o bosib i sôn am ambell bwynt diwylliannol os dymunwch. Gwaith pâr mecanyddol, felly os bydd un pâr yn gorffen yn gyflym gallant drafod i ba ddigwyddiad fasen nhw'n hoffi mynd, ac i ba un fasen nhw'n bendant ddim yn dewis mynd. Y cwestiwn maen nhw'n holi ei gilydd bob tro yw 'Beth sy'n digwydd ar XX?'

### Trefnolion benywaidd

Er mwyn dechrau gyda gwrthrych fel rhywbeth diriaethol, ewch â chasgliad o beli i'r dosbarth a driliwch o 'y bêl gynta' hyd at 'y bumed bêl'. Gellir ailadrodd y gweithgaredd o roi Post-It ar wrthrych benywaidd a'i gyfnewid fel y gwnaed gyda'r gwrthrychau gwrywaidd.

Mae'r llyfr yn dechrau gyda'r defnydd mwyaf cyffredin a chyfarwydd, sef "y flwyddyn gyntaf" ac ati, ar ôl darllen dros y bloc, chwaraewch sgwrs 1. Ar y gwrandawriad cyntaf, gofynnwch i'r dysgwyr wrando am 'the first year' a 'the fifth year'. Gofynnwch iddyn nhw am y cyfieithiad ar y diwedd. Chwaraewch y sgwrs eto a gofynnwch i'r dosbarth pwy sy'n siarad. Dylid dilyn gyda'r sgrïpt y trydydd tro, cyn iddyn nhw ddarllen y darn A/B, B/A.

Ewch yn ôl at yr adran yn y llyfr sy'n sôn am nofelau Cymraeg. Os oes gennych chi nofelau i ddysgwyr, gorau oll, i ddangos y patrwm yn ddiriaethol.

### Ymarfer

Ceir un ymarfer llenwi'r bylchau i barau. Mae hwn yn gyfle iddyn nhw bersonoli os yn bosib.

## Cam 5 - Gwrando

Chwaraewch **Sgwrs 2**.

Wrth i'r dysgwyr wrando am y tro cyntaf, gofynnwch iddynt ateb pwy sy'n siarad ac a ydy'r cwsmer yn hapus ar y diwedd. Yn ail dro, gofynnwch iddynt ar ba lawr mae'r tŷ bwyta, y bar ac ystafell y cwsmer. Yna, chwaraewch hi eto gyda'r dosbarth yn darllen y sgrïpt, cyn gofyn iddyn nhw ddarllen y ddeialog A/B, B/A.

## Cam 6 – Gwrando

Chwaraewch **Sgwrs 3**.

Gorffennwch gyda'r ddeialog ysgafn yma, unwaith eto'n gofyn iddyn nhw nodi pwy sy'n siarad ar y gwrandawriad cyntaf. Yn ail dro, gofynnwch iddyn nhw gyfieithu, 'the third time', 'the fifth lesson', 'the second lesson', 'the third lesson'. Yna, dylid chwarae'r darn tra maen nhw'n darllen, a rhoi cyfle iddyn nhw ddarllen y ddeialog A/B,B/A. Y cam olaf yw disodli'r elfennau a danlinellir i gyd-fynd â'r swydd pennaeth arall yn yr ysgol, e.e. pennaeth addysg gorfforol.

## Cam 7 - Sgwrsio – Dyddiau Ysgol

Edrychwch ar y cwmwl geiriau – darllenwch y geiriau i gyd. Gofynnwch i barau greu 6 brawddeg gan ddefnyddio geiriau o'r cwmwl. Cynorthwywch ar hyd y adeg a gwrandewch ar ddetholiad o'r brawddegau. Yna, rhannwch y dosbarth yn grwpiau i wneud y Gwaith Sgwrsio, gan gynnal sesiwn adrodd yn ôl.

## Cam 8 – Gwrando

Ceir yma gwestiwn o arholiad Gwrando Sylfaen. Dylid chwarae'r darn dair gwaith.

## Cam 9 – Robin Radio

Atgoffwch y dysgwyr o ymadroddion defnyddiol Uned 23:

Gofynnwch i'r dysgwyr gyfieithu *'I have a terrible thirst/I am very thirsty'*.

Gofynnwch iddyn nhw gyfieithu *'It's rather late'*.

Gofynnwch i barau orffen yr ymadrodd 'Mae bywyd yn rhy fyr i...' gan ofyn i bob pâr adrodd yn ôl.

Robin Radio Uned 24.

## Cam 10 – Geirfa Uned 25

## Cam 11 – Crynhoi

Cyfeiriwch at y gwaith cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a wnaed yn Uned 24. Dylid ychwanegu, os bydd bylchau.

## Uned 25

**Nod yr uned:** Adolygu ffurfiau'r gorffennol

### Cam 1 – Banc Cwestiynau

Dych/Dach chi wedi gwneud rhywbeth am y tro cynta yn ddiweddar?

### Cam 2 - Adolygu Uned 24

Ceir cyfres o ffeithiau i barau eu rhoi mewn brawddegau, gan ddilyn y patrwm 'Marie Curie oedd y fenyw gynta i ennill gwobr Nobel'.

### Cam 3 – Adolygu ffurfiau'r gorffennol

#### Gêm o Gardiau

Dechreuwch drwy rannu'r dosbarth yn grwpiau bach i chwarae'r Gêm o Gardiau. Dylid ailadrodd y cam hwn gyda siaradwyr Cymraeg rhugl os yn bosib yn hwyrach yn ystod yr uned.

#### Cyfuno'r gorffennol cryno a'r amherffaith

Gofynnwch i'r dysgwyr ddisodli'r elfen a danlinellir bob tro yn y bloc cyntaf.

Yn yr ail bloc, rhoddir sylw i'r idiom 'wrth fy modd'. Yna ceir grid "llongau rhyfel". Rhaid i bawb nodi 3-5 blwch, sef pethau roedden nhw'n mwynhau yn blant. Y cwestiwn i'w ymarfer ydy "O't/Oeddet ti wrth dy fodd yn...?" gyda'r ateb "O'n/ Nac o'n." Y partner cyntaf i ddyfalu pob blwch yw'r enillydd.

#### Ynganu

Gellir modelu'r paragraff wrth ei ddarllen yn uchel cyn rhannu'r dosbarth yn barau i'w ddarllen. Yr ail gam yw trosi'r paragraff i'r trydydd person, ac yna ceir cyfle byr ar gyfer siarad rhydd.

### Gwrando

Dilynwch y Canllawiau Cyffredinol ar gyfer darnau Gwrando. Sicrhewch fod pawb yn adrodd yn ôl mewn brawddegau llawn er mwyn ymarfer yr amser gorffennol.

### Siarad

Mae'r holiadur yn gyfle i'r dosbarth holi ei gilydd am eu hoffterau pan oedden nhw'n blant – Beth oedd eich hoff XX pan o'ch chi'n blentyn?'

## Cam 4 – Geirfa

Ceir tabl yn dangos enwau gwledydd, y bobl sy'n byw yna a'r ieithoedd. Darllenwch dros gynnwys y tabl a rhannwch y dosbarth yn barau i brofi ei gilydd ychydig. Yna, helpwch bawb i lenwi'r bylchau o dan y tabl sydd yn ymarfer yr eirfa hon.

## Cam 5 – Gwyllo

Dilynwch y Canllawiau Cyffredinol ar gyfer Gwyllo a gwnewch yr ymarfer penodol yn yr uned.

## Cam 6 - Sgwrs

Mae rhai o'r gwledydd a'r ieithoedd yn cael eu hailgylchu yma felly gofynnwch i'r dysgwyr nodi'r gwledydd sy'n cael eu henwi yn y ddeialog. Gwrandewch gyda'r sgrïpt cyn cael y dosbarth i ddarllen A/B, B/A. I gloi, mae gwaith siarad yn codi'n naturiol o'r Sgwrs.

## Cam 7 - Sgwrsio

Mae hwn yn gam pwysig iawn achos mae'n codi yn yr arholiad. Ceir dau gerdyn enghreifftiol yn y llyfr. Rhaid i Bartner A ddweud rhywbeth am bob pwnc (o leiaf 3 brawddeg) a gofyn dau gwestiwn i'r partner. Wedyn, rhaid cyfnewid rôl. Ceir pedwar cerdyn ychwanegol yn Atodiad 1. Dylid sicrhau bod y dysgwyr yn newid partneriaid er mwyn gweithio gyda'r cardiau hyn.



## Cam 8 – Gwrando

Ceir ymarfer Gwrando sy'n debyg i'r arholiad. Gadewch i'r dysgwyr wrando dair gwaith er mwyn gwneud y dasg.

## Cam 9 – Gêm o Gardiau

Dychwelwch at y gêm o gardiau er mwyn adolygu'r gorffennol, yng nghwmni siaradwyr rhugl os yn bosib.

## Cam 10 – Siarad

Unwaith eto, ceir hysbysebion a bylchau ynddynt i'r dysgwyr ymarfer gofyn cwestiynau i'w gilydd. Y cwestiynau i'w hymarfer yw:

Pwy sy'n mynd i'r ...?

Ble/Lle mae'r ...?

Am faint o'r gloch mae...?/Am faint o'r gloch mae'r ... yn gorffen?

Pryd mae'r cyfarfod cynta? (Clwb Darllen)

Beth/Faint yw'r gost?/Be/Faint ydy'r gost?

Pwy yw/ydy'r tiwtor? (Cwrs Yoga)

## Cam 11 – Siarad

Rhannwch y dosbarth yn barau newydd i ymarfer ffurfiau'r amherffraith. Dylid pwysleisio'r gwahaniaeth yma rhwng y gorffennol cryno a'r amherffraith o safbwynt cyfeirio at bethau oedd yn digwydd yn gyson yn y gorffennol.

## Cam 12 – Robin Radio

Atgoffwch y dysgwyr o ymadroddion defnyddiol Uned 24:

Llongyfarchiadau i bawb  
am gymryd rhan.

Pawb i ailadrodd y frawddeg  
ac yna meddwl am achlysuron  
sefyllfaoedd eraill lle basech  
chi'n defnyddio'r gair  
'Llongyfarchiadau'.

gan gynnwys

Ysgrifennwch y pedair brawddeg isod ar y bwrdd  
gwyn. Gofynnwch i bawb ddewis un, ei dysgu  
a cherdded o gwmpas yn ei dweud. Wrth gwrdd â  
rhywun sy wedi dewis yr un frawddeg, maen nhw'n  
mynd o gwmpas gyda'i gilydd.

Daeth/Mi ddaeth pawb i'r cyfarfod, gan gynnwys y  
rheolwr.

Aeth/Mi aeth y teulu i gyd ar wyliau yn y garafán,  
gan gynnwys y pedwar ci.

Bwytodd Tad-cu/Mi fwytodd Taid bob siocled  
yn y bocs, gan gynnwys y siocledi gwyn.

Robin Radio Uned 25.


## Cam 13 – Geirfa Uned 26


## Cam 14 – Crynhoi


Cyfeiriwch at y gwaith cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r hyn a wnaed yn Uned  
25. Dylid ychwanegu, os bydd bylchau.

## Uned 25, Atodiad 1









## Uned 26

**Nod yr uned:** Adolygu ffurfiau'r dyfodol.

### Cam 1 – Banc Cwestiynau

Beth o'ch/Be oeddech chi'n hoffi wneud pan o'ch/oeddech chi'n blentyn?  
Ble ro'ch/Lle oeddech chi am saith o'r gloch neithiwr?

### Cam 2 – Adolygu'r dyfodol

Dechreuir gydag ymarfer disodli er mwyn adolygu ffurfiau'r dyfodol. Dylai'r dysgwyr bersonoli wrth ddisodli os yn bosib a defnyddiwch eu hatebion i ymarfer y trydydd person. Mae'r ddeialog sy'n dilyn yn adolygu cwestiynau ac atebion syml. Dylai parau ymarfer darllen y ddeialog a'i throi i'r trydydd person unigol a lluosog.

#### Gwrando a Siarad

Bydd y siaradwyr yn defnyddio'r dyfodol wrth ateb y cwestiynau. Ar ôl cwblhau'r elfen Gwrando, rhaid i'r dysgwyr ddewis un o'r atebion a'i roi mewn cwestiwn 'Dych chi'n cytuno bydd .....?' Rhaid holi tri pherson yn y dosbarth. Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl.

### Cam 3 – Prawf Llafar Sylfaen

#### Pynciau Siarad

Ceir pob un o bynciau siarad arholiad Sylfaen yn y grid. Rhowch ddis i bob pâr i weithio eu ffordd o gwmpas y grid. Rhaid i'r person sy'n glanio ar y sgwâr ddweud rhywbeth am y pwnc (o leiaf tair brawddeg) a gofyn dau gwestiwn.

#### Holi Cwestiynau

Yn Atodiad 1, ceir Cerdyn 1 sy'n disgrifio digwyddiad ond mae bylchau yn yr wybodaeth. Ar gardiau 2A a 2B, ceir atebion gwahanol ar gyfer dau bartner.

## Cam 4 - Sgwrs

Gall y testun yma fod o bosib yn ddadleuol felly gwaith gwranddo ydy e, yn hytrach na sgwrs i'w darllen yn uchel. Chwaraewch y sgwrs ddwywaith ac yna gofynnwch i'r dysgwyr wneud rhestr gyda'u partner o beth fydd yn digwydd i Gwyn yn y flwyddyn nesa, yn ôl Sipsi Rosa – bydd hyn yn canolbwyntio'r sylw ar y dyfodol. Chwaraewch y darn unwaith eto, gan stopio'r darn ar ôl pob brawddeg yn y dyfodol er mwyn ymarfer ei dweud.

## Cam 5 - Gwranddo

Chwaraewch y negeseuon dair gwaith er mwyn i'r dysgwyr gwblhau'r dasg.

## Cam 6 - Ysgrifennu Nodyn

Ceir dau nodyn gyda bylchau i'w llenwi yma gan barau er mwyn ymarfer fformat nodyn unwaith eto. Dylid mynd dros yr atebion fel dosbarth cyfan.

## Cam 7 – Gêm o Gardiau

Gellid chwarae'r gêm mewn caffi neu dafarn er mwyn dathlu diwedd y cwrs.

## Cam 8 - Sgwrs diwedd y cwrs

Rhowch amser i barau nodi'r atebion cywir cyn chwarae'r darn iddyn nhw wirio eu hatebion. Y cam olaf ydy eich bod chi'n cymryd rhan y tiwtor a'r dosbarth yn cymryd rhan y dosbarth ar gyfer ymarfer darllen.



## Cam 9 – Robin Radio

Ymadroddion defnyddiol Uned 25 oedd does dim dwywaith, o'r diwedd, o hyn ymlaen. Rhwch y paragraff isod ar y bwrdd gwyn gan ofyn i barau lenwi'r bylchau gydag un o'r ymadroddion hyn.

Y De

Dych chi wedi gweithio'n galed iawn ar y Cwrs Sylfaen. .... , 'dyn ni wedi gorffen. .... , rhaid i chi geisio darllen Cymraeg bob cyfle, gwrando ar Radio Cymru ac edrych ar S4C . Ond y peth pwysica, ..... , yw siarad Cymraeg â phawb sy'n gallu siarad Cymraeg a dod yn ôl i wneud y cwrs Canolradd!

Y Gogledd

Dach chi wedi gweithio'n galed iawn ar y Cwrs Sylfaen. .... , dan ni wedi gorffen. .... , rhaid i chi geisio darllen Cymraeg bob cyfle, gwrando ar Radio Cymru ac edrych ar S4C . Ond y peth pwysica, ..... , ydy siarad Cymraeg efo pawb sy'n medru siarad Cymraeg a dŵad yn ôl i wneud y cwrs Canolradd!

Robin Radio Uned 26.

## Cam 10

Gwnewch yn siŵr, os nad ydy hi'n ganol blwyddyn, bod y dysgwyr yn gwybod ble a phryd bydd y cwrs Canolradd yn dechrau!

## Uned 26, Atodiad 1

### Cerdyn 1 (Fersiwn y De)

Dych chi eisiau cael hwyl ac ymarfer Cymraeg?

Dewch i'r cwis i ddysgwyr yn y .....

Dydd Sadwrn, Mehefin ..... yn dechrau am

.....

Bydd cerddoriaeth fyw gan y band gwerin gwych "Ffidl Ffadl" ar ôl y cwis.

Dim ond ..... y pen – tocynnau wrth y drws.

Bydd yr arian yn mynd at ..... Abercastell.

### Cerdyn 1 (Fersiwn y Gogledd)

Dach chi isio cael hwyl ac ymarfer Cymraeg?

Dewch i'r cwis i ddysgwyr yn y .....

Dydd Sadwrn, Mehefin ..... yn dechrau am

.....

Mi fydd cerddoriaeth fyw gan y band gwerin gwych "Ffidl Ffadl" ar ôl y cwis.

Dim ond ..... y pen – tocynnau wrth y drws.

Mi fydd y pres yn mynd at ..... Abercastell.

### Cerdyn 2A

Clwb Criced

5ed

7.30

£7

Ysbyty Abercastell

### Cerdyn 2B

Clwb Tennis

8fed

1.30

£5

Ysgol Feithrin Abercastell

## Uned Arholiad

Mae elfennau'r arholiad wedi'u gwau trwy'r cwrs ond ceir cyfle yma i roi gorolwg o'r arholiad a darparu rhai ymarferion pellach.

### Cam 1 – Darllen a Deall

#### Cwestiwn 1

Eitem a chwestiynau aml-ddewis. Nid oes enghraifft yma ond mae enghreifftiau yn y Gwaith cartref yn unedau 16, 18, 21, 23, 25. Felly, gellir troi at un o'r unedau hyn i ddangos yr union gwestiwn.

#### Cwestiwn 2

Adnabod prif ergyd neges a dewis y pennawd cywir yw'r dasg. Er bod ymarferion tebyg yn y Gwaith cartref, ceir ymarfer ychwanegol yma er mwyn annog y dysgwyr i drafod yr atebion.

#### Cwestiwn 3

Ceir dwy set o fylchau i'w llenwi – gyda'r ail set yn atgyfnerthu'r un pwyntiau â'r set gyntaf. Newidiwch barau ar gyfer yr ail set. Bydd angen rhoi sylw i unrhyw gwestiynau sy'n peri pryder – mae cwestiynau'r amser gorffennol yn derbyn marciau isel yn gyson mewn arholiadau felly byddai'n werth gwneud ychydig o ymarfer ar orffennol 'gwneud'. Ymhlith y deuddeg bwlch, bydd dau yn profi atebion.

Mae rhai dysgwyr yn hoffi dechrau gyda'r bylchau gan fod posibilrwydd y bydd yr atebion yn codi yn rhywle arall yn y papur.

### Cam 2 – Ysgrifennu

#### Cwestiwn 1

Ysgrifennu nodyn – Ceir cyfle i ysgrifennu nodyn mewn unedau Gwaith cartref ac mae cyfleoedd eraill yn yr unedau eu hunain. Yma, ceir ymarfer arddywedid. Dyma'r nodyn:

Fersiwn y de:

Annwyl Nia

Diolch yn fawr iawn am y gwahoddiad i dy barti pen-blwydd yn y clwb rygbi nos Wener nesa. Mae'n flin gyda fi ond bydda i ar wyliau yn Ffrainc yr wythnos nesa. Bydda i'n galw gyda anrheg ar ôl dod adre.

Mwynha'r parti!

Cofion

Elin

Fersiwn y gogledd:

Annwyl Nia

Diolch yn fawr iawn am y gwahoddiad i dy barti pen-blwydd yn y clwb rygbi nos Wener nesa. Mae'n ddrwg gen i ond mi fydda i ar wyliau yn Ffrainc wythnos nesa. Mi fydda i'n galw efo anrheg ar ôl dŵad adre.

Mwynha'r parti!

Cofion

Helen

Rhowch sylw penodol i unrhyw beth sy'n peri problem. Mae'n werth tynnu sylw penodol at y defnydd o'r dyfodol yn y nodyn a'r ymadrodd 'Mae'n flin gyda fi/Mae'n ddrwg gen i'.

### Cwestiwn 2

Ysgrifennu ebost – Darllenwch dros y dasg fel dosbarth cyfan ac yna rhannwch y dosbarth yn barau i lunio ebost. Helpwch ar hyd yr adeg. Gofynnwch i'r parau rannu eu brawddegau sy'n ateb y cwestiynau penodol yn y dasg a rhowch y brawddegau gorau ar y bwrdd gwyn. Gellid edrych i weld a yw'n bosib eu gwella ymhellach. (Ceisiwch osgoi dewis brawddegau'r un pâr bob tro.)

## Cam 3 – Gwrando a Deall

Gwnewch y dasg hon yn union fel yr arholiad – gan roi tri chyfle i'r dysgwyr glywed pob eitem. Efallai yr hoffech fynd dros yr atebion ar ôl pob eitem yn hytrach nag aros tan y diwedd.

## Cam 4 – Y Prawf Llafar

### Cwestiwn 1

Y nod yw gofyn cwestiynau i gael hyd i'r wybodaeth yn y bylchau. Ceir cerdyn enghreifftiol gydag awgrymiadau am y cwestiynau y gellid eu gofyn. Ewch dros y cwestiynau, gan ateb unrhyw gwestiynau sy'n codi. Yna rhowch y bylchau yn unig ar y bwrdd gwyn gan ofyn i bawb gofio'r cwestiynau. Ceir set o gardiau ar gyfer ymarfer pellach yn y Blwch Adnoddau (Atodiad 1 isod).

### Cwestiwn 2

Eglurwch sut bydd yr arholiad yn gweithio ac os yn bosib dangoswch fideo enghreifftiol CBAC - <https://www.cbac.co.uk/qualifications/welsh-for-adults/welsh-for-adults-foundation/>.

Yna, defnyddiwch y cardiau sy'n cynnwys yr holl bynciau sgwrsio posib (Atodiad 2) i ymarfer. Gellid gofyn i'r dysgwyr ddewis cerdyn eu hunain y tro cyntaf, dewis ar hap yr ail dro, ac yna siarad am y pwnc ar y cerdyn y byddwch yn ei roi iddynt. Dylid defnyddio'r pynciau hyn i ymarfer y ddwy elfen – siarad am pwnc, a holi cwestiynau.

## Atodiad 1 (fersiwn y de)

### Partner A

#### Llyfrgell Bryn Mawr

Mae Llyfrgell Bryn Mawr wedi agor!

Mae'r llyfrau i gyd wedi cyrraedd. Erbyn mis Mai, bydd y caffi ar agor.

Dydd Sadwrn nesa, bydd yr awdur enwog, JK Jones, yn agor yr ystafell ddarllen. Bydd y seremoni'n dechrau am un ar ddeg o'r gloch.

Mynediad am ddim ond bydd tocynnau raffl ar werth.

Mae hi'n hawdd ffeindio'r llyfrgell – dim ond hanner milltir o'r orsaf drên.

Croeso!

### Theatr Bryn Mawr

Mae Theatr Bryn Mawr wedi agor!

Mae'r theatr ar gael. Erbyn mis \_\_\_\_\_, bydd y sinema yn barod.

Dydd Sadwrn nesa, bydd yr actor enwog, \_\_\_\_\_, yn agor y theatr mewn cyngerdd mawr. Bydd y cyngerdd yn dechrau am \_\_\_\_\_ o'r gloch.

Mynediad dydd Sadwrn: £\_\_\_\_\_

Mae'n hawdd ffeindio'r ganolfan – dim ond \_\_\_\_\_ o ganol y dre.

**Partner B****Llyfrgell Bryn Mawr**

Mae Llyfrgell Bryn Mawr wedi agor!

Mae'r llyfrau i gyd wedi cyrraedd. Erbyn mis \_\_\_\_\_, mi fydd y caffi ar agor.

Dydd Sadwrn nesa, mi fydd yr awdur enwog, \_\_\_\_\_, yn agor yr ystafell ddarllen. Mi fydd y seremoni'n dechrau am \_\_\_\_\_ o'r gloch.

Mynediad am ddim ond mi fydd \_\_\_\_\_ ar werth.

Mae hi'n hawdd ffeindio'r llyfrgell – dim ond \_\_\_\_\_ o'r orsaf drên.

**Theatr Bryn Mawr**

Mae Theatr Bryn Mawr wedi agor!

Mae'r theatr ar gael. Erbyn mis Mehefin, mi fydd y sinema yn barod.

Dydd Sadwrn nesa, mi fydd yr actor enwog, Magi Jones, yn agor y theatr mewn cyngerdd mawr. Mi fydd y cyngerdd yn dechrau am saith o'r gloch.

Mynediad dydd Sadwrn: £10

Mae'n hawdd ffeindio'r ganolfan – dim ond hanner milltir o ganol y dre.

## Atodiad 1 (fersiwn y gogledd)

### Partner A

#### Llyfrgell Bryn Mawr

Mae Llyfrgell Bryn Mawr wedi agor!

Mae'r llyfrau i gyd wedi cyrraedd. Erbyn mis Mai, mi fydd y caffi ar agor.

Dydd Sadwrn nesa, mi fydd yr awdur enwog, JK Jones, yn agor yr ystafell ddarllen. Mi fydd y seremoni'n dechrau am un ar ddeg o'r gloch.

Mynediad am ddim ond mi fydd tocynnau raffl ar werth.

Mae hi'n hawdd ffeindio'r llyfrgell – dim ond hanner milltir o'r orsaf drên.

Croeso!

### Theatr Bryn Mawr

Mae Theatr Bryn Mawr wedi agor!

Mae'r theatr ar gael. Erbyn mis \_\_\_\_\_, mi fydd y sinema yn barod.

Dydd Sadwrn nesa, mi fydd yr actor enwog, \_\_\_\_\_, yn agor y theatr mewn cyngerdd mawr. Mi fydd y cyngerdd yn dechrau am \_\_\_\_\_ o'r gloch.

Mynediad dydd Sadwrn: £\_\_\_\_\_

Mae'n hawdd ffeindio'r ganolfan – dim ond \_\_\_\_\_ o ganol y dre.



**Partner B****Llyfrgell Bryn Mawr**

Mae Llyfrgell Bryn Mawr wedi agor!

Mae'r llyfrau i gyd wedi cyrraedd. Erbyn mis \_\_\_\_\_, mi fydd y caffi ar agor.

Dydd Sadwrn nesa, mi fydd yr awdur enwog, \_\_\_\_\_, yn agor yr ystafell ddarllen. Mi fydd y seremoni'n dechrau am \_\_\_\_\_ o'r gloch.

Mynediad am ddim ond mi fydd \_\_\_\_\_ ar werth.

Mae hi'n hawdd ffeindio'r llyfrgell – dim ond \_\_\_\_\_ o'r orsaf drên.

**Theatr Bryn Mawr**

Mae Theatr Bryn Mawr wedi agor!

Mae'r theatr ar gael. Erbyn mis Mehefin, mi fydd y sinema yn barod.

Dydd Sadwrn nesa, mi fydd yr actor enwog, Magi Jones, yn agor y theatr mewn cyngerdd mawr. Mi fydd y cyngerdd yn dechrau am saith o'r gloch.

Mynediad dydd Sadwrn: £10

Mae'n hawdd ffeindio'r ganolfan – dim ond hanner milltir o ganol y dre.

## Atodiad 2

### Pynciau Arholiad Sylfaen

Uned 9 Anifeiliaid	Uned 19 Bwyd
Uned 23 Byw'n iach	Uned 15 Cymdogion
Uned 2 Chwaraeon	Uned 8 Darllen
Uned 18 Dathlu	Uned 4 Diddordebau
Uned 22 Dillad	Uned 16 Dw i ddim yn hoffi...
Uned 24 Dyddiau ysgol	Uned 3 Dysgu Cymraeg
Uned 13 Gwaith	Uned 21 Gwyliau diwetha
Uned 21 Gwyliau nesa	Uned 17 Hoff le
Uned 25 Pan o'n i'n blentyn...	Uned 1 Siopa
Uned 4 Taswn i'n ddeunaw oed eto...	Uned 12 Technoleg
Uned 11 Teithio	Uned 7 Teledu neu radio
Uned 5 Teulu neu ffrindiau	Uned 14 Y flwyddyn nesa
Uned 10 Y penwythnos diwetha	Uned 10 Y penwythnos nesa
Uned 20 Y tŷ	Uned 6 Yr ardal

